


CRONFA GOFFA'R
DREFTADAETH
GENEDLAETHOL

# Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2024–2025

HC 1168
SG/2025/134

# Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2024-2025

Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025

Cyflwynir yr adroddiad i Senedd y DU yn unol ag Adran 7(1) Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980, a chyflwynir y cyfrifon i Senedd y DU yn unol ag Adran 7(3) Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980.

I'w argraffu ar 17 Gorffennaf 2025 yn unol â gorchymyn Tŷ'r Cyffredin

Wedi'i roi gerbron Senedd Yr Alban gan Weinidog Yr Alban ar 17 Gorffennaf 2025

Wedi'i roi gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon ar 17 Gorffennaf 2025

Wedi'i roi gerbron Senedd Cymru ar 16 Medi 2025

HC 1168

SG/2025/134

**© Hawlfraint Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol 2025**
Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio pan nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i:

nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd rhaid i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom:

Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
4th Floor
Cannon Bridge House
25 Dowgate Hill
London
EC4R 2YA

ISBN 978-1-5286-5733-4
E03363106 07/25

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 40% cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Wedi'i argraffu yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

# Achub trysorau mwyaf y DU

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (Cronfa Goffa) wedi bod yn dyfarnu grantiau i ddiogelu treftadaeth bwysicaf y DU ers 1980.

Fel ariannwr dewis olaf, rydym yn camu i'r adwy i achub treftadaeth a fyddai bron yn sicr o gael ei cholli fel arall. Mae'r casgliad cynyddol hwn yn eiddo i ni i gyd, am byth, ac mae'n gofeb barhaol i'r rhai sydd wedi rhoi eu bywydau dros y DU.

## Cynnwys


**2 Rhagair gan Dr Simon Thurley CBE**

**4 Prosiectau'r Gronfa Goffa**

5 Saving Mavisbank House
6 A hoard of tremisses from West Norfolk
8 The Deposition from the Cross acquisition
9 King Henry VI as a saint
10 Discovering the Duke Humfrey New Testament
12 Saving the Sanday Shipwreck
13 Saving Basuto
14 Sharing the Nesfield Family Archive
16 Securing a Fra Angelico in Oxford
17 An Orwellian acquisition
18 Turing Delilah Papers
20 Opening a window on the medieval world
21 The last armour of the King's Champion

**22 Adroddiad perfformiad**

22 Trosolwg o berfformiad
25 Dadansoddiad o berfformiad

**32 Adroddiad atebolrwydd**

32 Adroddiad llywodraethu corfforaethol
42 Adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff
52 Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol

**57 Datganiadau ariannol**

57 Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net
58 Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol
59 Datganiad Llifoedd Arian Parod
60 Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr
61 Nodiadau i'r cyfrifon

**70 Datgelu buddsoddiadau**

**71 Cadeirydd, ymddiriedolwyr a rheolwyr**

# Rhagair gan Dr Simon Thurley CBE

## Cadeirydd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn bodoli i achub treftadaeth fwyaf rhagorol y DU. Fel ariannwr dewis olaf, rydym yn camu i'r adwy i achub treftadaeth a fyddai bron yn sicr o gael ei cholli fel arall. Mae'r casgliad cynyddol hwn yn eiddo i ni i gyd, am byth, ac mae'n gofeb barhaol i'r rhai sydd wedi rhoi eu bywydau dros y DU. Rydym yn cymryd gofal mawr i sicrhau bod y casgliad eithriadol hwn ar gael i'r gynulleidfa ehangaf bosibl. Mae ein diffiniad o dreftadaeth yn eang, ac eleni dyfarnwyd grantiau i amrywiaeth eang o dderbynyddion, o archifau i baentiadau a cherfluniau.

Ym mis Mai 2024, dyfarnwyd £5.3 miliwn i Ymddiriedolaeth Landmark i achub Mavisbank House. Mae'r fila Paladiaidd hon o bwys eithriadol i dreftadaeth Yr Alban a'r DU, ond ar ôl blynyddoedd o esgeulustod roedd mewn cyflwr enbydus. Mae ein sefyllfa unigryw fel ariannwr dewis olaf yn golygu y bu modd i ni helpu achub y campwaith Categori A hwn, gan alluogi Landmark Trust i gymryd perchnogaeth drwy ddarparu arian er mwyn ei sefydlogi. Bydd y prosiect hefyd yn rhoi cyfleoedd i bobl leol ymgysylltu â Mavisbank; cynllunnir hyfforddeiaethau cadwraeth treftadaeth a sgiliau adeiladu newydd.

Roeddem wrth ein bodd i roi cefnogaeth gwerth £700,000 i'r V&A i gaffael cerflun o Ddiorseddiad Crist, a ystyrir yn un o'r enghreifftiau pwysicaf o gerfio Seisnig i oroesi o'r cyfnod Romanésg. Bydd gan y Diorseddiad gartref parhaol nawr yn orielau Canoloesol a Dadeni'r V&A lle bydd ar ddangos i'r cyhoedd yn ogystal â bod yn adnodd amhrisiadwy ar gyfer astudio.

O ystyried ei bwysigrwydd hanesyddol rhagorol, dyfarnodd y Gronfa Goffa £60,000 hefyd i helpu'r Amgueddfa Brydeinig i gaffael ffigur aur ac enamel coeth o Harri VI a ddarganfuwyd mewn cae yn Swydd Northampton. Y ffigur yw'r unig enghraifft hysbys o gyfnod y Tuduriaid o waith aur enamel aml-grom cysegredig ac un o'r enghreifftiau gorau o waith metel gwerthfawr o ddiwedd yr Oesoedd Canol a ddarganfuwyd erioed.

Galluogodd ein cyfraniad o £1 miliwn i'r Llyfrgell Brydeinig gaffael pum llawysgrif ganoloesol o ddiddordeb eithriadol o gasgliad preifat Longleat House a oedd mewn perygl o gael eu gwerthu dramor. Bydd y caffaeliad yn ymuno â chasgliad rhyngwladol bwysig o lawysgrifau canoloesol y Llyfrgell Brydeinig.

Pan roddwyd Testament Newydd Dug Humfrey ar y farchnad gan berchennog preifat hefyd, dyfarnodd y Gronfa Goffa £350,000 tuag at ei gaffaeliad gan Lyfrgelloedd Bodley. Mae'r llawysgrif oleuedig hon o'r 13eg ganrif yn cynnwys y cyfieithiad cyflawn cyntaf o'r Beibl i'r Ffrangeg ac nid yw wedi'i gweld gan ysgolheigion ers 300 mlynedd. Mae Llyfrgelloedd Bodley yn gartref tra phriodol ar gyfer y llawysgrif gan mai ei pherchennog hanesyddol, Dug Humfrey, a sefydlodd gasgliadau'r Llyfrgelloedd hefyd. Bydd y llawysgrif yn cael ei harddangos a'i digideiddio i'w gwneud yn hygyrch i bawb.

Helpodd dyfarniad o £650,000 gan y Gronfa Goffa, ynghyd ag apêl gyhoeddus lwyddiannus gan Amgueddfa Ashmolean, i godi'r £4.48m sydd ei angen i gadw Croeshoeliad Fra Angelico yn y DU. Roedd y paentiad eisoes wedi'i werthu i brynwr tramor ac roedd mewn perygl o

“Fel ariannwr dewis olaf, rydym yn camu i'r adwy i achub treftadaeth a fyddai bron yn sicr o gael ei cholli fel arall.”



gael ei allforio. Bydd y Croeshoeliad nawr yn ymuno â chasgliad helaeth Dadeni Eidalaidd yr Ashmolean ac yn cael ei arddangos ochr yn ochr â thriptych prin o'r Forwyn Fair a'r Plentyn gan Fra Angelico a'i stiwdio.

Fe wnaethom gefnogi dwy archif unigryw hefyd eleni: Papurau Delilah Turing sydd o arwyddocâd eithriadol o ran astudio hanes cyfrifiadura, deallusrwydd artiffisial a chryptograffeg; ac Archif Nesfield, sy'n taflu goleuni ar darddiad rhai o dirweddau enwocaf y DU, gan gynnwys Witley Court, Regent's Park, Holkham Hall, Alton Towers, Castle Howard, a nifer o olygfeydd yng Ngerddi Kew. Bydd yr archifau eithriadol hyn bellach yn aros yng Ngholeg y Brenin Caergrawnt a'r Garden Museum yn y drefn honno, a byddant ar gael yn ddigidol.

Eleni cynhaliodd ein Bwrdd adolygiad o'r Gronfa Goffa hefyd i archwilio ac ailddatgan ein sefyllfa fel ariannwr dewis olaf. Yn y dyfodol, byddwn yn gwneud newidiadau sy'n pwysleisio natur dewis olaf y Gronfa Goffa ac yn canolbwyntio ein hymdrechion ar dreftadaeth sydd o'r pwys pennaf i'r DU.

Mae'r Gronfa Goffa yn chwarae rôl hollbwysig wrth achub treftadaeth fwyaf rhagorol y DU. Gyda nifer cynyddol o geisiadau, ac o ystyried ein harian cyfyngedig, mae'n golygu bod egni, gwybodaeth ac ymrwymiad ein staff, aelodau ein Panel Ymgynghorol, a'n hymddiriedolwyr, yn bwysicach nag erioed. Rwy'n estyn fy niolchgarwch diffuant i aelodau'r panel, y cynghorwyr a thîm y Gronfa Goffa am eu hymroddiad parhaus i gefnogi ein hymddiriedolwyr yn eu hymdrechion i achub treftadaeth fwyaf rhagorol y DU ac adeiladu casgliad treftadaeth tragwyddol sy'n eiddo i bob un ohonom.




**Dr Simon Thurley CBE**
Cadeirydd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol

# Prosiectau'r Gronfa Goffa

## Trosolwg

Eleni cefnogodd y Gronfa Goffa 13 o brosiectau sydd o bwys eithriadol i dreftadaeth ar draws y DU.




**Saving the Sanday Shipwreck**
1–Cyngor Ynysoedd Erch

**Saving Mavisbank House**
2–The Landmark Trust

**The last armour of the King's Champion**
3–Royal Armouries Museum

**A hoard of tremisses from West Norfolk**
5–Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk

**Saving Basuto**
4–Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd

**Turing Delilah Papers**
6–Coleg y Brenin, Caergrawnt

**Discovering the Duke Humfrey New Testament**
7–Llyfrgelloedd Bodley

**Securing a Fra Angelico in Oxford**
8–Amgueddfa Ashmolean

**The Deposition from the Cross acquisition**
9–Amgueddfa Victoria ac Albert

**King Henry VI as a saint**
10–Yr Amgueddfa Brydeinig

**Sharing the Nesfield Family Archive**
11–Garden Museum

**An Orwellian acquisition**
12–Coleg Prifysgol Llundain (UCL)

**Opening a window on the medieval world**
13–Y Llyfrgell Brydeinig



# Saving Mavisbank House

## The Landmark Trust | £5,300,000

Adeiladwyd Mavisbank rhwng 1723 a 1727. Fe'i dyluniwyd gan y pensaer William Adam, a'i gleient, Syr John Clerk o Penicuik. Cymathodd Clerk ddiwylliant Ewropeaidd yn ystod ei Daith Fawr yn y 1690au ac ym Mavisbank creodd ei weledigaeth o fila glasurol fel encilfan waraidd yng nghefn gwlad, wedi'i lleoli mewn dyffryn hardd a'i dirluniodd yn ddringar.

Roedd Mavisbank yn enghraifft flaengar o arddull neo-glasurol y byddai mab William Adam, Robert Adam, ac eraill yn ei datblygu ar gyfer Tref Newydd Caeredin genhedlaeth yn ddiweddarach. Adeiladwyd Mavisbank gan weithlu o grefftwyr rhagorol o'r Alban y mae eu henwau a'u cyfraniadau unigol wedi'u cofnodi mewn manylder rhyfeddol yn yr archif sydd wedi goroesi.



Erbyn 1811, nid oedd y tŷ'n cael ei ddefnyddio gan y teulu mwyach a chafodd ei werthu. O 1876 ymlaen roedd yn ysbyty iechyd meddwl preifat goleuedig lle anogwyd cleifion i gymryd rhan mewn garddio o dan arddwr proffesiynol benywaidd cyntaf yr Alban, Mary E. Burton. O'r 1950au, defnyddiwyd y safle fel iard torri ceir. Ym 1973 gadawodd tân trychinebus blasty hardd Clerk yn gragen wag, heb do. Nawr bydd grant o £5.3m gan y Gronfa Goffa yn galluogi i'r tŷ gael ei achub ac mae Landmark Trust yn arwain prosiect dros nifer o gamau i achub ac adfer yr adeilad hwn sydd o bwys rhyngwladol.

**“Moment unwaith mewn oes yw hwn. Mae Mavisbank wedi goroesi o drwch blewyn ers cyhyd, ac ystyriwyd ei ddymchwel o ddifrif ar fwy nag un achlysur. Mae Landmark Trust wrth ei bodd y gallwn ddechrau’r broses o’i achub, drwy’r grant hwn gan Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, a gyda chefnogaeth ac arbenigedd llawer o bobl eraill.”**

**Dr Anna Keay**
Cyfarwyddwr
The Landmark Trust



# A hoard of tremisses from West Norfolk

## Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk | £217,000

Ar ôl i celc mawr o dremisau aur bach gael ei ddarganfod yng Ngorllewin Norfolk, dyfarnodd y Gronfa Goffa £217,000 i Wasanaeth Amgueddfeydd Norfolk i gaffael y celc, gan ddiogelu ei ddyfodol a galluogi i'w arddangos yn barhaol yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Norwich. Bydd y caffaeliad hefyd yn galluogi ymchwil i'r trysor, ei ddigideiddio a'i ddehongli.

Tremisau oedd y darnau arian canoloesol cynnar cyntaf a fathwyd yn Ewrop gyfandirol yn dilyn cwymp yr Ymerodraeth Rufeinig. Daeth datgelwyr o hyd i 132 o ddarnau arian ochr yn ochr â gemwaith aur wedi'i falu ac ingot aur.

Roedd miliynau o ddarnau arian mewn cylchrediad yn ystod y cyfnodau Rhufeinig a chanoloesol oherwydd bod eu heconomïau cylchredeg yn ddatblygedig iawn. Mae darnau arian o'r cyfnod Eingl-Sacsonaidd yn llawer prinnach, ac mae bron pob un o'r celciau darnau arian yn dyddio o'r 10fed a'r 11eg ganrif. Mae celc Gorllewin Norfolk o bwys rhyngwladol nid yn unig am ei ddyddiad cynnar, ond am ei fod yn cynnwys darnau aur yn hytrach na'r darnau arian a oedd yn fwy cyffredin yn y cyfnod canoloesol cynnar.

Mae'r tremisau gwerthfawr hyn yn dangos ailymddangosiad darnau arian yng Ngorllewin Ewrop yn dilyn cwymp yr Ymerodraeth Rufeinig. Gallant ein helpu i ddeall rhyngweithiadau, yn enwedig cyswllt economaidd, rhwng Prydain a chyfandir Ewrop yn ystod y cyfnod Merovingaidd ar ddechrau'r 7fed ganrif.



“Mae prinder pur y darnau arian hyn yn gwneud Celc Gorllewin Norfolk yn ddarganfyddiad rhyfeddol sy’n siŵr o fod yn destun trafodaeth academaidd a rhyfeddod i’r cyhoedd am flynyddoedd i ddod. Mae ei gysylltiadau â safleoedd eraill yn Nwyrain Anglia sydd â chysylltiadau brenhinol yn hynod ddiddorol ac yn codi pob math o gwestiynau ynghylch sut a pham y cafodd y celc ei gladdu yn y gornel hon o Norfolk. Bydd caffael nid yn unig yn galluogi'r casgliad unigryw hwn i aros ynghyd a chael ei astudio yn y manylder y mae'n ei haeddu, ond bydd yn cael ei arddangos i bawb ei weld.”

**Dr Tim Pestell**
Uwch Guradur Archaeoleg
Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Norwich







# The Deposition from the Cross acquisition

## Amgueddfa Victoria ac Albert (V&A) | £700,000

Mae cerflun hynod gywrain a mynegiannol o Ddiorseddiad Crist o'r Groes wedi'i achub ar gyfer y DU, diolch i grant o £700,000 gan y Gronfa Goffa.

Mae'r Diorseddiad wedi'i wneud o ifori walrws ac yn dyddio o tua 1190. Credir iddo gael ei wneud yng Nghaerefrog, un o ganolfannau nawdd artistig, masnach a chrefydd pwysicaf y DU yn y 12fed ganrif. Gyda thynerwch trawiadol, mae'n dal y foment y cafodd Crist ei godi i lawr oddi ar y groes gan Joseff o Arimathea.

Mae'r darn wedi goroesi'r Diwygiad Protestannaidd yn Lloegr ac felly mae'n eithriadol o brin. Wedi'i ystyried ymhlith yr enghreifftiau gorau a phwysicaf o gerfio Romanésg Seisnig yn y byd, mae'n cynnig cipolwg diddorol ar grefftwaith a chwaeth ar lefelau uchaf cymdeithas yn Lloegr yn ystod yr Oesoedd Canol.

Yn dilyn gwaharddiad allforio dros dro ac ymgyrch codi arian lwyddiannus gan y V&A, mae gan y Diorseddiad gartref diogel bellach yn orielau Canoloesol a Dadeni V&A South Kensington i genedlaethau'r dyfodol ei fwynhau.

**“Rwyf wrth fy modd bod y V&A wedi gallu achub y gwrthrych elfennol hwn o gelf Seisnig i’r genedl. Yn y cerfiad bach, godidog hwn mae stori goll am ddiwylliant Cristnogol, dylunio Romanésg a chrefftwaith canoloesol wedi'i chofnodi. Rwy'n ddiolchgar iawn i Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a phawb a gyfrannodd mor hael at sicrhau'r darn rhyfeddol hwn ar gyfer y casgliad cenedlaethol.”**

**Dr Tristram Hunt**
Cyfarwyddwr
Amgueddfa Victoria ac Albert

# King Henry VI as a saint

## Amgueddfa Brydeinig | £60,000


Mae'r ffigur bach aur ac enamel hwn yn dangos y Brenin Harri VI fel sant. Rydym yn gwybod mai Harri VI ydyw oherwydd yr antelop cadwynog wrth ei draed a'r arysgrif 'SH' ar y corbel, sy'n dalfyriad o 'Sant Harri'. Rhaid bod y ffigur wedi'i greu ar ôl marwolaeth Rhisiart III ym 1485, pan anogwyd cwlt byrhoedlog o Sant Harri, a chyn i'r Diwygiad Protestannaidd yn Lloegr atal comisiynu gwrthrychau o'r fath tua 1538.

Roedd y ffigur – a ddarganfuwyd gan datgelwr metel mewn cae yn Swydd Northampton – ynghlwm yn wreiddiol wrth wrthrych llawer mwy a gafodd ei ddinistrio yn yr 16eg ganrif, yn ôl pob tebyg. Yr hyn sy'n weddill yw'r unig enghraifft hysbys o gyfnod y Tuduriaid o waith aur enamel aml-grom cysegredig ac un o'r enghreifftiau gorau o waith metel drudfawr o ddiwedd yr Oesoedd Canol a ddarganfuwyd erioed.

O ystyried ei bwysigrwydd hanesyddol eithriadol, dyfarnodd y Gronfa Goffa £60,000 i helpu'r Amgueddfa Brydeinig i gaffael y ffigur. Bydd ymchwil bellach yn ychwanegu at ddehongliad o'r gwrthrych cyfareddol hwn.

**“Rydym wrth ein bodd ac yn ddiolchgar iawn o fod wedi cael cefnogaeth gan y Gronfa Goffa i gaffael y ffigur bach hwn o Harri VI ar gyfer y casgliadau cenedlaethol. Bellach yn cael ei arddangos yn yr Amgueddfa Brydeinig, mae'r ffigur yn sefyll ei dir yn erbyn gwaith eurwyr cyfandirol ac yn cynnig cipolwg sy'n ennyn chwilfrydedd ar ansawdd uchel gwaith metel cysegredig Lloegr a ddinistriwyd yn yr 16^eg ganrif.”**

Rachel King
Curadur: Renaissance Europe and the Waddesdon Bequest
Yr Amgueddfa Brydeinig





# Discovering the Duke Humfrey New Testament

Llyfrgelloedd Bodley | £350,000



Pan ddaeth y llawysgrif oleuedig hon o'r 13eg ganrif ar y farchnad, fe'i datganwyd yn 'drysor cenedlaethol' newydd ac yn gampwaith anhysbys o arwyddocâd eithriadol. Mae Testament Newydd Dug Humfrey yn enghraifft brin o gyfieithiad cynnar o'r Testament Newydd i'r Hen Ffrangeg. Gyda chefnogaeth gan y Gronfa Goffa, bu i Lyfrgelloedd Bodley Prifysgol Rhydychen gaffael y llawysgrif yn dilyn gwaharddiad allforio, gan atal ei cholli o'r DU. Mae bellach ar gael i'r cyhoedd am y tro cyntaf, mewn arddangosfeydd Bodley ac ar-lein.

Wedi'i gynhyrchu yn Ffrainc yn y 1280au, mae wedi'i addurno'n goeth â llythrennau hanesyddol gan Feistr Cholet, gan adlewyrchu'r arddull ddiweddaraf o gelf Gothig fywiog. Roedd peintio a lliw yn hanfodol i bensaernïaeth eiconig yr arddull hon, ond anaml y mae'r nodweddion hyn yn goroesi y tu allan i lawysgrifau.

Mae'r llawysgrif wedi'i chydblethu â hanes cysylltiadau Eingl-Ffrengig. Y Brenin Jean II o Ffrainc, a elwid yn Jean le Bon (a deyrnasodd 1350–64), oedd y perchennog cyntaf. Mae'n bosibl bod y llyfr wedi dod i Loegr ar ôl i'r Saeson gipio Jean ym Mrwydr Poitiers ym 1356; neu drwy Siân o Navarre, brenhines gydweddog Lloegr (1368–1437), a roddodd y llyfr i'w llysfab Thomas, Dug Clarence (1387–1421). Mae'n debyg bod ei wraig Margaret Holland (1385–1439) wedi'i drosglwyddo i'w mab Edmund Beaufort (tua. 1406–55). Gwnaeth ef ei roi i Humfrey, Dug Caerloyw (1390–1447), y casglwr llyfrau canoloesol enwocaf yn Lloegr. Mae Llyfrgell Dug Humfrey – un o ystafelloedd darllen hynaf Lloegr ac sydd bellach yng nghanol Llyfrgelloedd Bodley – wedi'i henwi ar ei ôl.

Galluogodd grant o £350,000 gan y Gronfa Goffa i Lyfrgelloedd Bodley achub y trysor cenedlaethol hwn, gyda chefnogaeth gan Art Fund (gyda chyfraniad gan Sefydliad Wolfson), Friends of the Nations' Libraries, Friends of the Bodleian a rhoddwyr preifat. Defnyddiodd Llyfrgelloedd Bodley dechnegau delweddu newydd i ddatgelu arysgrifau wedi'u dileu, gan ddadorchuddio mwy o fanylion am le'r llawysgrif mewn hanes, a chynhaliodd symposiwm ar y llyfr ym mis Mawrth 2025. Mae'r llyfr hefyd yn rhan o raglen ymgysylltu cyhoeddus uchelgeisiol y Llyfrgelloedd, gan gynnwys yn yr arddangosfa 'Treasured', sydd ar agor o 6 Mehefin i 26 Hydref 2025 yn Llyfrgell Weston.





**“Mae’r llawysgrif eithriadol hon yn llenwi bwlch hanfodol yn ein dealltwriaeth o’r Testament Newydd yn Hen Ffrangeg, a bydd yn galluogi’r argraffiad beirniadol cyntaf o’r gwaith pwysig hwn. Diolch i Gronfa Goffa’r Dreftadaeth Genedlaethol, a rhoddwyr eraill, gall y cyhoedd nawr werthfawrogi’r trysor hwn ar-lein ac yn Llyfrgelloedd Bodley, gan gynnwys mân-luniau cain Meistr Cholet. Mae rhaglen gadwraeth wedi sicrhau y bydd modd i genedlaethau'r dyfodol ei ddefnyddio fel ffynhonnell cipolygon ar gyfieithiadau canoloesol o’r ysgrythur, diplomyddiaeth Eingl-Ffrengig, celf, a phwysigrwydd llyfrau fel gwrthrychau diwylliannol. Mae'n fraint brin i groesawu adref y fath drysor o hanes diwylliannol Ewropeaidd.”**

**Dr Andrew Dunning**
R.W. Hunt Curadur Llawysgrifau Canoloesol
Llyfrgelloedd Bodley



# Saving the Sanday Shipwreck

## Cyngor Ynysoedd Erch | £79,658

Yn dilyn stormydd gaeaf ddechrau 2024, ymddangosodd pren Llongddrylliad Sanday ar draeth ar Sanday, trydedd ynys fwyaf Ynysoedd Erch.

Awgryma'r arwyddion cynnar y gallai'r llong fod yn ddyluniad o'r 17eg ganrif neu ddechrau'r 18fed ganrif, efallai'n tarddu o Loegr neu'r Iseldiroedd, a'i bod yn eithriadol o gadarn, gan awgrymu o bosibl y bu'n llong ryfel neu long fasnachol arfog. Roedd y ddwy wlad yn uwch-bwerau llyngesol byd-eang ar y pryd gan wneud y darganfyddiad hwn o arwyddocâd rhyngwladol posibl.

Mae'r Gronfa Goffa wedi dyfarnu grant o £79,658 i Gyngor Ynysoedd Erch i alluogi adeiladu tanc dŵr croyw wyth metr o hyd i ddal y pren. Bydd hyn yn ei gadw dan ddŵr ar y safle, gan sicrhau ei oroesiad am ddwy i dair blynedd wrth i Gyngor Ynysoedd Erch a Chanolfan Dreftadaeth Sanday gynllunio a chodi arian i'w harddangos a'i dehongli'n barhaol fel rhan o stori Sanday, Ynys y Llongddrylliadau.



"Ni waeth pa mor dda rydych chi'n cynllunio, weithiau mae tynged yn eich taflu'n anwadal. Mae'n gyfle ac yn her enfawr ar yr un pryd, ac roedd hyn yn sicr yn wir gyda Llongddrylliad Sanday! Diolch byth am y Gronfa Goffa, a weithredodd ar frys i ddarparu'r gefnogaeth yr oedd ei hangen arnom i helpu'r gymuned i ofalu am yr arteffact gwych hwn, gan roi amser i ni ei astudio'n fanwl a chynllunio dyfodol cynaliadwy ar ei gyfer."

**Nick Hewitt**
Rheolwr Tîm (Diwylliant)
Cyngor Ynysoedd Erch

Mae bywyd newydd wedi'i roi i Basuto, a ddisgrifiwyd fel "gwas gweithgar a ffyddlon", diolch i grant o £234,583 gan y Gronfa Goffa. Llong pwffian Clyde a adeiladwyd yn Glasgow ym 1902 ac a enwyd ar ôl gwladfa Brydeinig ar y pryd (Lesotho heddiw) yw Basuto. Mae hi'n rhan o gasgliad Amgueddfa Dyfrffyrdd Genedlaethol yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd ym Mhorthladd Ellesmere ac wedi'i chynnwys ar y Gofrestr Fflyd Hanesyddol Genedlaethol.

Llongau cargo un mast a daniwyd gan lo oedd llongau pwffian Clyde. Basuto yw'r unig long pwffian fewndirol gwaelod gwastad sydd wedi goroesi yn y byd. Aeth hi â haearn i ffowndrïau Falkirk trwy gamlas Forth a Clyde, yna glo i Belfast a graean i Widnes. Gwasanaethodd yn y ddau Ryfel Byd, yna yn Nociau Manceinion tan 1981.

Roedd Basuto yn cymryd dŵr ymlaen a darganfuwyd asbestos ynddi. Roedd ei ffabrig yn dirywio ac roedd perygl y byddai asbestos a chemegolion eraill yn llygru'r gamlas. Mae cefnogaeth gan y Gronfa Goffa yn golygu y gellir codi Basuto o'r dŵr i grud wedi'i adeiladu'n bwrpasol. Bydd hi'n cael ei gwneud yn ddwrglos a bydd yr asbestos yn cael ei dynnu cyn iddi ddod yn arddangosfa awyr agored barhaol y bydd y cyhoedd yn gallu dod yn agos ati i'w mwynhau am y tro cyntaf.




**“Basuto yw’r llong pwffian 'puffer' Clyde fewndirol hynaf sydd wedi goroesi, ac mae ei thaith hanesyddol bersonol yn rhoi cipolwg gwerthfawr i ni ar hanes ein gwlad. Mae hi'n adrodd stori unigryw y gallwn bellach ei rhannu â chenedlaethau'r dyfodol trwy arddangosfeydd dehongli newydd a fydd yn cyd-fynd â'i hachub. Rydym yn ddiolchgar iawn i Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol am roi’r grant achubol hwn, a fydd yn helpu i ddiogelu’r llong bwysig hon i’r genedl.”**

**Steve Bagley**
Rheolwr
Casgliadau Cenedlaethol yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd

# Saving Basuto

## Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd | £234,583



# Sharing the Nesfield Family Archive

## Garden Museum | £89,000

Ffurfioldeb graslon, gyda parterres cymhleth, ffynhonnau mawreddog a cherfluniau cywrain. Dyma oedd nodweddion arddull Nesfield. Teulu o benseiri tirwedd Fictoraidd blaenllaw, a ddatblygodd dros 250 o brosiectau ledled y DU gyda'i gilydd oedd y teulu Nesfield.

Ymladdodd y tad, William Andrews Nesfield (1793–1881), ym Mrwydr Waterloo cyn dod yn arlunydd dyfrlliw a fu'n arbenigo mewn tirluniau. Yna symudodd yn llwyddiannus i faes tirlunio, fel y gwnaeth dau o'i feibion, William Eden (1835–88) ac Arthur Markham Nesfield (1841–74).

Mae Archif Nesfield yn cynnwys dros 700 o frasluniau a chynlluniau, 900 o ddyfrlliwiau ac astudiaethau a 100 o eitemau eraill gan gynnwys llyfrau nodiadau a phapurau. Roedd yn eiddo preifat nes iddi gael ei chaffael gan Garden Museum, gyda chyfraniad o £89,000 gan y Gronfa Goffa tuag at ei phrynu. Mae'r archif yn taflu goleuni ar darddiad rhai o dirweddau enwocaf y DU, gan gynnwys Witley Court, Regent's Park, Holkham Hall, Alton Towers, Castle Howard ac Aldenham Park. Bydd yn dod yn rhan o Archif Dylunio Gerddi y Garden Museum, gyda digwyddiadau wedi'u cynllunio i ymchwilio i'r casgliad hanesyddol arwyddocaol hwn a'i ddathlu.



> “Roedd teulu Nesfield yn un o brif rymoedd dylunio tirweddau'r oes Fictoraidd; Mae'n gyfle untro yn wirioneddol i archif mor arwyddocaol ddod ar werth gynifer o flynyddoedd yn ddiweddarach. Diolch i waith hynod hael a chyflym y Gronfa Goffa a'n harianwyr eraill, mae gan yr archif gartref parhaol ochr yn ochr â rhai o'u cyd-grewyr dylunio gerddi nodedig, i'w rhannu gyda'r cyhoedd yn y Garden Museum.”

**Rob Hillman**
Archifydd
Garden Museum




Ground Plan of Aquarium -



# Securing a Fra Angelico in Oxford

## Amgueddfa Ashmolean | £650,000



Mae paentiad aur godidog o'r croeshoeliad bellach wedi ymuno â chasgliad Amgueddfa Ashmolean, diolch yn rhannol i grant o £650,000 gan y Gronfa Goffa.

Fe'i gelwir yn Groeshoeliad gyda'r Forwyn Fair, Sant Ioan yr Efengylwr a'r Magdalen, ac fe'i peiniwyd tua 1420 gan Fra Angelico, brawd o Fflorens. Roedd yn bwnc y byddai'n dychwelyd ato'n aml ac yn ôl pob sôn byddai bob amser yn peintio â dagrau'n llifo i lawr ei wyneb.


Arhosodd y paentiad 200 mlynedd mewn casgliad preifat cyn cael ei gydnabod fel Fra Angelico ym 1996. Fe'i gwerthwyd yn 2023 i brynwr tramor ac roedd mewn perygl o gael ei allforio, nes i apêl gyhoeddus lwyddiannus godi £4.48m i gadw'r paentiad yn y DU.

Mae gan yr Ashmolean gasgliad helaeth o gyfnod y Dadeni Dysg Eidalaidd sy'n cynnwys darnau gan Raphael, Michelangelo ac Uccello yn ogystal â thriptych prin o'r Forwyn Fair a'r Plentyn gan Fra Angelico a'i stiwdio. Bydd y Croeshoeliad nawr yn cael ei arddangos ochr yn ochr â'r triptych, gan gyfoethogi dehongliad yr amgueddfa o'r cyfnod artistig allweddol hwn.

**“Mae Croeshoeliad Fra Angelico yn gaffaeliad gwych i’r Ashmolean, gan drawsnewid ac yn adeiladu ar ein casgliad o gyfnod cynnar y Dadeni. Rwyf wrth fy modd y bydd miliynau o ymwelwyr sy'n dod drwy ein drysau nawr yn gallu mwynhau'r gwaith hardd, teimladwy a phwysig hwn – y paentiad cynharaf sydd wedi goroesi gan yr artist o bwnc y byddai'n dychwelyd ato dro ar ôl tro drwy gydol ei yrfa.**

**Nid oedd codi bron i £4.5m mewn chwe mis byr yn dasg hawdd yn yr hinsawdd bresennol, ac rwy'n hynod o ddiolchgar i'r Gronfa Goffa a'r holl gyfranwyr a'n helpodd ni i groesi'r llinell gyda dim ond dyddiau i fynd.”**

**Dr Xa Sturgis CBE**
Cyfarwyddwr yr Ashmolean




# An Orwellian acquisition


## Coleg Prifysgol Llundain (UCL) | £64,000

Roedd George Orwell yn un o awduron mwyaf dylanwadol yr 20fed ganrif, gyda'i enw yn cyrraedd statws eponymaidd. Eto i gyd, ni chadwodd Orwell lawer o gofnodion. Mae mwyafrif y rheini sydd gennym yn archif Orwell fwyaf y byd, Casgliad George Orwell, a gedwir gan Goleg Prifysgol Llundain ac a restrir yng Nghofrestr Cof y Byd UNESCO. Er hynny, roedd UCL erioed wedi bod yn brin o ddeunyddiau sy'n ymwneud â chyhoeddiadau cynnar Orwell. Dyna oedd hi nes i'r olaf o archif Victor Gollancz (cyhoeddwr cyntaf Orwell) ddod ar werth.

Roedd y rhan fwyaf o archif Gollancz wedi bod mewn dau warws ers ei farwolaeth ym 1967. Yn 2018 penderfynodd y perchennog presennol werthu'r hyn oedd yn weddill. Daeth pum ffeil ar gael ar A Clergyman's Daughter (1935), Keep the Aspidistra Flying ac Inside the Whale (1936), The Road to Wigan Pier (1937), a ffeil o ohebiaeth am ysbrydoliaethau Orwell a'r posibilrwydd o achosion enllib. Llwyddodd UCL i'w caffael gyda grant o £64,000 gan y Gronfa Goffa.

> **“Mae George Orwell yn parhau i fod yn un o ffigurau llenyddol pwysicaf yr 20fed ganrif ac mae ei waith yn parhau i fod yn berthnasol heddiw. Rydym wrth ein bodd, gyda chefnogaeth hael gan y Gronfa Goffa, y bu'n bosibl i UCL brynu'r ohebiaeth hon sy'n ymwneud â chyhoeddi ei weithiau cynnar. Bydd hyn yn gwella Archif George Orwell ac yn caniatáu ymchwil bellach i'w ddatblygiad fel awdur.”**

**Sarah Aitchison**
Cyfarwyddwr Casgliadau Arbennig
UCL







# Turing Delilah Papers


## King's College, Caergrawnt | £97,876

Alan Turing oedd yr athrylith y tu ôl i beiriant dadgryptio'r Bombe a dorrodd godau'r Natsïaid a byrhau'r Ail Ryfel Byd. Roedd hefyd yn un o sylfaenwyr cyfrifiadureg ac erbyn hyn mae'n derbyn clod am darddiad deallusrwydd artiffisial.

Ni chadwodd Turing lawer o nodiadau na lluniadau gweithio. Ond fe wnaeth un o'i gydweithwyr, y peiriannydd Donald Bayley. Gweithiodd Bayley gyda Turing ar Delilah, peiriant a ddyluniwyd i amgryptio'r gair llafar. Pan ddaeth y rhyfel i ben nid oedd angen Delilah mwyach, ond cadwodd Bayley nodiadau'r prosiect a'r cyfrifiadau a wnaed ganddo a Turing, ynghyd â nodiadau a gymerodd yn ystod darlithoedd Turing. Mae llawer o'r nodiadau wedi'u hysgrifennu ar gefn ffurflenni telegraffiaeth ddiwifr ('Ffurflenni Coch'). Yn gyffredinol, dinistriwyd y rhain yn y rhyfel, felly maent ynddynt eu hunain yn oroesiadau prin.


Mae Papurau Delilah Turing o arwyddocâd eithriadol o ran astudio hanes cyfrifiadura, deallusrwydd artiffisial a chryptograffeg. Yn dilyn grant o £97,876 gan y Gronfa Goffa, llwyddodd Coleg y Brenin Caergrawnt, i'w caffael, gan eu cadw yn y DU. Mae gan y Coleg ddeunydd Turing eisoes, y rhan fwyaf ohono yn Archif Ddigidol Turing. Mae cynlluniau ar y gweill i wneud Papurau Delilah Turing yn rhan o'r archif ddigidol hon.





"Byddai datblygiad arloesol Alan Turing o beiriant amgodio llais cludadwy yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a'i fewnwelediadau i'r mathemateg y tu ôl iddo, wedi aros yn anhygyrch i'r cyhoedd heb y gefnogaeth hael a hyblyg gan y Gronfa Goffa. Rydym yn ddiolchgar i'r Gronfa Goffa a'n rhoddwyr eraill am sicrhau bod Papurau Delilah yn dod i King's lle byddant yn ymuno â'n Papurau Turing poblogaidd presennol."

**Dr Patricia McGuire**
Archifydd
Coleg y Brenin, Caergrawnt





# Opening a window on the medieval world

## Llyfrgell Brydeinig | £1,000,000

Mae gan y Llyfrgell Brydeinig gasgliad o lawysgrifau canoloesol o bwys rhyngwladol, gan gynnwys casgliad heb ei ail o lawysgrifau mewn Saesneg Canol. I gyfoethogi'r casgliad hwnnw ymhellach, a gyda chyfraniad o £1 miliwn gan y Gronfa Goffa, mae wedi ychwanegu trysorfa o bum llawysgrif ganoloesol bwysig o gasgliad preifat Tŷ Longleat, Wiltshire.

Mae'r caffaeliad yn cynnwys geiriadur tairieithog, Sallwyr, a gramadeg Hebraeg a ddefnyddiwyd ar gyfer astudio Hebraeg yn Lloegr ganoloesol; a Llyfr Coch Caerfaddon, a wnaed ar gyfer corfforaeth ddinesig Caerfaddon yn y 1420au ac sy'n cynnwys amrywiaeth o destunau hanesyddol, llenyddol a gweinyddol.

Mae'n cynnwys The Form of Living gan Richard Rolle, a thestunau gweledigaethol a chrefyddol cysylltiedig, yn bennaf mewn Saesneg Canol. Roedd Rolle (tua. 1300–49) yn feudwy ac yn awdur mystig a chrefyddol o Loegr. Canllaw ysbrydol, The Form of Living, oedd ei waith enwocaf. Mae yna hefyd gasgliad unigryw o bregethau Saesneg Canol, y credir iddynt gael eu hysgrifennu gan frawd Ffransisgaidd yn Nwyrain Anglia; a'r Arma Christi, llawysgrif defosiynol goleuedig, a ysgrifennwyd yn bennaf yn Saesneg Canol.

**“Mae’r Llyfrgell Brydeinig wrth ei bodd â medru caffael pum llawysgrif ganoloesol bwysig o Dŷ Longleat, diolch i haelioni Cronfa Goffa’r Dreftadaeth Genedlaethol. Mae pob un o'r pum llawysgrif o arwyddocâd treftadaeth genedlaethol mawr. Drwy eu hychwanegu at y casgliad cenedlaethol, gallwn sicrhau eu bod ar gael i ystod eang o gynulleidfaoedd, ac i gefnogi ymchwil flaengar i sut y gwnaed a defnyddiwyd y llawysgrifau hyn.”**

**Julian Harrison**
Prif Guradur Hanes a Llenyddiaeth Ganoloesol
Y Llyfrgell Brydeinig



Mae Pencampwr y Brenin wedi chwarae rhan unigryw yng nghoroni brenhinoedd a breninesau Lloegr ers yr 11eg ganrif. Gwilym Goncwerwr oedd y cyntaf i gael Pencampwr arfog mewn arfwisg ar gefn ceffyl yn ngorymdaith y coroni. Roedd yn ofynnol i'r Pencampwr gyhoeddi y byddent yn gorchymyn prawf trwy ornest ar unrhyw berson a heriai hawl y Brenin neu'r Frenhines newydd i'r orsedd.

Mae swydd y Pencampwr yn etifeddol ac yn dal i fodoli heddiw. Ond ar ôl coroni Siôr IV ym 1821 – y drutaf yn hanes Prydain – diflannodd yr her ar gefn ceffyl a'r arfwisg. Mae'r Pencampwr, sy'n dal i fod yn aelod gwrywaidd o deulu Dymoke, bellach yn cerdded yn yr orymdaith yn dal y faner frenhinol, fel y gwnaeth y diweddar Francis Dymoke yng nghoroni'r Brenin Siarl yn 2023.

Yn dilyn grant o £194,450 gan y Gronfa Goffa, mae Amgueddfa'r Arfdai Brenhinol wedi caffael yr arfwisg seremonïol olaf sy'n bodoli o goroni 1821 yn y DU. Bydd y darn unigryw hwn o hanes yn cael ei arddangos yn Nhŵr Llundain ac yn yr Arfdai Brenhinol yn Leeds.

**“Rydym wrth ein bodd, gyda chefnogaeth hael gan y Gronfa Goffa, bod Amgueddfa'r Arfdai Brenhinol yn gallu caffael arfwisg hanesyddol Pencampwr y Brenin o Goroni Siôr IV. Wedi'i wisgo gan Syr Henry Dymoke ym 1821—y Pencampwr olaf mewn arfwisg i gymryd rhan mewn coroni Prydeinig—mae'r darn rhyfeddol hwn yn ychwanegu'n sylweddol at gyfoeth a chyflawnrwydd ein casgliad cenedlaethol. Bydd ei gadwraeth o fewn yr Arfdai Brenhinol yn caniatáu i ni rannu'r symbol pwerus hwn o seremonïau a thraddodiadau brenhinol gyda'r cyhoedd trwy arddangosfeydd, dehongliadau ac ymchwil am genedlaethau i ddod.”**

**Henry Yallop**
Ceidwad Arfau Miniog ac Arfwisgoedd, a'r Prif Guradur
Royal Armouries Museum

# The last armour of the King's Champion

## Royal Armouries Museum | £194,450



# Adroddiad perfformiad

## Trosolwg o berfformiad

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am brif amcanion a strategaethau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (y Gronfa Goffa). Mae'r adran drosolwg yn rhoi gwybodaeth i'r defnyddiwr am ddibenion a gweithgareddau'r sefydliad, y risgiau allweddol i gyflawni ei amcanion a sut y mae wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Yn yr adran dadansoddiad mae'r Bwrdd yn adrodd ar ei fesurau perfformiad pwysicaf, gan gynnwys dadansoddiadau sy'n defnyddio gwybodaeth ariannol o'r datganiadau ariannol.

### Ein perfformiad yn 2024-2025: datganiad gan y Prif Weithredwr

Roedd hon yn flwyddyn pan barhaodd y Gronfa Goffa i chwarae rhan arwyddocaol ym mywyd y genedl drwy ddiogelu a sicrhau amrywiaeth gyfoethog o dreftadaeth o safon fyd-eang ar gyfer cyhoedd y DU.

### Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn bodoli i achub treftadaeth fwyaf rhagorol y DU. Fel ariannwr dewis olaf, rydym yn camu i'r adwy i achub treftadaeth a fyddai bron yn sicr o gael ei cholli fel arall. Mae'r casgliad cynyddol hwn yn eiddo i ni i gyd, am byth, ac mae'n gofeb barhaol i'r rhai sydd wedi rhoi eu bywydau dros y DU. Mae gennym ddiffiniad eang o dreftadaeth ac rydym wedi darparu grantiau i achub ystod amrywiol o dreftadaeth eleni, o gerfluniau cyn y Diwygiad Protestannaidd i longddrylliad a nodiadau gwaith dau o gewri deallusol yr 20$^{fed}$ ganrif. Fe wnaethom helpu caffael ac atgyweirio treftadaeth er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei gwarchod am genedlaethau i ddod.

Ym mis Mai 2024 roeddem wrth ein bodd i roi dyfarniad mwyaf sylweddol o'r flwyddyn, sef £5.3m i Mavisbank House ger Caeredin. Mae gan Mavisbank gymwysterau treftadaeth rhagorol – yn gynhenid: fe'i dyluniwyd mewn arddull neoglasurol arloesol gan y pensaer Albanaidd mawr ei fri William Adam ac fe'i hadeiladwyd ym 1723 gan grefftwyr rhagorol; ac yn hanesyddol: fe'i comisiynwyd gan John Clerk, ffigur blaenllaw Oes Oleuedig Yr Alban, a daeth yn ysbyty meddwl arloesol yn y 19$^{eg}$ ganrif a fu'n deor diwygiadau i'r Deddfau Gwallgofrwydd cenedlaethol. Fodd bynnag, yn dilyn tân dinistriol a'i adael yn segur wedi hynny, roedd yr hyn a oedd yn weddill o'r adeilad hardd hwn mewn perygl o gael ei ddymchwel. Mae ein dyfarniad wedi atal Mavisbank rhag cael ei golli am byth ac wedi gosod y sylfeini ar gyfer dyfodol cynaliadwy.

Mae eitemau eraill a gefnogir eleni yn adlewyrchu'r ystod eang o dreftadaeth y gallwn ei hystyried, ac yn cynnwys celc o ddarnau aur o'r 7$^{fed}$ ganrif, arfwisg o'r 19$^{eg}$ ganrif a llong gargo unigryw o'r Clyde a wasanaethodd yn y ddau Ryfel Byd.

Yn 2024–2025, cynhaliodd ein Bwrdd adolygiad trylwyr o'r Gronfa Goffa hefyd, ar ôl lansiad llwyddiannus strategaeth Treftadaeth 2033 Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Y nod oedd gwirio ac ailddatgan sefyllfa'r Gronfa Goffa er mwyn cryfhau ein blaenoriaethau strategol ar gyfer y dyfodol. O ganlyniad, byddwn yn gwneud newidiadau a fydd yn cynyddu ein ffocws ar ein rôl fel ariannwr dewis olaf ac ar y dreftadaeth sydd o'r pwys mwyaf i'r DU. Rydym hefyd am bwysleisio ein rôl goffa: bod ein grantiau'n creu casgliad cyhoeddus o dreftadaeth fel cofeb i'r rhai sydd wedi marw dros y DU. Byddwn yn gweithredu'r newidiadau hyn yn ein deunyddiau ymgeisio a'n cyfathrebiadau yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd.

### Arian ychwanegol ar gyfer treftadaeth

Mae ein partneriaethau â Llywodraeth Cymru a Defra wedi parhau i dyfu. Y Gronfa Goffa yw'r partner o ddewis ar gyfer nifer o raglenni ar draws rhaglen lywodraethol gyfredol Llywodraeth Cymru, gan barhau i ariannu adferiad byd natur gan gynnwys Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, y Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG), Rhwydweithiau Natur a Choetiroedd Bach. Dyfarnwyd dros £17.1m gennym eleni yng Nghymru ar draws pedair rhaglen cymorth grant, ac rydym yn

edrych ymlaen at rowndiau grantiau ychwanegol o TWIG a Rhwydweithiau Natur yn 2025–2026.

Mae Species Survival Fund a'r Trees Call to Action Fund yn parhau i gael eu gweithredu ar ran Defra, gan gefnogi creu ac adfer cynefinoedd sy'n gyfoeth o fywyd gwyllt ac adeiladu gallu i gyflwyno Cynllun Gweithredu Coed Lloegr. Drwy gydol y flwyddyn roedd wyth rhaglen cymorth grant yn y cyfnod monitro, lle mae prosiectau'n parhau i gael eu cyflwyno o ariannu a ymrwymwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Cafodd dwy raglen eu cau yn ystod y flwyddyn gyda phob prosiect wedi'i gwblhau: Cronfa Her Adferiad Gwyrdd a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur – Chwalu Rhwystrau.

## Ein diben a gweithgareddau

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol wedi'i breinio mewn corff corfforaethol a'i gweinyddu ganddo, y mai ei enw yw ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Mae'n cynnwys Cadeirydd a dim mwy na 14 o aelodau eraill a benodir gan y Prif Weinidog. Sefydlwyd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar 1 Ebrill 1980 gan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 ('Deddf 1980') mewn olyniaeth i'r Gronfa Tir Genedlaethol, fel coffâd i'r rheiny sydd wedi rhoi eu bywydau dros y DU. Mae'n derbyn cymorth grant blynyddol gan lywodraeth y DU i'w galluogi i ddyfarnu grantiau. Cafodd pwerau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr eu hymestyn gan ddarpariaethau Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ('Deddf 1993'), Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1997 ('Deddf 1997') a Deddf y Loteri Genedlaethol 1998.

O dan Ddeddf 1993, daeth yr ymddiriedolwyr yn gyfrifol hefyd am ddosbarthu'r gyfran honno o enillion y Loteri Genedlaethol a ddyrannir i dreftadaeth. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol baratoi cyfrifon ar wahân ar gyfer derbyn a dyrannu cymorth grant ac ar gyfer eu gweithrediad fel dosbarthwr arian y Loteri Genedlaethol. Mae'r ymddiriedolwyr wedi dewis cyfeirio at y cyllid fel Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (Cronfa Goffa) ar gyfer symiau a ddyrannwyd o dan ddarpariaethau Deddf 1980 ac fel Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (y Gronfa Treftadaeth) ar gyfer cyllid a dderbynnir o dan ddarpariaethau Deddf 1993.

O dan adrannau 3 a 3a Deddf 1980, gall ymddiriedolwyr wneud grantiau a benthyciadau o Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol at ddiben caffael, cynnal neu warchod:

1. unrhyw dir, adeilad neu adeiledd sydd, ym marn yr ymddiriedolwyr, o ddiddordeb golygfaol, hanesyddol, esthetig, pensaernïol, archeolegol neu wyddonol eithriadol
2. unrhyw wrthrych sydd, yn eu barn hwy, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol
3. unrhyw gasgliad neu grŵp o wrthrychau, sef casgliad neu grŵp sydd, yn ei gyfanrwydd, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol yn eu barn hwy

Mae adran 4 o Ddeddf 1980 (fel y'i diwygiwyd) yn ymestyn pwerau'r ymddiriedolwyr i wella arddangosiad eitemau o ddiddordeb eithriadol i'r dreftadaeth genedlaethol drwy roi cymorth ariannol i adeiladu, trawsnewid neu wella unrhyw adeilad er mwyn darparu cyfleusterau a ddylunnir i hyrwyddo mwynhad y cyhoedd neu ddatblygu gwybodaeth y cyhoedd.

O dan Ddeddf 1980 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf 1997, gall yr ymddiriedolwyr bellach gynorthwyo hefyd â phrosiectau a anelir at gynyddu dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o'r dreftadaeth ac at ddehongli a chofnodi agweddau pwysig ar hanes, hanes naturiol a thirwedd y genedl. Mae'r ymddiriedolwyr yn defnyddio'r pwerau estynedig hyn yng nghyswllt Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Cred yr ymddiriedolwyr fod gan Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol rôl hanfodol fel rhagfur craidd wrth amddiffyn eitemau o bwysigrwydd eithriadol i'r genedl sydd mewn perygl, ac er cof am y rhai sydd wedi rhoi eu bywydau dros y DU. Bydd yr ymddiriedolwyr yn parhau i ddefnyddio'r adnoddau a ddarperir gan lywodraeth y DU, yn ogystal ag adnoddau o'i gronfa waddol, i gynnig cefnogaeth ariannol fel cronfa cyfle olaf ar gyfer caffael, diogelu a chynnal a chadw treftadaeth sydd mewn perygl o gael ei dinistrio neu ei cholli.

## Ein risgiau allweddol

Daeth ein gweithgareddau dosbarthu Trysorlys/cymorth grant ar draws risgiau amrywiol, ac ymdriniwyd â phob un ohonynt yn llwyddiannus ac yn effeithlon i leihau unrhyw effeithiau negyddol ar ein hymgeiswyr/grantïon, rhanddeiliaid, a'r Gronfa Goffa. Hysbyswyd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a rhoddwyd sicrwydd iddynt am ein mesurau lliniaru i'r risgiau hyn trwy eu hadolygiad eu hunain yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd a gyda'r archwiliad trylwyr a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ar eu rhan.

### Risgiau allanol
Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wynebwyd risgiau allanol yn deillio o ansicrwydd economaidd a gwleidyddol yn y DU wrth i ni newid llywodraeth a'r tu allan i'r DU gyda'r rhyfel yn Wcráin ac ethol arlywydd newydd yn UDA. Effeithiodd chwyddiant a phwysau costau cynyddol ar ein hymgeiswyr, ein grantïon, a'r prosiectau a ariannwyd gennym yn bennaf oherwydd costau deunyddiau uwch a galw mawr parhaus am ein hariannu.

Risg allanol sylweddol arall oedd yr ansicrwydd parhaus o ran incwm gan y Loteri Genedlaethol. Mae hyn yn ymwneud â gostyngiad posibl yn incwm y loteri sy'n deillio o amodau economaidd ehangach sydd wedi lleihau gwerthiannau ac effaith pontio o weithredwr blaenorol y Loteri Genedlaethol (Camelot) i'r gweithredwr newydd (Allwyn) ym mis Chwefror 2024. Roedd yr incwm ar gyfer y flwyddyn adrodd yn gyson i raddau helaeth â'r flwyddyn flaenorol.

Roeddem yn parhau i fod yn llawn ymwybodol o risg ymosodiadau seibr. Mae seiberddiogelwch yn her sy'n cynyddu. O'r herwydd, rydym wedi bod yn rhagweithiol wrth gryfhau ein rheolaethau a'n prosesau i liniaru'r risg hon, gan gynnwys ychwanegu'r mater hwn fel eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Archwilio a Risg. At hynny, rydym wedi cynnal achrediad at y safon seiberddiogelwch a argymhellir gan y Cyngor Seiberddiogelwch Cenedlaethol, Cyber Essentials Plus.

### Risgiau mewnol
Mae adnoddau staff, yn enwedig recriwtio, yn parhau i fod yn her mewn marchnad swyddi lewyrchus sy'n cynnig cyflogau cystadleuol. Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar y cynnig gwerth ehangach i weithwyr er mwyn denu doniau newydd tra'n canolbwyntio ar gadw staff a chyfleoedd mewnol i weithwyr er mwyn lleihau ein cyfradd trosiant staff a chynnal cymhelliant a chynhyrchedd staff ar lefel uchel.

Rydym yn parhau i fod yn effro i'r posibilrwydd o dwyll mewnol ac allanol mewn perthynas â gweithgareddau gwneud grantiau. I liniaru'r risg hon, mae'n ofynnol i bob aelod o staff gymryd rhan mewn hyfforddiant ymwybyddiaeth twyll, gan gynnwys presenoldeb staff allweddol mewn sesiynau a ddarperir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Rydym hefyd wedi adnewyddu ein strategaeth a'n polisi gwrth-dwyll, gyda phwyslais ychwanegol ar adrodd gwrth-dwyll yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae ein timau a swyddogion buddsoddi'n wyliadwrus yn erbyn twyll a byddant yn nodi ac yn adrodd yn brydlon ar unrhyw bryderon neu ddangosyddion twyll posibl sy'n gysylltiedig â grantiau a ddyfarnwyd.

Rydym yn gweithredu system rheoli risg gynhwysfawr. Mae'r gofrestr risg sefydliadol yn cael ei hadolygu gan y Weithrediaeth yn rheolaidd a chan y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mhob cyfarfod.

### Cyflwyno grantiau
Yn 2024–2025 cyflwynwyd dros £17 miliwn mewn grantiau fel rhan o'n partneriaethau cymorth grant gyda sefydliadau llywodraethol y DU. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni pedwaredd flwyddyn o'r Gronfa Rhwydweithiau Natur, sydd â'r nod o wella cyflwr a chydnerthedd rhwydwaith safleoedd tir a morol gwarchodedig Cymru, yn ogystal â thros £3.1m a ddyfarnwyd drwy'r cynllun Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG) - partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i adfer, creu, cysylltu a rheoli coetiroedd fel rhan o Goedwig Genedlaethol i Gymru.

### Busnes gweithredol
Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol Mae hyn oherwydd y canlynol:

1. roedd asedau'n sylweddol uwch na rhwymedigaethau, sef £6.6m, ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol
2. mae'r ymddiriedolwyr wedi gosod cyllideb dyfarnu grantiau ar gyfer 2025–2026
3. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) wedi cyhoeddi llythyr dirprwyo cyllideb ddangosol 2025–2026 ar gyfer y Gronfa Goffa. Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw reswm dros gredu na fydd eu prif ffynhonnell incwm – cymorth grant – yn parhau i gael ei derbyn. Gan hynny, nid oes gan y Bwrdd unrhyw reswm dros gredu na fydd y Gronfa Goffa yn parhau i weithredu hyd y gellir rhagweld.

### Rhaglenni cymorth grant
Bu i ni ddosbarthu arian ar ran ein hadran noddi DCMS, ac ar ran Llywodraeth Cymru. Y rhaglenni oedd:

| Teitl y rhaglen | Nodau'r rhaglen | Cronfa wedi'i rheoli ar ran | Swm a ddyfarnwyd | Gwybodaeth ddyfarnu |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Rhwydweithiau Natur Rownd 4 | Mae'r Gronfa Rhwydweithiau Natur, sy'n rhan o Raglen Rhwydweithiau Natur ehangach Llywodraeth Cymru, yn ceisio gwella cyflwr a chydnerthedd rhwydwaith Cymru o safleoedd tir a morol gwarchodedig. | Llywodraeth Cymru | £12,908,666 | Dyfarnwyd grantiau o dan £250,000 i 11 o brosiectau yn Ch3, sef cyfanswm o £2,713,013.<br>Dyfarnwyd grantiau dros £250,000 i 13 o brosiectau yn Chwarter 4, sef cyfanswm o £10,195,653.<br>Mae'r prosiectau'n cyflwyno hyd at fis Mawrth 2028. |
| Y Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG) | Rhaglen gyfalaf sydd â'r nod o greu, adfer a gwella coetiroedd yng Nghymru, fel rhan o Fenter Coedwig Genedlaethol Llywodraeth Cymru. | Llywodraeth Cymru (85%) a'r Gronfa Treftadaeth (15%) | £2,698,317 | Dyfarnwyd grantiau o dan £250,000 i 20 o brosiectau yn Ch1. Prosiectau sy'n cael eu cyflwyno dros ddwy flynedd. |
| Coetiroedd Bach | Rhaglen gyfalaf yn cyfrannu at raglen Coedwig Genedlaethol Llywodraeth Cymru drwy ariannu coetiroedd bach trwchus, brodorol sy'n hygyrch i'r cyhoedd. | Llywodraeth Cymru | £568,075 | 13 o brosiectau o dan £250,000 wedi'u dyfarnu yn Ch1. Mae'r prosiectau'n cyflwyno hyd at fis Mawrth 2025. |
| Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Cronfa Gyfalaf | Rhaglen gyfalaf sydd â'r nod o alluogi ardaloedd â'r lefelau uchaf o amddifadedd, cymunedau lled-drefol/trefol, a/neu'r rhai sydd â'r mynediad lleiaf at natur yng Nghymru i adfer a gwella natur 'ar garreg eich drws'. | Llywodraeth Cymru (85%) a'r Gronfa Treftadaeth (15%) | £959,587 | Dyfarnwyd pum prosiect o dan £250,000 yn Ch1, sef cyfanswm o £375,866. Mae'r prosiectau'n cyflwyno hyd at fis Mehefin 2025.<br>Dyfarnwyd pedwar prosiect o dan £250,000 yn Ch2, sef cyfanswm o £583,721. Mae'r prosiectau'n cyflwyno hyd at fis Ionawr 2026. |

## Dadansoddiad o berfformiad

Mae ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn gweithredu dwy gronfa: ei chronfa cymorth grant (y Gronfa Goffa) a'i gweithgareddau dosbarthiad Loteri Genedlaethol (y Gronfa Treftadaeth). Yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS, mae'n ofynnol iddi gyfrif am y gweithgareddau hyn ar wahân ac ni pharatoir cyfrifon cyfunol.

Mae'r adroddiad hwn yn trafod gwaith cymorth grant y Gronfa Goffa yn unig. Diben yr adran hon yw trafod perfformiad y Gronfa Goffa wrth ddosbarthu arian sy'n deillio o DCMS a chyrff llywodraethol eraill yn 2024– 2025. Mae'r dadansoddiad isod yn trafod uchafbwyntiau ariannol y flwyddyn gan gynnwys symudiad sylweddol ar y Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net a'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn ogystal ag ar rai dangosyddion perfformiad allweddol.

Gwnaeth y Gronfa Goffa ddyfarniadau i 13 o brosiectau eleni, y cefnogwyd eu ceisiadau gan ymddiriedolwyr, gwerth cyfanswm o £9,138,891, wedi'i ddyfarnu ar draws amrywiaeth o dreftadaeth sy'n rhychwantu'r DU gyfan.

Gall y Gronfa Goffa, a sefydlwyd fel cofeb barhaol i'r rhai a roddodd eu bywydau dros y wlad hon, helpu i ariannu eitemau o bwys eithriadol i dreftadaeth y DU, sydd mewn perygl o gael eu colli. Ond nid yw pob cais i'r gronfa'n bodloni'r safon uchel hon o bwysigrwydd, ac mae Panel y Gronfa Goffa'n cynorthwyo wrth flaenoriaethu ceisiadau ariannu cynnar. Mae'r achosion blaenoriaeth uchaf yn symud ymlaen i gyflwyno ceisiadau.

Dyfarnwyd y grant mwyaf sylweddol eleni, a wnaed gan ymddiriedolwyr ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023–2024 fel ymrwymiad ymlaen llaw ar gyfer y flwyddyn hon, i ddiogelu un o adeiladau pwysicaf y DU sydd mewn perygl: Mavisbank House. Mae heriau cymhleth dros nifer o flynyddoedd wedi rhwystro

cynlluniau blaenorol i achub y tlws pensaernïol nodedig hwn. Eleni, llwyddodd y Gronfa Goffa i gefnogi prosiect The Landmark Trust i gymryd perchnogaeth arno a gwneud y tŷ yn adeileddol gadarn. Bydd y cyfnod achub hwn yn sicrhau bod yr adeilad yn cael ei warchod ac y bydd ar gael i'r cyhoedd ei weld o'r parcdir cyfagos. Bydd The Landmark Trust yn parhau â'u gweithgareddau cynllunio a chodi arian i wireddu adferiad ac ailddefnyddio llawn Mavisbank, ac mae'r gefnogaeth gan y Gronfa Goffa wedi darparu'r cam cyntaf hanfodol tuag at achub yr adeilad.

Hefyd eleni, cefnogodd y Gronfa Goffa gaffaeliadau llawysgrifau arwyddocaol: pum llawysgrif ganoloesol unigryw o Gasgliad Longleat, papurau George Orwell o archif gyhoeddi Gollancz ac archif Teulu Nesfield, grŵp eithriadol o werthfawr o bapurau gan ddylunydd tirweddau o'r oes Fictoraidd, William Andrew Nesfield a'i feibion.

Cefnogodd y Gronfa Goffa brynu eitemau y gohiriwyd eu hallforio eleni hefyd: cerfiad ifori canoloesol yn darlunio Diorseddiad Crist o'r Groes, papurau Alan Turing yn ymwneud â phrosiect Delilah, Testament Newydd Dug Humfrey a'r Croeshoeliad gan Fra Angelico.

Rydym yn darparu cefnogaeth i gaffael eitemau archaeolegol eithriadol drwy broses y Ddeddf Drysor, gan gefnogi'r Celc o Dremisau eleni a hefyd ffiguryn aur ac enamel y Brenin Harri VI fel sant.

Mae'r Gronfa Goffa hefyd yn gallu darparu cefnogaeth frys ar gyfer treftadaeth forwrol, a bu grantiau eleni i ddiogelu Llongddrylliad Sanday a'r llong pwffian Clyde, Basuto.

Rydym hefyd yn dyfarnu grantiau i gaffael gwrthrychau o bwys eithriadol ar gyfer casgliadau amgueddfeydd, a adlewyrchir eleni gan ein cefnogaeth i gaffael arfwisg Pencampwr y Brenin o Goroni Siôr IV ym 1821.

Cytunodd yr Ymddiriedolwyr hefyd i gynnydd mewn grant i Gronfa Ymateb COVID-19 y Gronfa Goffa ar gyfer dau gapel canoloesol yng Nghymru dan arweiniad Friends of Friendless Churches. Lansiwyd Cronfa Ymateb COVID-19 y Gronfa Goffa, a fu'n cynnwys Cultural Assets Fund for England ochr yn ochr ag ymrwymiad y Gronfa Goffa ei hun i brosiectau ar draws y DU, ym mis Gorffennaf 2021 a dyfarnwyd y grantiau terfynol ym mis Mehefin 2023.

Cyfanswm y grantiau safonol a ddyfarnwyd oedd ychydig dros £9m. Ar ben hynny, fe wnaethom ddyfarniadau gwerth £17m fel rhan o raglenni argyfwng a rhaglenni eraill ar ran arianwyr eraill, fel a ganlyn:

| | Symiau a ddyfarnwyd (cyn dad-ymrwymiadau) |
|---|---|
| Gweithgarwch Safonol y Gronfa Goffa | £9,138,891 |
| Prosiectau Cronfa Ymateb COVID-19 CGDG | £229,079 |
| Rhaglenni amrywiol ar ran Llywodraeth Cymru | £17,134,655 |
| **Cyfanswm** | **£26,502,625** |

## Perfformiad ariannol

Yn gyffredinol, gostyngodd y diffyg ar ein hincwm a gwariant £5.4m oherwydd yr oedd y cymorth grant y gwnaethom ei dynnu i lawr yn ystod y flwyddyn yn fwy na'n gwariant ar grantiau. Roedd gan y Gronfa Goffa rwymedigaethau grant dros ben o £75.1m ar 31 Mawrth 2025 (gweler nodyn 3 yr adran gyfrifon). Yn gyntaf, bydd y rhain yn defnyddio'r balans arian parod a chyfwerth ag arian parod a ddelir o £47.2m (gweler nodyn 16 yr adran gyfrifon) cyn tynnu rhagor i lawr o DCMS wedi hynny yn 2025–2026 ac yn y blynyddoedd i ddod i fodloni'r ymrwymiadau grant sy'n weddill.

Roedd yr adenilliad ar y gronfa waddol yn 2024–2025 yn gynnydd o 1.1%.

Gostyngodd ein costau gweithredu o £2.0m i £1.4m. Mae hyn oherwydd llai o weithgarwch cymorth grant.

Roedd ein hincwm anweithredol yn £2.2m (£2.9m yn 2023–2024) wedi'i yrru gan lai o werthiannau unedau o'r gronfa waddol ac o ganlyniad i elw is.

Gostyngodd gwerth buddsoddiadau mewn unedau cronni cyfalaf o £37.7m i £34.7m yn bennaf oherwydd gwerthiannau gwaddol o £2.8m. Roedd arian parod a gadwyd yn y gronfa waddol ar ddiwedd y flwyddyn yn £30.5m (£29.1m yn 2023–2024).

## Dangosyddion perfformiad allweddol

Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod y dylai'r Gronfa Goffa anelu at berfformiad uchel yn ei gweithgareddau. I'r perwyl hwn mae gennym ddau ddangosydd perfformiad. Mae'r dangosyddion hyn yn ymwneud â'r agweddau mwyaf arwyddocaol ar wasanaeth cwsmeriaid: cyflymder prosesu cais am grant a chyflymder talu cais am daliad grant.

### Dangosyddion perfformiad allweddol fesul blwyddyn

| | Targed | 2024–25 | 2023–24 | 2022–23 |
|---|---|---|---|---|
| Amserau prosesu ceisiadau (misoedd) | | | | |
| – ceisiadau brys | 3 | **1.4** | 2.7* | 1.4 |
| – ceisiadau nad ydynt ar frys | 6 | **2.1** | 1.9 | 2.2 |
| Talu grantiau (nifer y diwrnodau gwaith ar ôl cais am daliad) | | | | |
| – grantiau safonol | 15 | **5** | 5 | 5 |

*Gohiriwyd dau gais am ddyfarniad (Portrait of Mai (Omai) a Portrait of Risaldar Jai Singh and Risalda Man Singh) gan ffactorau allanol y tu hwnt i reolaeth y Gronfa Goffa. Ac eithrio'r ddau ddyfarniad hyn, yr amser prosesu oedd 1.3 mis.

### Symiau taladwy

Mae'r Gronfa Goffa yn glynu wrth y safon llywodraeth gyfan ar dalu anfonebau a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, sy'n nodi y dylid talu pob anfoneb ddilys o fewn 30 niwrnod. Talwyd dros 97% o anfonebau o fewn 30 niwrnod calendr yn 2024-2025 (2023–2024: 95%).

Rydym hefyd yn mesur ein hymrwymiad i dalu cyflenwyr gan ddefnyddio'r gymhareb dyddiau credydwr. Dyma gymhareb y symiau taladwy masnachol ar ddiwedd y flwyddyn i gyfanswm gwerth y pwrcasiadau yn y flwyddyn wedi'i mynegi yn nhermau diwrnodau calendr. Ar 31 Mawrth 2025, y ffigur oedd 29 diwrnod (2023–2024: 24 diwrnod).

### Polisïau amgylcheddol ac adrodd am gynaladwyedd

Eleni fe wnaethom barhau i weithio ar ein cynllun datgarboneiddio i gyrraedd sero net ar gyfer ein gweithrediadau erbyn 2030. Rydym wedi cwblhau dwy flynedd gyntaf ein cynllun cyflwyno datgarboneiddio'n llwyddiannus, sy'n canolbwyntio ar ofod swyddfa, teithio busnes a chaffael. Wrth symud ymlaen i'n cynllun cyflwyno dwy flynedd nesaf, rydym yn canolbwyntio ar ymwreiddio'r cyfrifoldeb dros ostwng carbon ym mhob rôl yn y sefydliad.

Fe wnaethom leihau ôl troed ffisegol ein hystâd drwy leihau maint mannau gwaith 21%. Wrth wneud hynny, dewiswyd mannau mwy effeithlon a fydd yn cyfrannu at arbedion parhaus o ran allyriadau. Drwy gydol y flwyddyn gwnaed gwelliannau i ansawdd ein data, yn enwedig mewn perthynas â data teithio busnes. Mae'r wybodaeth gynyddol am ein teithio busnes yn ein galluogi i fabwysiadu dull rhagweithiol o leihau ein hôl troed carbon o deithio busnes yn y dyfodol. Mae'r dull mwy rhagweithiol wedi'i ysgogi gan y cynnydd parhaus o flwyddyn i flwyddyn mewn allyriadau o deithio busnes.

Mae ein strategaeth Treftadaeth 2033 yn ein hymrwymo i leihau ôl troed carbon y prosiectau a ariannwn. Eleni, cyflwynwyd prosesau casglu data amgylcheddol ar gyfer prosiectau i'n galluogi i ddechrau cyfrifo'r allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) amcangyfrifedig o'n portffolio ariannu. Rydym wedi sefydlu llywodraethu mewnol i gefnogi gweithredu parhaus tuag at yr ymrwymiadau cynaladwyedd amgylcheddol yn ein cynllun cyflwyno.

Allyriadau nwyon tŷ gwydr

| | | 2024–25 | 2023–24 | 2022–23 |
|---|---|---|---|---|
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr | Allyriadau Cwmpas 1 ($tCO_2e$) ($tCO_2$ e) | **1.5** | 1.9 | 2.4 |
| | Allyriadau Cwmpas 2 ($tCO_2e$) ($tCO_2$ e) | **26.3** | 26.3 | 32.8 |
| | Allyriadau Cwmpas 3 ($tCO_2e$) ($tCO_2$ e) | **113.4** | 101.1 | 94.5 |
| | **Cyfanswm allyriadau gros ($tCO_2$ e)** | **141.2** | 129.3 | 129.7 |
| Defnydd o ynni a dŵr | Trydan (kWh) | **126,773** | 126,783 | 169,109 |
| | – o ffynonellau adnewyddadwy (kWh) | **106,970** | 59,895 | 19,211 |
| | – o ffynonellau anadnewyddadwy (kWh) | **19,803** | 66,888 | 149,898 |
| | Nwy (kWh) | **8,512** | 10,510 | 13,588 |
| | Dŵr ($m^3$) | **324** | 559 | 436 |
| Gwariant £'000 | Cyfleustodau (gan gynnwys rhent a thaliadau gwasanaeth) | **1,112** | 1,030 | 624 |
| | Teithio busnes (gan gynnwys llety) | **395** | 380 | 422 |

Er gwaethaf gostyngiadau parhaus ym maint ac effaith amgylcheddol ein hystâd swyddfeydd, allyrrwyd lefel uwch o nwyon tŷ gwydr nag y llynedd. Roedd hyn yn bennaf oherwydd cynnydd mewn teithio busnes. Fe deithiom tua 62,000 cilomedr (neu 39,000 milltir) yn fwy na'r flwyddyn flaenorol (cynnydd o 5%) ac arhosom 332 noson ychwanegol mewn gwestai. Fe wnaethom leihau'r pellter a deithiwyd mewn awyrennau tua 8% ac ar drenau tua 5%, a chododd ein teithio ar ffyrdd tua 77%. Rydym wedi ymgorffori data rhentu ceir Enterprise am y tro cyntaf, sy'n cyfrif am 20% o'r teithio ychwanegol ar ffyrdd. Ar adeg yr adroddiad, dim ond hyd at fis Hydref 2024 yr oedd data Enterprise ar gael. Rydym yn parhau i weithio gyda darparwyr teithio i sicrhau ein bod yn derbyn data teithio mewn modd cyson ac amserol. Fe wnaethom wella dulliau casglu ac adrodd data teithio o'n system dreuliau, gan wella eglurder ein hadroddiadau ar allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Rydym yn casglu data defnydd o ynni gan landlordiaid yn flynyddol. Ymatebodd wyth o un ar ddeg o landlordiaid i'n cais am wybodaeth. O'r wyth landlord a ymatebodd, darparodd pump ddefnydd ynni wedi'i ddosrannu (41% o gyfanswm yr ystâd yn ôl arwynebedd). Lle darparwyd ffigurau adeilad cyfan, fe wnaethom eu dosrannu yn seiliedig ar sail y gyfran o'r gofod swyddfa rydym yn ei rhentu o gyfanswm arwynebedd yr adeilad. Lle na dychwelwyd unrhyw ddata, defnyddiwyd data EPC fel dirprwy, yn unol â blynyddoedd blaenorol, sydd yn y rhan fwyaf o achosion yn darparu amcangyfrif uwch na'r defnydd gwirioneddol.

Mae'r gwariant a ddarperir yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â rhedeg a rheoli'r gofod swyddfa gan nad yw'n bosib gwahanu'r costau hyn. Cododd costau 8% rhwng 2023-2024 a 2024-2025, gan gyfateb yn fras i dueddiadau'r farchnad.

Nid ydym wedi cynnwys allyriadau nwyon tŷ gwydr gweithio gartref yn ein hadroddiadau gan fod y rhain ar hyn o bryd y tu allan i'r canllawiau adrodd. Byddwn yn adolygu hyn yn flynyddol, er mwyn sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r arfer gorau. Ar yr un pryd, rydym yn monitro defnydd trydan amcangyfrifedig dyfeisiau gan mai hyn sydd fwyaf tebygol o gyfrannu'n ychwanegol at effaith amgylcheddol gweithio gartref, ac wedi defnyddio'r data hwnnw i lywio caffael cyfrifiaduron yn y dyfodol.

Wrth adrodd ar ein teithio busnes, rydym wedi cynnwys gorfodi ymbelydrol wrth gyfrifo effaith ein hedfan, i adlewyrchu gwir effaith amgylcheddol y gweithgaredd hwn.

Mae saith o'n un ar ddeg o ofodau swyddfa (72% o'n hystâd yn ôl arwynebedd) yn defnyddio trydan o ffynonellau 100% adnewyddadwy, sy'n gyfrifol am 84% o'n defnydd trydan mewn swyddfeydd (i fyny o 47% y llynedd) a 79% o gyfanswm cymysgedd ynni ein swyddfeydd. Gostyngodd y defnydd o nwy 19% o'i gymharu â'r llynedd, ac mae bellach yn cyfrif am 6% yn unig o gyfanswm cymysgedd ynni ein swyddfeydd, mae hyn oherwydd y duedd tuag at wresogi trydan mewn adeiladau masnachol.

Isafu a rheoli gwastraff

| | | 2024–25 | 2023–24 | 2022–23 |
|---|---|---|---|---|
| Gwastraff (tunelli) | Peryglus (gan gynnwys WEEE*) | 0 | 0.011 | 0.001 |
| | Tirlenwi | 4.73 | 0.091 | 0 |
| | Ynni o wastraff | 5.45 | 4.12 | 1.92 |
| | Ailgylchu cymysg | 7.59 | 1.41 | 1.15 |
| | **Cyfanswm gwastraff** | 17.77 | 5.63 | 3.07 |
| Gwariant ar wastraff £'000 | **Cyfanswm gwastraff** | Wedi'i gynnwys mewn Cyfleustodau | Wedi'i gynnwys mewn Cyfleustodau | Wedi'i gynnwys mewn Cyfleustodau |

* WEEE = cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff

Defnyddio adnoddau meidraidd

| | | 2024–25 | 2023–24 | 2022–23 |
|---|---|---|---|---|
| Adnoddau meidraidd | Dŵr ($m^3$) | 324 | 559 | 436 |
| | Defnydd o bapur (taflenni) | 35,493 | 31,000 | 33,340 |
| | Defnydd o bapur ($tCO_2e$) | 162 | 140 | 152 |

## Lleihau a rheoli gwastraff a'r defnydd o adnoddau meidraidd

Mae ein data gwastraff ac ailgylchu cyffredinol yn gyfyngedig gan ei fod yn dibynnu ar ddata a adroddir gan landlordiaid. Rydym yn parhau i weithio gyda landlordiaid a chydweithwyr i annog lleihau gwastraff a gwaredu gwastraff yn gyfrifol. Darparodd saith o un ar ddeg o landlordiaid ddata gwastraff (57% yn ôl arwynebedd). Darparodd tri o'r rhain (19% o'r ystâd yn ôl arwynebedd) ddata wedi'i ddosrannu, gyda'r gweddill yn darparu ffigurau gwastraff adeilad cyfan. Lle darparwyd data adeilad cyfan, fe wnaethom eu dosrannu yn seiliedig ar sail y gyfran o'r gofod swyddfa rydym yn ei rhentu o gyfanswm arwynebedd yr adeilad.

Lle na ddarparwyd data gan landlordiaid (43% o'r ystâd, yn ôl arwynebedd) cafodd dwysedd gwastraff cymedrig mewn tunelli fesul metr sgwâr ei gyfrifo o ddata wedi'i ddosrannu a'i raddio i fyny i arwynebedd pob swyddfa. Defnyddiwyd yr un dull gydag ailgylchu a dŵr. Oherwydd methodolegau adrodd ar wastraff landlordiaid gwahanol, mae ansawdd y data yn ansicr. Cymhlethir yr ansicrwydd hwn ymhellach gan y gyfradd ymateb isel gan landlordiaid – methodd pedwar allan o un ar ddeg â darparu data gwastraff. Fodd bynnag, mae landlordiaid wedi nodi bod rheoli gwastraff ac ailgylchu wedi bod yn flaenoriaeth iddynt, a ddylai olygu gwell tryloywder yn y dyfodol.

Mae gwastraff o'n swyddfeydd wedi cynyddu tua 216%. Daw mwyafrif y cynnydd a gofnodwyd o gynnydd mewn ailgylchu cymysg. Rydym hefyd wedi nodi cynnydd sylweddol yn y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, oherwydd methodoleg gyfrifo well yn seiliedig ar gymarebau tirlenwi awdurdodau lleol.

Drwy ein rhaglen ymgysylltu Effaith Werdd fewnol, rydym yn parhau i hyrwyddo'r hierarchaeth wastraff a chylchredoldeb i bob aelod o staff. Hyrwyddir dewisiadau amgen i blastigau untro defnyddwyr trwy weithredoedd fel rhoi'r ap Refill ar bob ffôn symudol corfforaethol ac argymell defnyddio poteli a chwpanau teithio y gellir eu hailddefnyddio wrth deithio.

Cynyddodd ein defnydd o bapur 14% o gymharu â ffigurau 2023–2024. Er ei fod yn dal yn sylweddol is na gwaelodlin 2019–2020, mae'r defnydd o bapur yn parhau i gynyddu yn dilyn ailagor swyddfeydd ar ôl y pandemig COVID-19. Rydym yn parhau i eiriol dros ddefnyddio offer ar-lein i osgoi'r angen am argraffu a byddwn yn adolygu darpariaeth argraffyddion yn y dyfodol.

## Cynllunio gweithredu adferiad byd natur a bioamrywiaeth

Nid ydym yn berchen ar unrhyw dir nac amgylcheddau naturiol. Mae landlordiaid ein swyddfa yn Llundain wrthi'n creu Cynllun Gwella Natur ar gyfer yr adeilad a byddwn yn gweithio gyda landlordiaid eraill i weld yr arfer da hwn yn cael ei efelychu. Ein heffaith fwyaf ar fyd natur yw drwy roi grantiau ac mae adferiad byd natur yn brif ffocws Treftadaeth 2033, a gefnogir drwy ein mentrau strategol. Yn benodol, mae ein rhaglen Trefi a Dinasoedd Natur, a lansiwyd ym mis Chwefror, yn fuddsoddiad strategol mewn mannau gwyrdd trefol er mwyn sbarduno newid ar raddfa fawr mewn trefi a dinasoedd ar draws y DU, gan sicrhau bod gan filiynau o bobl fynediad gwell at ofod gwyrdd o safon.

## Caffael cynaliadwy

Datblygwyd dull monitro ar gyfer ymgynghorwyr sy'n gweithio o dan ein fframwaith Cofrestr Gwasanaethau Arbenigol (RoSS). Crëwyd offer i adrodd ar allyriadau a gynhyrchir wrth i ymgynghorwyr RoSS deithio, er mwyn galluogi dewisiadau gwybodus ar gynaladwyedd a gwerth cymdeithasol wrth alw ar wasanaethau ymgynghorwyr drwy'r fframwaith RoSS. Mae'r offer hyn hefyd yn galluogi'r sefydliad i gefnogi ymgynghorwyr RoSS unigol i newid ymddygiadau a nodi dulliau teithio sy'n llai ddwys o ran carbon.

Caffael cynaliadwy a monitro cyflenwyr yw ein blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf gan i ni wybod bod nwyddau a gwasanaethau'n cyfrif am oddeutu dau draean o'n hôl troed carbon. Mae hyn yn seiliedig ar gyfrifiad sylfaenol 2019–2020 a gyflawnwyd, a briodolodd ddau draean o'n hôl troed carbon i'n cadwyn gyflenwi. Mae mesur ac yna lleihau ôl troed carbon ein cadwyn gyflenwi yn hollbwysig o ran amser er mwyn i ni wneud y newid sydd ei angen erbyn 2030.

## Addasu i'r newid yn yr hinsawdd

Mae ein hystâd ffisegol yn fach ac yn ystwyth. Gan nad ydym yn berchen ar seilwaith nac yn ei weithredu, mae'r risg i'n sefydliad o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i ddiogelwch a lles staff a'r risg bosibl i barhad busnes os bydd cynnydd mewn digwyddiadau tywydd eithafol. Ymdrinnir â'r risgiau cysylltiedig yn y cofrestrau risg priodol ac nid ydym yn ystyried addasu i newid yn yr hinsawdd ar hyn o bryd, fodd bynnag byddwn yn parhau i adolygu hyn.

## Lleihau effeithiau amgylcheddol TGCh a digidol

Rydym yn parhau i wneud cynnydd ar leihau effaith amgylcheddol TGCh a digidol, gan weithredu polisïau cadw data ychwanegol i leihau ein hôl troed data digidol. Mae rhesymoli systemau TG a defnyddio adnoddau TG yn effeithlon yn elfen graidd o'n cynlluniau technoleg ar gyfer y dyfodol. At hynny, rydym wedi darparu hyfforddiant ar y defnydd effeithiol o'r pecyn Office 365, gan gynnwys egwyddorion rheoli ffeiliau da a hyrwyddo rhannu dogfennau yn effeithlon heb ddyblygu. Rydym yn parhau i amlygu arfer gorau o ran cynaladwyedd TG gan gynnwys rheoli ffeiliau yn y cwmwl a gosodiadau cynaladwyedd dyfeisiau drwy'r rhaglen Effaith Werdd.

Rydym wedi newid y ffordd yr ydym yn adnewyddu caledwedd TG, gan ymestyn cylch bywyd ein dyfeisiau cyffredin o dair i bum mlynedd a lleihau teithio staff i hwyluso cyflwyno cyfrifiaduron newydd. Rydym hefyd wedi gweithio i resymoli ceblau, gan fabwysiadu cysylltiadau USB-C fel safon i leihau amlhau dyfeisiau perifferol a thaclau addasu. Rydym yn parhau i flaenoriaethu ailddefnyddio, atgyweirio ac ailwerthu ein hen ddyfeisiau.

Rydym yn asesu goblygiadau technoleg AI a'i mabwysiad gan y Gronfa Goffa, gan gynnwys allyriadau nwyon tŷ gwydr a defnydd dŵr sy'n gysylltiedig ag AI.

## Amcanion polisi a thargedau

Rydym wedi ymrwymo i gyrraedd sero-net ar gyfer ein gweithrediadau erbyn 2030, gan ganolbwyntio ar ein hystadau, teithio busnes a chaffael. Rydym wedi gwneud cynnydd cryf tuag at dargedau gostwng ar gyfer ein hystadau ac mae ystyriaethau amgylcheddol wedi'u hymwreiddio ym meini prawf dethol swyddfeydd newydd. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024–2025, gosododd y cynllun datgarboneiddio darged o 29 tunnell o CO2e ar gyfer allyriadau sy'n gysylltiedig â swyddfeydd, a chyflawnwyd y targed hwn yn llwyddiannus. Lleihawyd cyfanswm arwynebedd ein swyddfeydd o 803m2 i 640m2 a dewiswyd swyddfeydd sy'n fwy llesol i'r amgylchedd. Adleoliwyd ein swyddfeydd yng Nghaergrawnt a Newcastle, gan arbed 2.6 tunnell o CO2 a rhagori ar ein targed i leihau allyriadau swyddfa. Gan y symudwyd ein swyddfa yn Newcastle (ein gofod â'r allyriadau uchaf fesul pen gynt) yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, rydym yn disgwyl gweld gostyngiad pellach o 2.6 tunnell mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o swyddfeydd yn y cyfnod adrodd nesaf.

Mae teithio busnes a'r ôl troed amgylcheddol sy'n deillio ohono'n parhau i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Fel sefydliad rydym wedi adolygu'r targedau sy'n ymwneud â theithio fel y'u nodir yn ein cynllun datgarboneiddio ac wedi cytuno ar ddull newydd o leihau allyriadau. Er mwyn gwneud y gostyngiadau angenrheidiol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â theithio er mwyn cyrraedd ein targedau gostwng carbon, yn 2025–2026 bydd pob tîm yn cael cyllideb garbon sy'n mynnu gostyngiad o 10% ar

allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â theithio yn 2024–2025. Bydd angen i'r gyfradd ddatgarboneiddio yn y blynyddoedd dilynol gynyddu'n sylweddol er mwyn cyrraedd ein targed ar gyfer 2030. Gallwn wneud hyn oherwydd y gwelliant yn ansawdd y data a'r wybodaeth rydym wedi'i gyflawni ar gyfer ein gweithgarwch teithio.

O fewn Treftadaeth 2033 rydym wedi ymrwymo i leihau ôl troed carbon y prosiectau a ariannwn. Rydym wedi gwella dulliau casglu gwybodaeth am brosiectau i'n galluogi i sefydlu gwaelodlin o ddata a pharhau i fesur a monitro hyn yn y dyfodol.


### Paratoi ardaloedd gwledig ar gyfer y dyfodol

Mae gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol gyrhaeddiad cenedlaethol, gan gefnogi prosiectau ym mhob cwr o'r DU. Mae llawer o'n prosiectau mewn ardaloedd gwledig ac mae ein buddsoddiadau'n helpu creu swyddi a chefnogi cymunedau. Rydym yn cydnabod yr heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu, gan gynnwys cynrychiolaeth, mynediad at gludiant cyhoeddus, ac argaeledd a chydraddoldeb gwaith cyflogedig. Trwy ein mentrau strategol: Lleoedd Treftadaeth, Dinasoedd a Threfi Natur, a Chysylltiadau Tirwedd, rydym yn cefnogi cymunedau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol ar draws y DU. Mae llawer o'r rhain mewn lleoliadau gwledig ac yn ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn strategaeth Defra i baratoi ardaloedd gwledig ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys Swydd Durham, Castell-nedd Port Talbot a Torbay.

Fel sefydliad rydym yn cefnogi ein cydweithwyr i weithio ledled y wlad ac mae ein polisi gweithio hybrid yn disgrifio sut y gall staff weithio'n hyblyg.

### Adeiladwaith cynaliadwy

Fel sefydliad nid ydym yn gyfrifol am adeiladwaith newydd nac unrhyw asedau cyfalaf.



**Eilish McGuinness**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

3 Gorffennaf 2025

# Adroddiad atebolrwydd

**Mae tair adran i'r adroddiad atebolrwydd:**

- adroddiad llywodraethu corfforaethol – trafodaeth o'n strwythur llywodraethu a'i gyflawniadau yn y flwyddyn dan sylw
- adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff – mae hwn yn rhoi manylion tâl cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr ac uwch reolwyr yn ogystal â threfniadau pensiwn i staff. At hynny, rydym yn trafod ein cyflawniadau o ran cydraddoldeb yn y gweithle ac amrywiaeth staff.
- adroddiad atebolrwydd seneddol – adroddiad gan ein harchwilwyr ar ganlyniadau eu harchwiliad o'n cyfrifon ar gyfer 2024–2025 yn unol â safonau cyfrifyddu ac archwilio. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys datgeliadau ychwanegol sy'n ofynnol gan Senedd y DU ar faterion megis rheoleidd-dra gwariant a sut y gwariwyd cyllid.

## Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Diben yr adroddiad llywodraethu corfforaethol hwn yw esbonio cyfansoddiad a threfniadaeth strwythurau llywodraethu'r Gronfa Goffa a sut y maent yn cefnogi cyflawni ein hamcanion.

### Adroddiad y cyfarwyddwyr

| | |
|---|---|
| Cadeirydd | Dr Simon Thurley CBE |
| Ymddiriedolwyr | Anna Eavis |
| | Julian Glover |
| | Roisha Hughes |
| | Denise Lewis-Poulton |
| | Ray Macfarlane |
| | Taryn Nixon |
| | Carol Pyrah |
| | Mukesh Sharma MBE DL |
| | James Twining |
| Prif Weithredwr | Eilish McGuinness |

Roedd y rhaniad o'n staff o ran rhywedd (gan gynnwys y rhai ar gontractau cyfnod penodol) sy'n gweithio ar ein gweithgareddau Trysorlys, a'n hymddiriedolwyr ar 31 Mawrth 2025, fe a ganlyn:

| | Gwrywaidd | Benywaidd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr anweithredol | 1 | 3 | 4 |
| Staff | 17 | 53 | 70 |
| Ymddiriedolwyr | 4 | 6 | 10 |

### Cofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr

Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae'r ymddiriedolwyr yn datgan unrhyw fuddiannau uniongyrchol mewn ceisiadau grant a pherthnasoedd masnachol â'r Gronfa Goffa ac yn diarddel eu hunain o'r prosesu arfarnu, trafod a gwneud penderfyniad ar y grant perthnasol o fewn y Gronfa Goffa. Yn eu cysylltiadau ag ymgeiswyr grant, mae ymddiriedolwyr yn ceisio osgoi lefelau cyfranogiad neu ddylanwad a fyddai'n anghydnaws â'u cyfrifoldebau fel ymddiriedolwr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Ceir trefniadau cyfatebol er mwyn i staff adrodd buddiannau ac osgoi gwrthdaro buddiannau posibl.

Mae'r Gofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr ar gael ar wefan Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol – www.heritagefund.org.uk/cy.

### Data ac ymchwil

Yn 2024–2025, datblygwyd a chymeradwywyd Fframwaith Effaith newydd gyda'r nod o olrhain cynnydd, canlyniadau ac effaith ein strategaeth Treftadaeth 2033. Rydym wedi dechrau adeiladu systemau casglu data mewnol newydd i gywain tystiolaeth o fewn y fframwaith hwn.

Fe wnaethom hefyd adeiladu ar ein gwaith llwyddiannus o osod a pheilota Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) yn 2023–2024, gan ei gyflwyno ar draws y sefydliad trwy raglen hyfforddi ac ymgysylltu â defnyddwyr. Rydym yn defnyddio GIS yn llwyddiannus i gasglu, rheoli ac adrodd ar ddata monitro a gwerthuso ar gyfer Species Survival Fund, un o raglenni Defra.

Cynhyrchodd ein rhaglen ymchwil a gwerthusiadau strategol dystiolaeth i gefnogi'r Gronfa Treftadaeth a sefydliadau a ariannwyd i gyflwyno gwaith llawn effaith o ansawdd uchel. Roedd hyn yn cynnwys gwaith ar Longau Hanesyddol, Addoldai a Trefi a Dinasoedd Natur. Roedd hefyd yn cynnwys arwain gwaith ar y Fenter Strategol Lleoedd Treftadaeth a adnewyddodd y Mynegai Lleoedd i gefnogi dewis y garfan nesaf o leoedd, a rheoli gwerthusiad annibynnol o'r fenter.

Yn y flwyddyn nesaf, rydym yn arwain gwaith ar ailgynllunio dull y Gronfa Goffa o werthuso grantïon er mwyn creu ffordd ymlaen sy'n fwy buddiol i ni a'r sefydliadau a ariannwn. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu ein huchelgeisiau i wella data a seilwaith adrodd y Gronfa Goffa drwy beilota'r defnydd o offer Deallusrwydd Artiffisial (AI) i gategoreiddio data grantiau a datblygu tacsonomeg o ddosbarthiadau ar gyfer y Gronfa Goffa.

### Penodi archwilwyr

Mae Deddf 1980 yn gwneud darpariaeth i gyfrifon blynyddol y Gronfa Goffa gael eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Mae Deddf 1993 yn ymestyn hyn i weithgareddau dosbarthiad Loteri Genedlaethol yr ymddiriedolwyr.

### Rhanddeiliaid allweddol

Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid a phartneriaid ac yn ymgynghori'n helaeth â nhw wrth ddatblygu ein fframweithiau strategol a pholisïau ac arfer gwneud grantiau. Yn eu plith mae DCMS, y cyhoedd sy'n chwarae'r Loteri Genedlaethol, ymgeiswyr a grantïon, asiantaethau strategol a chyrff treftadaeth arweiniol ynghyd â meysydd polisi eraill sy'n berthnasol i'n cyllid ar draws y DU, yn ogystal ag aelodau etholedig llywodraeth leol a chenedlaethol.

### Data personol

Cafodd y Gronfa Goffa wyth achos lle datgelwyd data personol yn anfwriadol i drydydd parti. Fodd bynnag, yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), nid oedd angen adrodd ar unrhyw un o'r digwyddiadau hyn i'r ICO. Dysgwyd gwersi a chymerwyd camau adferol i leihau'r posibilrwydd y byddai'n digwydd eto. Bydd y Gronfa Goffa yn parhau i fonitro ac asesu ei risgiau gwybodaeth er mwyn nodi ac ymdrin ag unrhyw wendidau a sicrhau gwelliant parhaus ei systemau.

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan adran 7(3) Deddf 1980, mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr y Gronfa Goffa baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS gyda chydsyniad Trysorlys EF. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt ddarparu golwg gwir a theg o sefyllfa'r Gronfa Goffa ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i hincwm a gwariant, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr y Gronfa Goffa gydymffurfio â Llawlyfr Adrodd Ariannol (LIAA) Trysorlys EF ac yn benodol:

- glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifyddu a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu priodol yn gyson
- ffurfio barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan p'un a yw safonau cyfrifyddu perthnasol fel y'u hamlinellir yn LIAA wedi'u dilyn, a datgan ac esbonio unrhyw wyriadau materol yn y datganiadau ariannol
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes cyfredol
- cadarnhau bod yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy

Mae DCMS wedi penodi'r uwch swyddog amser llawn, y Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu'r Gronfa Goffa.

Mae cyfrifoldebau swyddog cyfrifon, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r swyddog cyfrifon yn atebol amdano, cadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Gronfa Treftadaeth, wedi'u hamlinellu yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddir gan Drysorlys EF.

### Cadarnhad gan y Swyddog Cyfrifyddu

Rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn fod wedi'u cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr yr Adran yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr Adran yn ymwybodol ohoni.

Mae'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy. Rwy'n cymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol a'r barn sydd ei hangen i bennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

## Datganiad Llywodraethu

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol gadarn ar draws y sefydliad cyfan sy'n cefnogi cyflawni diben y Gronfa Goffa tra'n diogelu'r cronfeydd cyhoeddus a'r asedau yr wyf yn gyfrifol amdanynt.

Mae'n ofynnol i'r Gronfa Goffa baratoi Datganiad Llywodraethu blynyddol i ddisgrifio system rheolaeth fewnol y sefydliad, cofnodi'r sicrwydd a dderbyniwyd a darparu asesiad o broffil risg y sefydliad a'i effeithiolrwydd wrth reoli'r risgiau hynny.


Mae'r Datganiad hwn yn amlinellu sut yr wyf i, fel Swyddog Cyfrifyddu, wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb i reoli a rheoleiddio adnoddau'r Gronfa Goffa yn ystod y flwyddyn. Mae'n galw ar waith Bwrdd Ymddiriedolwyr y Gronfa Goffa, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth, yn ogystal â'r cyfarwyddwyr gweithredol fel ei gorff gweithredol. Rwyf hefyd wedi adolygu ac ystyried yr adroddiad sicrwydd blynyddol a baratowyd gan archwilio mewnol.

Fel Swyddog Cyfrifyddu Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol mae'n ofynnol, yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, i mi gyfrif ar wahân am fy nwy brif ffynhonnell incwm - cymorth grant a chyllid gan y Loteri Genedlaethol. Rwy'n atebol hefyd am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion y Gronfa Goffa, ac ar yr un pryd diogelu'r cyllid ac asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol yn bersonol amdanynt. Mae hyn yn gweddu i'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi yn Rheoli Arian Cyhoeddus.

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cael eu gweithredu fel endid unigol gan i mi gredu bod hyn yn fwy effeithlon ac effeithiol. Gan hynny, dim ond un strwythur llywodraethu sydd yn y datganiad hwn, y mae'n cwmpasu dosbarthiad dyfarniadau cymorth grant a grantiau'r Loteri Genedlaethol. Er i ni weithredu un strwythur llywodraethu cyffredinol, rydym wedi addasu ac ystwytho ein llywodraethu i fodloni gofynion ein rhaglenni cymorth grant. Bu hyn drwy ddefnyddio paneli bach o ymddiriedolwyr a darparu hyblygrwydd i rai o'n dirprwyaethau gwneud penderfyniadau.

### Strwythur llywodraethu

Mae'r strwythur llywodraethu yn ystod 2024-2025 wedi'i ddisgrifio yn y diagram isod. Mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau fel y'u disgrifir, ochr yn ochr â'r Weithrediaeth a'r Grŵp Strategaeth a Pherfformiad.




### Bwrdd Ymddiriedolwyr

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am:

- rhoi arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol
- cymeradwyo mecanweithiau rheoli i ddiogelu adnoddau cyhoeddus
- cymeradwyo cyllidebau buddsoddi a gweinyddu
- goruchwylio rheolaeth gyffredinol gweithgareddau'r Gronfa Goffa
- adrodd ar stiwardiaeth cyllid cyhoeddus

Cynhaliodd y Bwrdd, sy'n gweithredu fel grŵp, chwe chyfarfod yn ystod y flwyddyn i bennu polisi'r Gronfa Goffa a gwneud penderfyniadau'n unol â'r polisi hwnnw. Mae'r Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr gweithredol yn mynychu'r cyfarfodydd hyn. Dr Simon Thurley CBE yw Cadeirydd y Gronfa Goffa a thrwy gydol y flwyddyn cynhaliwyd cyfarfodydd cyswllt

rheolaidd rhyngddo ef, y Prif Weithredwr a staff uwch. Mae'r Bwrdd wedi'i gyfansoddi'n gyfreithiol hyd at uchafswm o 15 o ymddiriedolwyr gan gynnwys y Cadeirydd. Ailbenodwyd un ymddiriedolwr newydd ac ymddeolodd un ymddiriedolwr yn 2024-2025.

Cyfradd bresenoldeb gyffredinol ymddiriedolwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd oedd 97%. Mae ymddiriedolwyr wedi dirprwyo rhai o'u tasgau i'r ddau bwyllgor a ddangosir uchod hefyd - mae'r pwyllgorau hyn yn goruchwylio gweithgareddau rheolwyr ac yn darparu arweiniad a chefnogaeth i staff uwch. Mae cadeiryddion pwyllgorau'n darparu adroddiad llawn ar eu gweithgareddau hefyd.

Roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd o'r Bwrdd trwy gydol 2024-2025 fel a ganlyn:

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd | Mynychwyd |
|---|---|---|
| Dr Simon Thurley CBE (Cadeirydd) | 6 | 6 |
| Anna Eavis | 6 | 6 |
| Julian Glover | 6 | 6 |
| Roisha Hughes | 6 | 6 |
| Denise Lewis-Poulton | 6 | 5 |
| Ray Macfarlane | 6 | 6 |
| Taryn Nixon | 6 | 6 |
| Carol Pyrah | 6 | 6 |
| Mukesh Sharma MBE DL | 6 | 5 |
| James Twining | 6 | 6 |

## Cyfansoddiad y Bwrdd

O'r 10 o ymddiriedolwyr a fynychodd y Bwrdd trwy gydol y flwyddyn, roedd 60% yn fenywaidd a 40% yn wrywaidd. Daeth dau (20%) o gymunedau ethnig amrywiol.

## Gwrthdaro buddiannau

Mae ymddiriedolwyr a staff yn gyfrifol am sicrhau y cynhelir ac y diwedderir eu cofnodion yn y Gofrestr Buddiannau fel y bo angen. Mae'r tîm Cyfreithiol a Llywodraethu yn goruchwylio proses i sicrhau bod y cofnodion hyn yn cael eu diweddaru bob blwyddyn. Ar ddechrau pob cyfarfod o'r Bwrdd, gofynnir i'r holl ymddiriedolwyr a staff ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau posib. Nodir y rhain yn y cofnodion pan bennir bod y mater yn gyfystyr â gwrthdaro a bydd ymddiriedolwyr a staff yn tynnu allan o drafodaethau'r Bwrdd ar y materion hynny.

## Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd

Yn ystod blwyddyn adrodd 2024–2025, penododd y Bwrdd Socia i gynnal Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd yn unol â'i Gylch Gorchwyl ac arfer da ehangach mewn llywodraethu corfforaethol i gynnal adolygiad o'r fath o leiaf bob tair blynedd.

Canfu'r adolygiad lawer sy'n gweithio'n dda, gyda'r Bwrdd yn deall yn glir ei bwrpas a'r gallu i sicrhau y gall gyflawni ei gyfrifoldebau. Dangosodd yr adolygiad aliniad cryf yr ymddiriedolwyr â chyfeiriad strategol ac amcanion y Gronfa Goffa, a bod yr ymddiriedolwyr yn ymwybodol o ofynion penodol gweithredu ar Fwrdd gyda'r llywodraeth fel noddwr.

Roedd y Bwrdd yn glir hefyd ei fod eisiau i'r adolygiad awgrymu meysydd i'w gwella er mwyn cryfhau arferion presennol.

Mae'r Bwrdd eisoes wedi cymryd camau i weithredu argymhellion yr adolygiad gan geisio mynd i'r afael â chysondeb ar draws ei bwyllgorau a rhannu profiadau ac arfer gorau. Dros y flwyddyn nesaf, bydd y Weithrediaeth a'r tîm llywodraethu'n gweithio gyda'r Bwrdd i gryfhau goruchwyliaeth y Bwrdd o berfformiad gweithredol y sefydliad a sicrhau eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Weithrediaeth.

## Pwyllgorau'r Bwrdd

### Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg (PAR) yn darparu her adeiladol i brosesau llywodraethu a rheoli risg a rheolaethau ariannol y Gronfa Goffa. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd o ran yr adroddiad ariannol a'r cyfrifon.

Cadeirydd y PAR yw James Twining (ymddiriedolwr o'r Bwrdd) ac mae'r aelodaeth yn cynnwys dau ymddiriedolwr o'r Bwrdd, y mae un ohonynt wedi'i benodi'n Gadeirydd, a dau aelod annibynnol[1]. Mae'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Gweithredol Cyflwyno Busnes a Gwasanaethau Busnes, a gweithwyr eraill y Gronfa Goffa sy'n mynychu fel y bo angen, hefyd yn bresennol.

Mae swyddogion o'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG - archwilwyr allanol), BDO (archwilwyr mewnol) a DCMS hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd. Mae'r PAR yn cynnal sesiynau yn y dirgel a thrafodaethau preifat gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol cyn pob cyfarfod.

[1] Warren Mead a Robert Milburn. Mae Warren Mead wedi ymddiswyddo, yn weithredol o 30 Mehefin 2025. Mae Jon Hayes wedi cael ei benodi'n aelod newydd, gan ddechrau ar 1 Gorffennaf 2025 yn dilyn proses recriwtio agored.

Ym mhob cyfarfod, mae'r PAR yn adolygu Cofrestr Risg Gorfforaethol y Gronfa Goffa ac yn derbyn diweddariadau ar gynnydd yn erbyn canfyddiadau archwilio mewnol, eithriadau caffael, atal twyll a chwythu'r chwiban. Mae'r PAR yn adolygu Adroddiadau a Chyfrifon Blynyddol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol hefyd. Yn ystod 2024–2025, ystyriodd y PAR y canlynol hefyd:

- diweddariadau ar gynnydd y system rheoli buddsoddiadau
- diweddariadau ar ddull y Gronfa Goffa o ymdrin â seiberddiogelwch
- rhennir diwygiadau i bolisi rheoli risg ac adroddiadau risg corfforaethol y Gronfa Goffa, cofnodion cyfarfodydd y PAR ac adroddiadau cryno gyda'r Bwrdd, ac mae'r Cadeirydd yn rhoi'r diweddariad ar lafar i'r Bwrdd ar fusnes a phenderfyniadau'r pwyllgor.

Roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd o'r PAR trwy gydol 2024-2025 fel a ganlyn:

| Aelod o'r PAR | Cyfarfodydd | Mynychwyd |
|---|---|---|
| James Twining | 4 | 4 |
| Taryn Nixon | 4 | 4 |
| Warren Mead | 4 | 4 |
| Robert Milburn | 4 | 4 |

Cynhaliodd y pwyllgor adolygiad o'i effeithiolrwydd yn ystod blwyddyn adrodd 2024–2025, gan ddefnyddio offeryn effeithiolrwydd Pwyllgor Sicrwydd Archwilio a Risg y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a ystyrir yn ddull safonol o adolygu effeithiolrwydd PAR ar gyfer adrannau llywodraeth ganolog a'u cyrff hyd braich.

Asesodd yr ymatebion gan aelodau'r PAR, y tîm Gweithredol a'r archwilwyr mewnol ac allanol fod y PAR yn bodloni'r safon ar gyfer cymwyseddau hanfodol, a dangosodd y sgorau ar gyfer datganiadau arfer da ar gyfartaledd fod y safonau hynny hefyd wedi'u bodloni.

At ei gilydd, mae'r ymatebion a dderbyniwyd yn dangos bod aelodau a rhanddeiliaid yn credu bod y PAR yn gweithredu'n effeithiol ond maent yn tynnu sylw at rai meysydd arfer da y gellid eu gwella a'u datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys sut y gallai aelodau nad ydynt yn ymddiriedolwyr ymgysylltu ymhellach â'r sefydliad a sut y gellid cyflawni hyn, ac i'r Weithrediaeth ystyried sut y bydd yn rhannu datblygiadau strategol a diweddariadau rhaglen mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

## Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth a Phobl

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys pedwar ymddiriedolwr Bwrdd, y mae un ohonynt yn gweithredu fel Cadeirydd (Mukesh Sharma MBE DL) a Chadeirydd y Gronfa Goffa (Dr Simon Thurley MBE). Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Busnes yn mynychu pob cyfarfod, gyda'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn mynychu fel y bo angen.

Cyfarfu'r Pwyllgor ddwywaith yn ystod 2024–2025, i ystyried y strwythur tâl cydnabyddiaeth gweithredwyr ar gyfer 2024 ac i dderbyn diweddariadau ar y setliadau cyflog i gyflogeion a chanlyniadau arolwg staff blynyddol y Gronfa Goffa.

| Ymddiriedolwr | Cyfarfodydd | Mynychwyd |
|---|---|---|
| Mukesh Sharma MBE DL (Cadeirydd) | 2 | 2 |
| Dr Simon Thurley CBE | 2 | 2 |
| Denise Lewis–Poulton | 2 | 2 |
| Carol Pyrah | 2 | 2 |

## Gweithrediaeth a Grŵp Strategaeth a Pherfformiad (GSP)

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rheolaeth y Gronfa Goffa o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr.

Mae'r Weithrediaeth yn cynnwys y Prif Weithredwr a chyfarwyddwyr gweithredol y tair adran (Cyflwyno Busnes, Arloesedd Busnes a Mewnwelediad a Gwasanaethau Busnes). Mae'r Weithrediaeth hon yn gyfrifol am reolaeth strategol a ddarpariaeth fusnes y Gronfa Goffa. Mae'r Weithrediaeth yn cwrdd bob wythnos neu bythefnos yn unol ag anghenion busnes gydag isafswm o un cyfarfod ffurfiol bob mis.

Mae'r Grŵp Strategaeth a Pherfformiad yn cynnwys cyfarwyddwyr a staff uwch o bob un o'r tair adran. Maent wedi dirprwyo cyfrifoldeb gan y Weithrediaeth i fonitro a rheoli darpariaeth weithredol ac mae ganddynt gyfrifoldeb dros sganio'r gorwel, rheoli perfformiad o ddydd i ddydd a chynllunio corfforaethol. Mae'r GSP yn cwrdd bob mis a ddwywaith y flwyddyn mae'n cynnal cyfarfodydd ar y cyd â'r Weithrediaeth.

Mae pob cyfarwyddwr gweithredol yn darparu adroddiadau i'r Bwrdd ar weithgareddau a materion sydd o fewn eu cylch gwaith.

At hynny, ar ddechrau pob blwyddyn, rwy'n cyhoeddi Llythyr o Gyfrifoldeb i bob cyfarwyddwr gweithredol yn nodi eu cyfrifoldebau a'r angen i weithredu o fewn canllawiau a rheolau'r Gronfa Goffa, Swyddfa'r Cabinet a Thrysorlys EF. Ar ddiwedd bob blwyddyn rwy'n derbyn Memoranda Sicrwydd wedi'u llofnodi gan bob cyfarwyddwr gweithredol yn cadarnhau eu cydymffurfiaeth neu'n nodi unrhyw dor rheolau. Adroddwyd cydymffurfiaeth lawn ar gyfer 2024-2025.

### Rheoli risg a rheolaeth fewnol

Mae'r Bwrdd a'r Weithrediaeth yn sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer rheolaeth fewnol gan gynnwys rheoli risg yn y Gronfa Goffa. Mae'r system rheoli mewnol yn seiliedig ar broses barhaus y mai ei nod yw nodi a blaenoriaethu'r risgiau y mae cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Gronfa Goffa yn eu hwynebu, er mwyn gwerthuso tebygolrwydd gwireddu'r risgiau hynny a'r effaith pe bai hynny'n digwydd, a'u rheoli'n effeithiol ac yn effeithlon, ac eto, yn economaidd.

Mae'r Gronfa Goffa o'r farn nad yw lliniaru pob risg yn gyfan gwbl yn bosibl nac yn ddymunol. Credwn ei bod yn bwysig i ni gefnogi ac annog arloesedd ac y gallwn gymryd risgiau rheoledig i gefnogi ein hamcanion strategol. Rydym yn nodi ac yn rheoli risg ar dair lefel:

- corfforaethol: y prif risgiau, cyfleoedd ac ansicrwydd sy'n effeithio ar gyflawni ein cenhadaeth a'n canlyniadau strategol, dan oruchwyliaeth y Weithrediaeth
- gweithredol: risgiau i gyflwyno'r themâu a nodir yn ein cynllun cyflwyno, dan reolaeth adrannau a'r GSP
- risg rhaglenni/prosiectau: risgiau i gyflwyno rhaglen a phrosiectau unigol ac i feysydd penodol o'n gwaith, dan reolaeth byrddau rhaglen

Mae ein system rheoli risgiau a rheoli mewnol wedi'i dylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Mae awydd y Gronfa Goffa am risg yn amrywio yn ôl natur y gweithgaredd. Mae lefel y risg yr ydym yn fodlon ei hysgwyddo'n un o'r ffactorau allweddol a ystyriwn wrth wneud penderfyniadau ar y ffordd orau o fuddsoddi, datblygu a hyrwyddo treftadaeth.

Rydym yn ceisio lleihau amlygiad i risgiau ariannol, cyfreithiol, cydymffurfio a seiber.

Yn ystod y flwyddyn, mae risgiau corfforaethol wedi cael eu hail-ddatgan a'u hail-werthuso i gymryd y strategaeth Treftadaeth 2033 a'i chynllun cyflwyno busnes tair blynedd diwygiedig i ystyriaeth. Rhoddir tag risg i risgiau, gan gysylltu'r risg ag un o chwe thema a nodwyd, sef:

- ariannol
- cyflwyniad strategol
- amgylcheddol
- TG a seiber
- tirwedd treftadaeth
- pobl

Mae'r gofrestr yn gwahaniaethu rhwng y lefel risg gynhenid a'r lefel risg weddilliol, fel ei bod hi'n bosibl barnu effeithiolrwydd y rheolaethau a'r mecanweithiau presennol ar gyfer lliniaru'r risg, ac mae'n defnyddio grid tebygolrwydd/effaith 5 x 5 i sgorio'r safleoedd cyn ac ar ôl lliniaru.

Ar y lefel weithredol caiff perchennog risg ei aseinio i bob risg gorfforaethol sy'n atebol i'r Prif Weithredwr am reoli'r risg honno'n effeithiol.

Mae ein mesurau rheoli twyll yn cynnwys polisi gwrth-dwyll clir a pholisi chwythu'r chwiban, ynghyd â ffordd i'r cyhoedd gyfeirio pryderon yn uniongyrchol i'n tîm archwilio ac ymchwiliadau. Mae gennym hefyd hyfforddiant ymwybyddiaeth twyll gorfodol y mae'n ofynnol i bob aelod o staff ei gwblhau'n flynyddol, gan gynnwys fel rhan o'r broses gynefino ar gyfer dechreuwyr newydd.

Mae rhaglen waith archwilio mewnol yn cael ei pharatoi bob blwyddyn gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a'i chytuno gyda'r Weithrediaeth a'r PAR. Dylunnir y rhaglen hon i roi sicrwydd bod rheolaethau priodol wedi cael eu dylunio a'u bod yn gweithredu'n gywir mewn perthynas â'r holl risgiau arwyddocaol y mae'r Gronfa Goffa yn eu hwynebu.

Yn ystod y flwyddyn, mae adroddiadau archwilio mewnol wedi ymdrin â nifer sylweddol o risgiau, gan gynnwys o fewn y meysydd risg allweddol a ganlyn:

| Archwilio | Sgôr sicrwydd – dyluniad | Sgôr sicrwydd – effeithiolrwydd |
|---|---|---|
| Fframwaith a map sicrwydd | Cymedrol | Dd/B |
| Cardiau caffael y llywodraeth a chysoni treuliau | Cymedrol | Cymedrol |
| Ymrwymiadau, rhagweld a rheoli rhwymedigaethau | Cyfyngedig | Cyfyngedig |
| Ailddylunio ceisiadau a monitro rhaglenni grant | Cymedrol | Cymedrol |
| Adolygu'r prosiect Fframwaith Effaith | Cyfyngedig | Cyfyngedig |
| Diogelu data | Cyfyngedig | Cyfyngedig |
| Adolygu hunanasesu aeddfedrwydd grantiau | Cymedrol | Cymedrol |
| Dilyn i fyny ar argymhellion archwilio mewnol blaenorol | Cymedrol | Cymedrol |

Trafodir holl adroddiadau'r archwilwyr mewnol gan y PAR gydag aelodau staff uwch yn bresennol, gan gynnwys y rhai yr adroddwyd ar eu hadrannau. Mae hyn yn rhoi cyfle i mi a'r Pwyllgor drafod y canfyddiadau, argymhellion a chamau gweithredu arfaethedig i reolwyr yn fanwl. Pan dderbynnir argymhellion i wella neu gywiro, bu'n rhaid i gyfarwyddwyr ddarparu ymateb gweithredu ac amserlen ar gyfer pob argymhelliad hefyd. Mae gweithrediad yr argymhellion hyn yn cael ei dracio a'i fonitro gan yr Adran Gwasanaethau Busnes a'r archwilwyr mewnol. Mae'r rhestr reoli honno hefyd yn cael ei hadolygu fel eitem sefydlog gan y PAR.

Cynhaliwyd ein hadolygiad o reoli risg yn 2024–2025 yn unol ag egwyddorion Llyfr Oren TEF ar y cyd â'n harchwilwyr mewnol. Gan hynny, mae ein harferion rheoli risg yn cydymffurfio â gofynion pum egwyddor y Llyfr Oren.

## Dull gwrth-dwyll

Mae fframwaith rheoli gwrth-dwyll y Gronfa Goffa wedi'i ddylunio i leihau'r risg o dwyll ac mae'n cynnwys polisi a strategaeth atal twyll gydag allbynnau allweddol. Yn ystod 2024–2025 parhaodd y Gronfa Goffa i feincnodi ei dull yn erbyn Safon Swyddogaethol Gwrth-dwyll Llywodraeth y DU (GovS 013) a derbyniodd asesiad gan ei hadran noddi ar lefelau cydymffurfiaeth. O ganlyniad, rydym wedi cryfhau ein polisi gwrth-dwyll ymhellach yn ystod y flwyddyn adrodd hon ac wedi adnewyddu ein cynllun gweithredu eto i ymwreiddio dull gwrth-dwyll ymhellach ar draws y sefydliad.

Aseswyd y Gronfa Goffa hefyd gan Swyddfa'r Cabinet yn erbyn Safon Swyddogaethol Grantiau Llywodraeth y DU (GovS 015) a chafodd y sgôr uchaf mewn pump o'r chwe maes thematig. Nodwyd meysydd bach i'w gwella yn y chweched maes: fframwaith rheoli, ac mae cynllun wedi'i weithredu i wella goruchwyliaeth ymhellach yn y maes hwn.

Yn 2024–2025, ni chyfeiriwyd unrhyw achosion ymlaen fel twyll posibl.

## Rheoli a diogeledd gwybodaeth

Parhaodd y Gronfa Goffa i gynnal ei pherfformiad o ran ymateb yn effeithiol i geisiadau am wybodaeth, nodi cyfleoedd i ddatgelu gwybodaeth yn rhagweithiol, ac ymwreiddio ymddygiadau trin gwybodaeth da ar draws y sefydliad.

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau diogeledd sylweddol yn ymwneud â data yn y Gronfa Goffa yn ystod 2024–2025. Yn ystod y cyfnod hwn, adroddwyd am wyth achos o dorri diogeledd data personol. Ni adroddwyd am unrhyw achosion o dorri rheolau data personol i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth. Ymdriniwyd â phob achos yn ddi-oed ac ymchwiliwyd i bob un i nodi a oedd angen gwneud unrhyw newidiadau i'n systemau a'n prosesau.

Mae ein huwch berchennog risg gwybodaeth, y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Busnes, yn cadeirio’r Grŵp Llywodraethu Technoleg a Gwybodaeth (TIGG) sy’n goruchwylio’r fframwaith a’r prosesau sydd ar waith i fonitro asedau gwybodaeth a risgiau cysylltiedig yn ogystal â datblygu diwylliant o ymwybyddiaeth ymhlith yr holl staff. Cefnogir TIGG yn ei waith gan y Swyddog Diogelu Data sy’n cynorthwyo’r sefydliad i fonitro cydymffurfiaeth GDPR fewnol ac yn hysbysu ac yn cynghori ar ein rhwymedigaethau diogelu data.

Mae'r holl staff newydd yn derbyn arweiniad mewn diogeledd gwybodaeth, diogelu data a Rhyddid

Gwybodaeth fel rhan o'u cynefino ac mae hyfforddiant gloywi'n rhan o lwyfan eDdysgu orfodol y Gronfa Goffa.

## Trefniadau chwythu'r chwiban

Mae polisi chwythu'r chwiban y Gronfa Goffa yn deillio o Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (PIDA) sy'n bodoli i ddiogelu unrhyw aelod o staff sy'n gwneud datgeliadau'n ddidwyll am gamarfer neu weithgarwch sydd yn erbyn budd y cyhoedd. Mae ein polisi a gweithdrefnau ar gyfer codi pryderon yn hygyrch i holl gyflogeion y Gronfa Goffa ac rydym yn cynnig sawl llwybr i staff leisio eu pryderon gan gynnwys defnyddio llinellau cymorth chwythu'r chwiban allanol.

Yn ystod y flwyddyn, ni chodwyd unrhyw bryderon o dan drefniadau chwythu'r chwiban. Mae staff yn codi materion ac yn gwneud awgrymiadau fel rhan o waith bob dydd yn unol â'n diwylliant.

## Safonau swyddogaethol

Mae Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth yn gyfres o 15 o safonau rheoli sy'n gosod disgwyliadau ar gyfer gwaith swyddogaethol ar draws holl adrannau'r llywodraeth, gan gynnwys cyrff hyd braich, ac yn darparu sail gyson a chydlynus ar gyfer sicrwydd, rheoli risg a gwella galluoedd. Mae'r Gronfa Goffa wedi nodi'r safonau swyddogaethol perthnasol ac yn hunanasesu yn eu herbyn yn rheolaidd, gan gadarnhau cydymffurfiaeth â'r safonau perthnasol a chan adrodd ar ein cydymffurfiaeth i'n hadran noddi pan ofynnir am hynny.

## Perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

Y gweithgaredd mwyaf arwyddocaol i'r Bwrdd fu goruchwylio ein hymateb i ailagor rhaglenni agored y Loteri Genedlaethol a'r cynnydd yn y gweithgarwch cymorth grant. Mae'r Bwrdd wedi derbyn diweddariadau manwl a rheolaidd ar bob ymyriad ac mae is-setiau o'r ymddiriedolwyr wedi gweithredu fel y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y rhaglenni a ariennir gan gymorth grant yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Ni ddeilliodd unrhyw beth sy'n peri pryder o unrhyw un o'r pwyllgorau sy'n cefnogi'r Bwrdd. Roedd canfyddiadau adroddiadau'r archwilwyr mewnol ac allanol yn foddhaol yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd wedi'i fodloni ei fod yn parhau i gwrdd â gofynion Côd Llywodraethu Corfforaethol TEF.

Nid oedd unrhyw faterion gan yr archwilwyr a gyflwynwyd i'r PAR ar ran y Bwrdd a barodd unrhyw destun pryder iddo. O ganlyniad i hyn, cred y Bwrdd y gall ddibynnu ar yr wybodaeth a sicrwydd a ddarperir gan reolwyr o ran y penderfyniadau y mae'n eu gwneud.

Mae pob ymddiriedolwr ac aelod pwyllgor a benodir o'r newydd yn derbyn cynefino ar adeg ei benodiad sy'n disgrifio ei rwymedigaethau a dyletswyddau, gwaith y Gronfa Goffa a'i systemau/prosesau, gan ei helpu i wneud cyfraniad llawn at weithrediad y Bwrdd. Parheir â'r rhaglen gynefino ffurfiol hon trwy'r raglen barhaus o ddigwyddiadau a chyfleoedd hyfforddiant eraill i ymddiriedolwyr. Arfarnir effeithiolrwydd ymddiriedolwyr gan y Cadeirydd ar sail reolaidd. Mae perfformiad y Cadeirydd yn cael ei oruchwylio gan yr uwch ymddiriedolwr annibynnol.

## Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion y Gronfa Goffa i ddiogelu arian cyhoeddus ac asedau'r Gronfa Goffa.

Mae fy adolygiad yn cael ei lywio, ond ddim yn gyfan gwbl, gan fynegiadau o sicrwydd a gafwyd ac a dderbyniwyd o'r ffynonellau canlynol:

### 1. Datganiad sicrwydd blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ac adroddiadau archwilio mewnol

O ganlyniad i'w rhaglen waith mae'r archwilwyr mewnol wedi cynhyrchu barn a thystysgrif sicrwydd flynyddol mewn perthynas â digonolrwydd systemau a gweithrediad mesurau rheoli mewnol y Gronfa Goffa. Mae'r farn hon, sef gradd Cymedrol, yn ardystio bod system ddigonol ac effeithiol o lywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol yn bodoli i ymdrin â'r risg na chaiff amcanion rheolwyr eu cyflawni'n llawn. Nododd yr archwiliad mewnol ddau faes allweddol i'w datblygu: y rhain oedd fframwaith ac arferion gwell ar gyfer rheoli prosiectau a rhaglenni, yn enwedig datblygu ei fesurau effaith ar gyfer strategaeth Treftadaeth 2033, a rhagolygon ariannol ar gyfer gwariant ar grantiau. Rwyf wedi adolygu'r adroddiad hwn yn fanwl ac yn fodlon bod unrhyw feysydd materol a nodwyd naill ai wedi derbyn sylw eisoes neu fod cynlluniau gweithredu diffiniedig yn eu lle ar gyfer gwella.

### 2. Datganiadau sicrwydd blynyddol gan gyfarwyddwyr gweithredol

Fel rhan o'r broses lywodraethu, derbynnir datganiadau sicrwydd gan y cyfarwyddwyr gweithredol yn cadarnhau eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau o ran sicrhau y cydymffurfiwyd â pholisïau a gweithdrefnau'r Gronfa Goffa. Drwy gydol y flwyddyn, derbyniodd cyfarwyddwyr sesiynau cynefino a gloywi lle'r oedd hynny'n berthnasol i amlinellu eu cyfrifoldebau dros sicrwydd blynyddol. Cyflwynir datganiadau sicrwydd blynyddol y cyfarwyddwyr i mi fel Swyddog Cyfrifyddu i'w hadolygu a'u hystyried wrth baratoi'r datganiad llywodraethu hwn.

O ganlyniad i'r uchod, credaf fod fframwaith rheoli'r Gronfa Goffa yn darparu'r lefel sicrwydd i mi y mae arnaf ei hangen. Nid oes unrhyw beth yr wyf yn ymwybodol ohono sy'n peri i mi gredu nad yw ein prosesau datgelu ac ymateb i aneffeithlonrwydd, atal gwrthdaro buddiannau, atal a datgelu twyll ac isafu colledion cymorth grant a grantiau Loteri Genedlaethol yn ddigonol.

### 3. Rheoli risgiau

Mae'r cofrestrau risgiau'n cael eu hadolygu'n fanwl bob tri mis. Mae'r cofrestrau risgiau gweithredol yn cael eu trafod gan y GSP a all argymell newidiadau i'r gofrestr risgiau gorfforaethol, neu risgiau y dylid eu hychwanegu ato neu eu dileu ohoni. Wedi hynny, mae'r gofrestr risgiau corfforaethol yn cael ei chymeradwyo gan y Weithrediaeth cyn ei chyflwyno i'r PAR i'w hadolygu a'i chraffu.

Mae fframwaith rheoli risgiau'r Gronfa Goffa yn cael ei arwain gan ofynion a argymhellir yn Llyfr Oren Trysorlys EF ac yn mabwysiadu'r model tair llinell o sicrwydd amddiffyn. Yn ystod 2024–2025 cyflwynwyd gwelliannau pellach i'r fframwaith rheoli risgiau a roddodd sicrwydd gwell i'r PAR.

Er bod y PAR yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd trwy ei adolygiad a chraffu ar drefniadau rheoli risgiau'r Goffa, y Bwrdd sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod arferion rheoli risgiau priodol yn eu lle.

### 4. Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r PAR yn cyfarfod bob chwarter i adolygu a thrafod yr holl ddiweddariadau risg i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol trwy fesurau rheoli lliniaru a mesurau sicrwydd rheoli. Yn ystod y flwyddyn, mae'r pwyllgor wedi canolbwyntio ar dderbyn sicrwydd ychwanegol gan swyddogion mewn perthynas â materion yn ymwneud â phobl/AD, trefniadau diogelu data a gwybodaeth a threfniadau atal twyll. Mae'r PAR yn darparu heriau a chraffu ar drefniadau cofnodi risgiau, adrodd a sicrwydd y Gronfa Goffa ac mae hefyd wedi mynnu sicrwydd ynghylch ymatebolrwydd rheolwyr i weithredu argymhellion archwilio mewnol. Mae'r mesurau sicrwydd hyn wedi'u darparu er boddhad y PAR.


### 5. Cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad

Mae gan y Gronfa Goffa system gynllunio sydd wedi'i dylunio i nodi blaenoriaethau a chynlluniau corfforaethol ym mhob cyfnod ac i fod yn ganllaw wrth gyflwyno'r strategaeth a gymeradwyir gan y Bwrdd. Datblygir cynlluniau cyfarwyddiaethau ar draws y Gronfa Goffa, sy'n bwydo i mewn i'r cynllun corfforaethol cyffredinol ac i'r amcanion personol ar gyfer staff.

Mae gwybodaeth reoli allweddol ychwanegol hefyd yn cael ei choladu a'i dadansoddi ar gyfer y Weithrediaeth trwy gydol y flwyddyn ar ffurfiau amrywiol. Mae hon yn cyflwyno data ar faterion megis ystadegau cyflogaeth, gwasanaethau dyfarnu grantiau, a data ariannol arall megis ein balans yn CDLG. Mae ein dull o gynllunio'n parhau i esblygu ac mae wedi cefnogi ein cynlluniau a'n cyllideb ar gyfer y cyfnod sydd i ddod. Mae hyn yn cynnwys gosod blaenoriaethau datblygu penodol yn erbyn ein pedwar nod strategol.

## Asesiad cyffredinol o lywodraethu a rheolaeth fewnol

Yn fy marn i, wrth ystyried adroddiad sicrwydd y Pennaeth Archwilio Mewnol, mae systemau llywodraethu a rheolaeth fewnol y Gronfa Goffa yn ddigonol i fy ngalluogi i sicrhau fy hun bod y Gronfa Goffa yn cydymffurfio â Deddfau'r Loteri Genedlaethol a'r holl gyfarwyddyd polisi, ariannol a chyfrifon sydd o reidrwydd yn berthnasol i Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol.



**Eilish McGuinness**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

3 Gorffennaf 2025

## Adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff

Mae'r adroddiad tâl cydnabyddiaeth yn cwmpasu'r sefydliad cyfan ac mae'r costau wedi'u dosrannu i gyfrifon cymorth grant a chyfrifon y dosbarthiad Loteri Genedlaethol.

### Tâl Cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r ymddiriedolwyr

dreuliwyd ar weithgareddau'r Gronfa Goffa. At hynny, mae'r Gronfa Goffa yn ad-dalu treuliau teithio ymddiriedolwyr am deithio o'u cartrefi i'w swyddfa gyflogaeth.

Mae tâl cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr, gan gynnwys ad-dalu treuliau trethadwy a'r dreth arnynt, yn cyfateb i'r amrediadau yn y tabl isod. Penodir yr holl ymddiriedolwyr gan y Prif Weinidog.

Penodir ymddiriedolwyr am dair blynedd, gyda'r potensial o'u hadnewyddu am ail dymor. Nid ydynt yn aelodau o'r cynllun pensiwn a ddefnyddir gan y Gronfa Goffa. Ni wnaeth y Gronfa Goffa unrhyw gyfraniadau at gynllun pensiwn ar ran yr ymddiriedolwyr.

### Tâl Cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r ymddiriedolwyr (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Dyrannwyd tâl cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr rhwng y Gronfa Goffa a'i gweithgareddau dosbarthiad Loteri Genedlaethol ar sail 1%:99%. Y cyfanswm tâl cydnabyddiaeth i ymddiriedolwyr yn 2024–2025 oedd £206,664 (2023–2024: £188,290). Trafodir a phennir tâl a chontractau ymddiriedolwyr gan DCMS. Nid yw eu contractau'n cynnwys unrhyw gymalau bonws.

| | 2024–25 £'000 | 2023–24 £'000 |
|---|---|---|
| Dr Simon Thurley CBE (Cadeirydd) | 40–45 | 40–45 |
| Anna Eavis<br>o 16 Chwefror 2024 | 10–15 | 0–5 (Cyfwerth blwyddyn lawn: 10–15) |
| Julian Glover | 20–25 | 15–20 |
| Roisha Hughes<br>o 16 Chwefror 2024 | 10–15 | 0–5 (Cyfwerth blwyddyn lawn: 10–15) |
| Denise Lewis-Poulton<br>o 16 Chwefror 2024 | 20–25 | 20–25 |
| Ray Macfarlane | 20–25 | 20–25 |
| Taryn Nixon | 20–25 | 15–20 |
| Carol Pyrah | 20–25 | 15–20 |
| Mukesh Sharma MBE DL | 20–25 | 20–25 |
| James Twining<br>o 1 Rhagfyr 2023 | 10–15 | 0-5 (Cyfwerth blwyddyn lawn: 10–15) |

Dangosir tâl cydnabyddiaeth a phensiwn y Weithrediaeth yn y tablau isod.

### Gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (CETV)

CETV yw gwerth wedi'i gyfalafu buddiannau'r cynllun pensiwn a aseswyd gan actiwari sydd wedi'i gronni gan aelod ar bwynt penodol mewn amser. Y buddiannau a brisiwyd yw buddiannau cronedig yr aelod a phensiwn unrhyw briod dibynnol a delir o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniad pensiwn i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniad pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w cyfanswm aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi'n unig.

Mae'r ffigurau hefyd yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniad arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i'r trefniadau pensiwn gwasanaeth sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'i gronni o ganlyniad iddynt brynu buddiannau pensiwn ychwanegol y maent wedi talu amdanynt eu hunain. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn budd-daliadau o ganlyniad i dreth lwfans gydol oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddiannau pensiwn.

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniad pensiwn arall ac yn defnyddio ffactorau prisio cyffredinol y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Roedd gan yr holl staff uwch gontractau cyflogaeth parhaol ac roeddent oll yn aelodau cyffredin o naill ai Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) neu alpha. Dyrannwyd eu costau rhwng Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a'r Gronfa Goffa ar sail 99:1 (2023–2024: 99:1).

Cyfrifir ffigurau CETV gan ddefnyddio canllawiau'r cyfraddau disgownt ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2025. Cyhoeddodd Trysorlys EF ganllawiau wedi'u diweddaru ar 27 Ebrill 2023; caiff y canllawiau hyn eu defnyddio o hyd wrth gyfrifo ffigurau CETV 2024-2025.

Dangosir tâl cydnabyddiaeth a phensiwn y Weithrediaeth yn y tablau isod.

### Tâl cydnabyddiaeth y Weithrediaeth (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

| | Cyflog 2024–25 £'000 | Cyflog 2023–24 £'000 | Buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod 2024–25 £'000 | Buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod 2023–24 £'000 | Cyfanswm 2024–25 £'000 | Cyfanswm 2023–24 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Eilish McGuiness** Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu | 150–155 | 145–150 | 249 | (172)* | 400–405 | (20–25) |
| **Isabel Hunt** Cyfarwyddwr Gweithredol Arloesedd a Mewnwelediad Busnes | 130–135 | 125–130 | 52 | 48 | 180–185 | 175–180 |
| **Anne Jenkins** Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflwyno Busnes | 115–120 | 110–115 | 90 | 14 | 205–210 | 125–130 |
| **Richard Sydee** Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Busnes u Busnes o 19 Mehefin 2023 | 120–125 | 90–95 (Cyfwerth blwyddyn lawn: 115–120) | 207 | 13 | 325–330 | 100–105 |

* Mae hyn yn ymwneud ag aelod cyflog terfynol (classic/classic plus/premium) sydd wedi trosglwyddo i alpha. Mae pensiwn cyflog terfynol person mewn cyflogaeth yn cael ei gyfrifo drwy gyfeirio at ei gyflog a hyd ei wasanaeth. Bydd y pensiwn yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall yn rhinwedd unrhyw godiad cyflog yn ystod y flwyddyn. Os nad oes codiad cyflog neu ond codiad cyflog bychan, efallai na fydd y cynnydd mewn pensiwn oherwydd gwasanaeth ychwanegol yn ddigon i wrthbwyso'r cynnydd mewn chwyddiant – hynny yw, mewn termau real, gall gwerth y pensiwn ostwng, a dyna pam fod y gwerthoedd yn negyddol.

### Datgeliad pensiwn y Weithrediaeth (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

| | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad £'000 | Cyfanswm pensiwn cronedig ar oedran pensiwn a chyfandaliad £'000 | Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (CETV) ar 31 Mawrth 2025 £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2024 £'000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV a ariennir gan CGDG £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Eilish McGuiness**<br>Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu | 10–12.5<br>plws cyfandaliad o<br>22.5–25 | 70–75<br>plws cyfandaliad o<br>180–185 | **1,693** | 1,430 | 253 |
| **Isabel Hunt**<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Arloesedd a Mewnwelediad Busnes | 2.5–5 | 15–20 | **283** | 217 | 40 |
| **Anne Jenkins**<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflwyno Busnes | 2.5–5<br>plws cyfandaliad o<br>5-7.5 | 55–60<br>plws cyfandaliad o<br>145–150 | **1,406** | 1.289 | 84 |
| **Richard Sydee**<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaetha<br>o 19 Mehefin 2023 | 7.5–10<br>plws cyfandaliad o<br>20–22.5 | 50–55<br>plws cyfandaliad o<br>125–130 | **1,090** | 859 | 190 |

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn wrth gyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl ymadael â'r cynllun fel aelod gweithredol os ydynt eisoes ar oedran pensiwn neu'n hŷn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 ar gyfer aelodau nuvos, a'r uchaf o 65 neu'r oedran pensiwn gwladol ar gyfer aelodau alpha y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill newydd. Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer cyfarwyddwyr yn dangos pensiwn a enillir ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) neu alpha fel y bo'n briodol. Pan fydd gan y cyfarwyddwr fuddiannau mewn PGPGS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunedig ei fuddiannau yn y ddau gynllun, ond dylid nodi y gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy ar oedrannau gwahanol.

Mae buddion pensiwn cronedig tabl hwn ar gyfer unrhyw unigolyn yr effeithir arno gan y Dull Rheoli Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus wedi'u cyfrifo yn seiliedig ar eu cynnwys yn y cynllun etifeddol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae'r Dull Rhwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau, neu'n gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oedd yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae sail y cyfrifiad yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol bod aelodau yr effeithiwyd arnynt wedi cael eu hadfer i'r cynllun etifeddol perthnasol ar gyfer y cyfnod rhwymedi a bydd hyn yn berthnasol oni bai bod yr aelod yn arfer ei hawl yn weithredol wrth ymddeol i benderfynu yn lle hynny i dderbyn buddion a gyfrifir o dan delerau'r cynllun Alpha ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2022.

## Pensiynau

Darperir buddiannau pensiwn trwy drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil. O fis Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil: Y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn sy'n cyfateb i oedran pensiwn gwladol yr aelod (neu 65 oed os yn uwch). O'r dyddiad hwnnw ymunodd pob gwas sifil newydd ei benodi a'r mwyafrif o'r rhai a fu eisoes mewn gwasanaeth ag alpha.

Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS), sydd â phedair adran: tri sy'n darparu buddiannau ar sail cyflog terfynol (classic, premium a classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddiannau ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, telir costau'r buddiannau gan gyllid a bleidleisir gan senedd y DU bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn codi'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau. Parhaodd aelodau presennol PGPGS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 i fod yn rhan o PGPGS ar ôl 1 Ebrill 2015. Gwnaeth y rhai yr oeddent rhwng 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 newid i alpha rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Oherwydd bod Llywodraeth y DU yn bwriadu dileu gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, mae'n bosibl y bydd gan aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 hawl i fuddiannau pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler uchod). Bydd buddiannau PGPGS yr holl aelodau a newidiodd i

alpha yn cael eu bancio, a bydd y rhai sydd â buddiannau cynharach mewn un o adrannau cyflog terfynol PGPGS yn gweld bod y buddiannau hynny'n seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha.

Gall aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniad buddiant diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliad prynu arian gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth). Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05% o enillion pensiynadwy yn achos aelodau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae buddiannau'r cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. At hynny, mae cyfandaliad cyfwerth â thair blynedd o'r pensiwn cychwynnol yn daladwy wrth ymddeol. Mae buddiannau'r cynllun premium yn cronni ar gyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes cyfandaliad awtomatig.

I bob pwrpas mae classic Plus yn gynllun hybrid, gyda buddiannau ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn unol â classic a buddiannau ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n unol â premium. Yn nuvos mae aelodau'n cronni pensiwn yn seiliedig ar enillion pensiynadwy yn ystod eu cyfnod o aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillir yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio'n unol â deddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau.

Mae buddiannau mewn alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos ond mae'r gyfradd gronni'n 2.32%. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniad pensiwn rhanddeiliad yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr o £210 (2023–2024: £292) i banel o ddarparwyr pensiwn rhanddeiliaid a benodwyd. Mae'r Gronfa Goffa yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y cyflogai o'r panel o ddarparwyr. Yn ystod 2018–2019, lleihawyd y panel i un cyflenwr, Legal & General.

Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond os yw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol hyd at uchafswm o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yr yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Ar hyn o bryd mae dau aelod staff yn gweithio ar weithgareddau dosbarthiad Loteri Genedlaethol sydd â chyfrif pensiwn partneriaeth.

Ceir manylion pellach am drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.gov.uk. Er eu bod yn gynlluniau buddiant diffiniedig, mae atebolrwydd am dalu buddiannau yn y dyfodol yn dâl a godir ar PGPGS neu alpha. Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill sy'n dod o dan PGPGS ac alpha yn talu cost y pensiwn a ddarperir ar gyfer y staff y maent yn eu cyflogi ar ffurf taliadau a gyfrifir ar sail gronedig.

Ar gyfer 2024-2025, talwyd cyfraniadau cyflogwr o £143,069 (2023-2024: £265,952) ac eithrio symiau a dalwyd i gynlluniau pensiwn partneriaeth, i PGPGS ac alpha ar y cyfraddau a ddisgrifir fel a ganlyn:

| Band cyflog | % |
|---|---|
| £23,000 a llai | 28.97 |
| £23,001–£45,500 | 28.97 |
| £45,501–£77,000 | 28.97 |
| £77,001 ac yn uwch | 28.97 |

## Cymhareb tâl cydnabyddiaeth (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Y cyfarwyddwr gweithredol â'r tâl mwyaf yn 2024–2025 a 2023–2024 oedd y Prif Weithredwr fel y datgelir yn y tabl ar dudalen 43. Roedd band tâl cydnabyddiaeth blynyddol y Prif Weithredwr yn £150,000 i £155,000 (2023–2024: £145,000 i £150,000). Roedd hyn tua 3.6 gwaith (2023–2024: 3.7 gwaith) tâl cydnabyddiaeth canolrif y gweithlu, sef £41,979 (2023–2024: £39,730). Nid oedd unrhyw gyflogeion a dderbyniodd dâl cydnabyddiaeth uwch na'r cyfarwyddwr gweithredol â'r tâl mwyaf. Amrywiodd tâl cydnabyddiaeth o £24,022 i amrediad o £150,000 i £155,000 (2023–2024: £21,838 i fand o £145,000 – £150,000).

## Datgeliad cyflog teg (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Mae’r newid canrannol o 2024–2025 i 2023–2024 mewn perthynas â’r cyfarwyddwr â'r tâl mwyaf a’r newid canrannol cyfartalog ar draws yr holl staff (ac eithrio’r cyfarwyddwr â'r tâl mwyaf) i'w weld isod.

| | Cyfanswm cyflog a lwfansau 2024–25 | Taliadau bonws i staff 2024–25 | Cyfanswm cyflog a lwfansau 2023–24 | Taliadau bonws i staff 2023–24 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfartaledd staff | 4.72% | 27.09% | 5.32% | 25.51% |
| Y cyfarwyddwr â'r tâl mwyaf | 3.39% | – | 3.51% | – |

Datgelir isod cymhareb cyfanswm tâl cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr o'i gymharu â 25ain, 50ain a 75ain canradd tâl cyfwerth ag amser llawn staff.

Mae'r cyfanswm tâl cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tal ar sail perfformiad anghyfunedig a buddiannau mewn da. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

| | 2024–25 £ | 2024–25 Ratio | 2023–24 £ | 2023–24 Ratio |
|---|---|---|---|---|
| 25ain canradd | 30,974 (30,282 cydran gyflog) | 4.9 | 28,541 (28,082 cydran gyflog) | 5.2 |
| 50ain canradd | 41,979 (41,287 cydran gyflog) | 3.6 | 39,730 (39,087 cydran gyflog) | 3.7 |
| 75ain canradd | 46,865 (46,173 cydran gyflog) | 3.3 | 45,011 (44,497 cydran gyflog) | 3.3 |

## Pecynnau ymadael (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Yn unol â gofynion Swyddfa'r Cabinet, mae'n ofynnol i'r Gronfa Goffa gyhoeddi manylion pob pecyn ymadael a gytunwyd yn y flwyddyn ariannol dan sylw. Mae pecynnau ymadael yn cynnwys diswyddiadau gorfodol a gwirfoddol, ymddeol yn gynnar, digolledu am golli swydd a thaliadau ex-gratia. Ni thalodd y Gronfa Goffa am unrhyw becynnau o'r fath yn 2024–2025 (2023–2024: dim byd).

## Costau staff (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

| | 2024–25 £’000 | 2023–24 £’000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | 700 | 906 |
| Taliadau YG y cyflogwr | 55 | 98 |
| Taliadau i'r cynllun pensiwn | 143 | 247 |
| Costau staff dros dro | 4 | 14 |
| | 902 | 1,265 |

Oherwydd y ffordd y mae ein systemau'n gweithredu nid ydym yn gallu darparu dadansoddiad o'r costau rhwng staff ar gontractau parhaol a'r rheini ar gontractau cyfnod penodol.


Roedd nifer cyfartalog y cyflogeion a fu'n gweithio ar weithgareddau dosbarthu cymorth grant yn 2024-2025 fel a ganlyn:

| 2024–25 | Cyflwyno Busnes | Gwasanaethau Busnes | Arloesedd a Mewnweledid Busnes | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Staff parhaol | 12 | 1 | 2 | 15 |
| Staff eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 12 | 1 | 2 | 15 |

| 2023–24 | Cyflwyno Busnes | Gwasanaethau Busnes | Arloesedd a Mewnweledid Busnes | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Staff parhaol | 18 | 2 | 3 | 23 |
| Staff eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 18 | 2 | 3 | 23 |

## Lefelau absenoldeb oherwydd salwch

Gostyngodd lefelau salwch eto y llynedd i 2%. Mae hyn yn parhau i gymharu'n dda â metrigau absenoldeb cenedlaethol sy'n gosod lefelau salwch cyffredinol y DU ar 3% a 4% yn y sector cyhoeddus. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn cefnogaeth lles gydag ystod eang o gyfleusterau mewnol ac allanol ar gael i ddiwallu gwahanol anghenion ein staff. Rydym yn darparu cyfleoedd gweithio hybrid ac ail-lansiwyd ein polisi gweithio hyblyg yn 2024-2025 i helpu ein pobl i gydbwyso ymrwymiadau personol a gwaith. Cafodd ein dull o ymdrin â lles a gweithio hybrid adborth cadarnhaol iawn yn ein Harolwg Staff 2024 ac roeddent uwchben lefelau meincnod y sector cyhoeddus.




Ffynhonnell: Absenoldeb oherwydd salwch ym marchnad lafur y DU – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

## Ennyn diddordeb ac ymgynghori â chyflogeion

### Arolwg Staff 2024

Cwblhawyd ein harolwg staff yn 2024 gan 85% o staff, sef ein cyfradd ymateb uchaf hyd yma, sy'n rhoi tystiolaeth gref i ni feincnodi ein perfformiad yn erbyn sefydliadau eraill y sector cyhoeddus.

Mae ein sgôr ymgysylltu, sef lefel ymgysylltu gyffredinol staff yn eu gwaith ar gyfer y Gronfa Goffa, hefyd yn gryf iawn ar 80%. Mae hyn ymhell uwchben meincnod cyfartalog y sector cyhoeddus o 71% ac yn ddatganiad cadarnhaol o'n hymrwymiad i'r gwaith a wnawn dros dreftadaeth. Nododd y sefydliad allanol a gynhaliodd yr arolwg ar ein rhan ein hymgysylltiad cryf â staff gan nodi ein bod yn gwneud yn dda o'i gymharu â sefydliadau tebyg eraill sydd hefyd yn gweithredu yn hinsawdd ansicr bresennol y sector economaidd a chyhoeddus.

Mae canlyniadau'n dangos ymgysylltiad cryf ein staff (uwchben y meincnod) mewn llawer o feysydd allweddol gan gynnwys eglurder ein cyfeiriad sefydliadol, balchder o fod yn weithiwr, ymrwymiad personol i lwyddiant y Gronfa Goffa, mwynhau gweithio gyda chydweithwyr a'r hyblygrwydd a'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a gynigiwn. Yn yr un modd, mae'r arolwg wedi amlygu rhai meysydd clir i'w gwella. Mae'r rhain yn cynnwys llwythi gwaith, arweinyddiaeth, cyfathrebu rhwng timau a gwobrwyo a dilyniant.

Aethom ati'n gyflym i adolygu'r canlyniadau ac archwilio meysydd i weithredu arnynt, gan gynnwys cynnal trafodaethau gyda'n hyrwyddwyr diwylliant a'n hundebau llafur, yn ogystal â threfnu trafodaethau am y canlyniadau mewn timau ac adrannau. Rydym wedi defnyddio'r canlyniadau, y sylwadau a'r adborth i lunio ein cynllun gweithredu arolwg staff newydd sy'n canolbwyntio ar dair thema allweddol:

- arweinyddiaeth a gwerthoedd
- llwythi gwaith a lles
- profiad gweithwyr

Rydym wedi sefydlu tîm rheoli prosiect i oruchwylio darpariaeth ein cynllun gweithredu. Mae gan bob un o'r themâu hyn noddwr gweithredol ac mae'r holl ymrwymiadau a chamau gweithredu wedi'u harwain gan gyfarwyddwr.

## Rhwydweithiau staff

Rydym yn parhau i gefnogi'n weithredol ein pum rhwydwaith staff mewnol, sy'n darparu cyfleoedd cefnogaeth gan gymheiriaid a sianel ddefnyddiol i ymgysylltu ac ymgynghori â gweithwyr. Mae arweinwyr ein rhwydweithiau'n cynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag Adnoddau Dynol a hefyd gyda'n Prif Weithredwr. Mae gan bob un rhwydwaith noddwr o'n tîm arweinyddiaeth uwch.

## Ein rhwydweithiau yw:

- Rhwydwaith Mwyafrif Byd-eang
- Rhwydwaith Rhywedd
- Rhwydwaith LHDT+
- Rhwydwaith Niwroamrywiaeth
- Rhwydwaith Anableddau

## Hyrwyddwyr diwylliant

Mae ein hyrwyddwyr diwylliant yn rhwydwaith cymheiriaid gwirfoddol o staff sy'n cefnogi ein gwaith o ymwreiddio ein gwerthoedd, ein hymddygiad a'n diwylliant ar draws y Gronfa Goffa. Maent yn dod â llais y staff a'u profiadau eu hunain i sgyrsiau am gynlluniau a gweithgareddau sefydliadol. Teimlant eu bod wedi'u grymuso i fod yn agored ac yn onest, i herio'r sefyllfa bresennol ac i rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd gydag adnoddau dynol ac arweinwyr. Mae gan bron bob tîm hyrwyddwr diwylliant sy'n cefnogi eu cyfarwyddwr gyda chamau ymgysylltu staff lleol, ond maent hefyd yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'n tîm AD i drafod, adolygu a chefnogi gwaith ymgysylltu staff. Yn ddiweddar, fe wnaethom drefnu gweithdy ar gyfer ein tîm gweithredol a hyrwyddwyr diwylliant i adolygu canlyniadau ein harolwg staff 2024 gyda'i gilydd.

## Undebau llafur

Mae'r Gronfa Goffa yn cydnabod undebau llafur PCS ac FDA. Mae ein tîm AD yn cwrdd yn fisol gyda'r ddau undeb ac rydym yn trafod polisi, prosesau ac adborth gan aelodau'n weithredol, yn ogystal â datblygiadau ehangach yn y gweithlu. Rydym hefyd yn cynnal trafodaethau bargeinio cyflog blynyddol o dan fframwaith datganoledig Cylch Gwaith Cyflog y Gwasanaeth Sifil.

Mae ein cynrychiolwyr undebau llafur yn chwarae rolau gwerthfawr yn y gweithle ac mae ganddynt hawl statudol i amser rhesymol i ffwrdd â thâl yn ystod oriau gwaith arferol i gwblhau dyletswyddau undeb, yn unol â'u rôl yn yr undebau llafur ac i ymgymryd â gweithgareddau undeb llafur. Mae'n ofyniad statudol arnom hefyd i ddatgelu gwybodaeth am amser cyfleuster undebau llafur a gwariant perthnasol a dangosir y manylion isod.

### Cynrychiolwyr undeb llafur a chyfwerth ag amser llawn

| | Nifer y cynrychiolwyr |
|---|---|
| Cynrychiolwyr undeb llafur | 18 |
| Cynrychiolwyr undeb llafur CaALl | 17.63 |

### Canran o oriau gwaith a dreuliwyd ar amser cyfleuster

| Canran o oriau gwaith | Nifer y cynrychiolwyr |
|---|---|
| 0% | 2 |
| 1–50% | 16 |
| 51%–99% | 0 |
| 100% | 0 |

### Cyfanswm bil tâl a chostau amser cyfleuster

| | |
|---|---|
| Cyfanswm cost yr amser cyfleuster | £22,556 |
| Cyfanswm bil tâl | £19,629,146 |
| Canran y tâl a dreuliwyd ar amser cyfleuster | 0.11% |

### Gweithgareddau undeb llafur â thâl

| | |
|---|---|
| Oriau a dreuliwyd ar amser gweithgareddau ULI â thâl | 156 |
| Canran y cyfanswm amser cyfleuster â thâl a dreuliwyd ar weithgareddau ULI â thâl | 18% |

## Monitro cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad (EDI) yn parhau i fod yn rhan annatod o'n gwaith o roi grantiau ac o'n llywodraethu, ein gweithlu, ein gwerthoedd a'n hymddygiadau. Mae ein strategaeth Treftadaeth 2033 yn rhoi cynhwysiad wrth wraidd popeth a wnawn.


## Dadansoddiad o amrywiaeth y gweithlu

Mae'r siartiau isod yn dangos amrywiaeth y gweithlu ar gyfer ethnigrwydd, anabledd, rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol. Dangosir data meincnod cymharol hefyd (yn seiliedig ar lefelau poblogaeth weithio'r DU).

### Amrywiaeth ethnig yn y gweithlu

Gostyngodd cynrychiolaeth grwpiau ethnig amrywiol yn ein gweithlu ychydig i 8% yn 2024–2025. Rydym yn cydnabod bod y lefel hon yn is na lefelau meincnod cenedlaethol yn y DU ehangach ac rydym wedi ymrwymo'n weithredol i fynd i'r afael â hyn. Mae ethnigrwydd yn amrywio yn ôl tîm ac mae ar ei uchaf (20%) yn ein hadran Gwasanaethau Busnes, sy'n cynnwys y rhan fwyaf o'n rolau corfforaethol a phroffesiynol. Rydym yn cydnabod bod grwpiau ethnig wedi'u tangynrychioli ar draws y sector treftadaeth ac yn parhau i fuddsoddi mewn gweithredu cadarnhaol gyda'n partneriaid hirdymor, Cymrodoriaeth Windsor. Rydym yn darparu pedair interniaeth â thâl bob blwyddyn ar gyfer ymgeiswyr ethnig amrywiol i'w helpu i ddilyn cyfleoedd gyrfa yn y byd treftadaeth. Byddwn yn buddsoddi mewn hyfforddiant cynhwysiad newydd yn 2025–2026, a hefyd yn datblygu hyfforddiant datblygu gyrfa newydd i gefnogi ymgeiswyr mewnol o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli'n ethnig yn ein timau rheoli uwch.

Mae ein hadolygiad o recriwtio yn dangos bod ceisiadau am swyddi gan ymgeiswyr amrywiol o ran ethnigrwydd wedi codi'n sylweddol o 9% yn 2019-2020 i 25% yn 2024–2025. Mae hyn yn dangos effaith gadarnhaol ein mentrau recriwtio cynhwysol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod gwahaniaethau rhwng y nifer o ymgeiswyr o gymharu â'r nifer o benodiadau. Rydym yn cynnal adolygiadau pellach o'n harferion recriwtio yn 2025–2026 a hefyd mentrau cynhwysiad ehangach





Ffynhonnell meincnod: Bwletin ystadegol - Ystadegau'r Gwasanaeth Sifil: 2024 – GOV.UK

### Anabledd yn y gweithlu

Cododd y ganran o'n gweithlu sydd ag anabledd i 17% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r lefel hon yn cyfateb i lefelau anabledd yn y Gwasanaeth Sifil ond mae'n sylweddol uwch na lefel y bobl anabl sy'n economaidd weithgar yng ngweithlu'r DU. Rydym yn parhau i fod yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd a gwnaethom adnewyddu ein hymrwymiad i'r cynllun pwysig hwn yn 2024–2025. Fel rhan o'n hymrwymiad i weithredu cadarnhaol, rydym yn parhau i gymryd rhan yn rhaglen 'Change 100' Leonard Cheshire. Bob blwyddyn rydym yn darparu dwy interniaeth â thâl i fyfyrwyr neu raddedigion ag anableddau/cyflyrau iechyd hirdymor.

Cynhaliwyd adolygiad o ddata recriwtio yn 2024–2025 ac mae ceisiadau am swyddi gan ymgeiswyr anabl wedi codi'n sylweddol o 6% yn 2019–2020 i 13% yn 2024–2025. Mae hyn yn dangos effaith gadarnhaol ein mentrau recriwtio cynhwysol wrth annog ymgeiswyr anabl i wneud cais am rolau ac i rannu eu hanabledd. Fodd bynnag, byddwn yn cynnal adolygiadau pellach o'n harferion recriwtio yn 2025–2026 a hefyd mentrau cynnwys anabledd ehangach.





Ffynhonnell meincnod: Bwletin ystadegol - Ystadegau'r Gwasanaeth Sifil: 2024 – GOV.UK

### Amrywiaeth rhywedd yn y gweithlu treftadaeth

Mae canran y menywod yn ein gweithlu yn 2024–2025 yn aros heb ei newid ar 74%. Mae hyn yn parhau i fod yn sylweddol uwch na meincnod y DU o fenywod sy'n economaidd weithgar yng ngweithlu ehangach y DU a chymhariaeth meincnod y Gwasanaeth Sifil o 54.2%. Rydym yn cydnabod bod gan lawer o sefydliadau eraill yn y sectorau treftadaeth ac elusennol lefelau uwch o gynrychiolaeth fenywaidd yn eu gweithlu hefyd, fodd bynnag mae cymysgedd rhywedd ein gweithlu'n cael effaith ar ein cyflog rhywedd.

Mae ein hadolygiad recriwtio'n dangos mai dim ond ychydig iawn y mae ceisiadau am swyddi gan ddynion wedi newid rhwng 2019–2020 a 2024–2025, sef 40%. Mae hyn yn dangos diffyg llwyddiant yn ein mentrau recriwtio yn y maes hwn. Byddwn yn cynnal ymchwiliad a dadansoddiad pellach i archwilio achosion sylfaenol posibl hyn a pham y bu ostyngiad mewn niferoedd y dynion a benodir, sydd hyd yn oed yn is na lefelau ceisiadau.





Ffynhonnell meincnod: Bwletin ystadegol - Ystadegau'r Gwasanaeth Sifil: 2024 – GOV.UK

### Cyfeiriadedd rhywiol yn y gweithlu

Arhosodd canran y cydweithwyr sy'n nodi eu bod yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol, cwiar neu gyfeiriadedd rhywiol arall (LHD+) ar 7%, heb ei newid o'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn debyg i lefelau'r Gwasanaeth Sifil ond ymhell uwchben meincnod cenedlaethol y DU o 3.

Mae ein hadolygiad recriwtio yn 2024–2025 yn dangos i ni fod ceisiadau gan ymgeiswyr LHDTC+ wedi codi'n sylweddol o 8% yn 2019–2020 i 18% yn 2024–2025. Mae hyn yn dangos pa mor ddeniadol yw'r Gronfa Goffa a llwyddiant ein mentrau recriwtio. Fodd bynnag, byddwn yn cynnal adolygiadau pellach o'n harferion recriwtio yn 2025–2026 a hefyd mentrau cynhwysiad ehangach.




Ffynhonnell meincnod: Bwletin ystadegol - Ystadegau'r Gwasanaeth Sifil: 2024 – GOV.UK

## Iechyd a diogelwch yn y gwaith

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau cymorth lles i staff a'u rheolwyr ac wedi ymrwymo'n weithredol i ddarparu cymorth i'r rhai sydd ei angen.

Rydym yn darparu mynediad i'r gwasanaethau canlynol:

- rhaglen cynorthwyo cyflogeion
- gwasanaethau cwnsela
- ioga a tai chi am ddim
- asesiad iechyd cyn-gyflogaeth ar gyfer recriwtiaid newydd
- sgriniad Nuffield Health
- cymorth iechyd galwedigaethol ac addasiadau rhesymol i'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor
- cynllun ffitrwydd a lles
- gwell cyfleoedd cymorth drwy ein trefniadau absenoldeb arbennig newydd ac estynedig
- prynu a gwerthu gwyliau blynyddol

Mae'n ofynnol i bob aelod newydd o staff ddilyn hyfforddiant iechyd a diogelwch gorfodol gan gynnwys hyfforddiant tân, ymwybyddiaeth iechyd meddwl, offer sgrîn arddangos a chodi a chario. Mae ein fframwaith hyfforddi gorfodol wedi'i adolygu'n ddiweddar a bydd gofynion hyfforddiant gloywi newydd yn dechrau yn 2025–2026.

## Rheoli cyfalaf dynol

Rydym wedi cyflwyno mentrau drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod y Gronfa Goffa yn parhau i fod yn lle gwych i weithio. Mae canlyniadau ein Harolwg Staff 2024 yn dangos bod staff yn ein graddio uwchben lefelau meincnod y sector cyhoeddus fel sefydliad sydd wedi ymrwymo i ddatblygu ei bobl, ac rydym yn sgorio'n sylweddol uwchben lefelau meincnod ar gyfer staff sy'n argymell y Gronfa Goffa fel lle da i weithio.

Rydym yn parhau i feithrin a thyfu talent mewnol. Llenwyd tua 45% o'n swyddi gwag gan ymgeiswyr mewnol. Symudodd dros 30 o staff i gyfleoedd gyrfa mewnol newydd a symudwyd dros 40 o staff ar gontractau cyfnod penodol i gontractau parhaol.

Rhwng 2024 a 2025 mae ein tîm Datblygu'r Gweithlu wedi cynnal dros 24 o raglenni hyfforddi sgiliau gwahanol a fynychwyd gan bron i 200 o staff. Mae dros 30 o staff wedi cymryd rhan yn ein rhaglenni rheoli ac arweinyddiaeth "Be Remarkable", ac mae dros 50 o staff wedi derbyn cyllid ar gyfer datblygiad allanol. Rydym hefyd yn parhau i gefnogi prentisiaethau a secondiadau.

Fodd bynnag, mae canlyniadau ein harolwg staff hefyd yn dweud wrthym fod ein pobl eisiau i ni fuddsoddi hyd yn oed yn fwy mewn datblygu gyrfa a darparu cyfleoedd newydd i ddysgu. Mae camau gweithredu blaenoriaeth wedi'u hymgorffori yng nghynllun gweithredu ein harolwg yn unol â hynny. Ymhlith cyfleoedd hyfforddi mewnol ac allanol eraill, rydym yn gweithio i hyrwyddo diwylliant dysgu gan ddefnyddio'r model '70 / 20 /10', gan gydnabod bod y rhan fwyaf o ddysgu'n digwydd trwy rolau craidd unigolion a sut maen nhw'n gweithio ac yn dysgu gan eu rheolwyr a'u cymheiriaid.


## Trosiant staff

Gostyngodd trosiant staff cyffredinol yn y flwyddyn 2024–2025 i 14%, gan gynnwys staff ar gontractau cyfnod penodol. Roedd trosiant staff parhaol hyd yn oed yn is, sef 10%. Mae hyn yn sylweddol is na'r meincnod cyflogwyr DU gyfan.

Mae trosiant staff parhaol wedi sefydlogi ers uchafbwyntiau ar ôl y pandemig, yn rhannol oherwydd amodau'r farchnad genedlaethol ond hefyd oherwydd camau gweithredu rhagweithiol yn y meysydd canlynol:

- gostyngiad yn y defnydd o gontractau cyfnod penodol
- ehangu cyfleoedd gweithio hyblyg a hybrid
- cyfleoedd ar gyfer datblygiad gyrfa mewnol (llenwyd 45% o'n swyddi gwag yn 2024–2025 drwy ddatblygiad gyrfa mewnol)
- buddsoddiadau mewn sgiliau a hyfforddiant
- ymgyrchoedd ymgysylltu staff yn hyrwyddo lle gwych i weithio, gan gynnwys cefnogaeth lles
- targedu ein dyfarniadau cyflog i gefnogi cadw staff

Yn ychwanegol at ostyngiadau mewn trosiant, rydym hefyd wedi gwneud gwelliannau i'r ffordd yr ydym yn recriwtio ac mae dros 95% o'n hymgyrchoedd recriwtio yn llwyddiannus y tro cyntaf yr ydym yn hysbysebu.




Ffynhonnell: Benchmarking employee turnover: What are the latest trends and insights? | CIPD

## Gwariant ar ymgynghoriaeth

Gwariodd y Gronfa Goffa £542 ar wasanaethau ymgynghori yn 2024–2025 (2023–2024: £2,468) fel rhan o'i gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol mewn perthynas â darparu cyngor ac arbenigedd i gefnogi ein gweithrediadau. Roedd hyn yn ymwneud ag elfen o Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd.

## Chwythu'r chwiban


Mae gan y Gronfa Goffa bolisi chwythu'r chwiban clir i alluogi staff i godi pryderon a datgelu gwybodaeth y mae'r unigolyn yn tybio ei bod yn dangos camarfer neu amhriodoldeb. Mae hyn yn cynnwys materion sydd er lles y cyhoedd ac yn cynnwys y materion (anghynhwysol) a ganlyn:

- camarfer neu amhriodoldeb neu dwyll o ran cyllid
- methu â chydymffurfio â rhwymedigaeth neu statudau cyfreithiol
- peryglon i iechyd a diogelwch neu'r amgylchedd
- gweithgarwch troseddol
- ymddygiad amhriodol neu anfoesegol
- ymgeisiau i guddio unrhyw un o'r uchod

Nid oedd unrhyw achosion o chwythu'r chwiban yn ystod y flwyddyn.

## Cyflogi oddi ar y gyflogres

Yn ystod 2025–2024 nid yw'r Gronfa Goffa wedi cyflogi unrhyw unigolion drwy gontractau oddi ar y gyflogres sydd â goblygiad IR35 (2023-2024: dim byd).



**Eilish McGuinness**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

3 Gorffennaf 2025

# Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol

Er mwyn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol (LlAA) y Llywodraeth, rydym wedi datgelu colledion a thaliadau arbennig yn nodyn 18 o'r adran cyfrifon blynyddol. Datgelir rhwymedigaethau amodol yn nodyn 5 o'r adran cyfrifon blynyddol, nid oes gennym unrhyw rwymedigaethau amodol materol nad ydynt wedi'u datgelu. Ni wnaed unrhyw roddion dros £300,000.

## Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i ddau Dŷ Senedd y DU, Senedd Yr Alban, Senedd Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon

### Barn am ddatganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol gan Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol:

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2025;
- Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net, Datganiad Llifoedd Arian Parod a Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn gyfraith berthnasol ac yn Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn darparu barn wir a theg am gyflwr materion Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar 31 Mawrth 2025 ac am ei gwariant cynhwysfawr net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi yn briodol yn unol â Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd oddi tani.

### Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol mae'r incwm a gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso yn unol â bwriad Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Sail dros y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs UK), cyfraith berthnasol a Nodyn Arfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol  a Rheoleidd-dra Cyrff Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2024). Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a fy staff yn cydymffurfio â Safonau Moesegol Diwygiedig 2024 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol i Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail dros fy marn.

### Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol yn briodol wrth baratoi'r datganiadau ariannol;

Ar sail y gwaith yr wyf wedi'i berfformio, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol mewn perthynas â digwyddiadau neu gyflyrau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuon sylweddol ar allu Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Mae fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol wedi'u disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadwyd y sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol wrth ystyried y gofynion a nodir yng Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol pan ragwelir y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

### Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol nag ychwaith fy nhystysgrif ac adroddiad archwilydd arnynt. Fel swyddog cyfrifyddu mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a ddatgenir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw ffurf ar gasgliad sicrwydd arni.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth y daethpwyd o hyd iddi yn yr archwiliad neu sydd fel arall i'w gweld yn cael ei chamddatgan yn faterol.

Os byddaf yn nodi'r cyfryw anghysondebau materol neu gamddatganiadau materol tybiedig, mae'n ofynnol i mi bennu a yw hyn yn achosi camddatganiad materol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i berfformio, bod camddatgan materol o'r wybodaeth arall hon yn bodoli, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar hyn o beth.

### Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhannau o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1980; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol pan baratowyd y datganiadau ariannol yn cydweddu â'r datganiadau ariannol ac yn cyfateb i'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

### Materion yr adroddaf arnynt trwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a dealltwriaeth o Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau materol yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf amdanynt i chi os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw gan Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol neu nad yw dychweliadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nas ymwelwyd â hwy gan fy staff; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- os nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun yr archwiliad yn cyfateb i'r cofnodion a dychweliadau cyfrifyddu; neu
- os nad yw datgeliadau tâl cydnabyddiaeth penodol a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF wedi'u gwneud neu nad yw rhannau o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff sydd i'w archwilio'n cydweddu â'r cofnodion a'r dychweliadau cyfrifyddu; neu
- os nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- darparu mynediad ar gyfer y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at yr holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- darparu gwybodaeth ychwanegol ac esboniadau i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu harchwiliad;
- darparu mynediad anghyfyngedig ar gyfer y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at bersonau o fewn Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol y mae'r archwilydd yn pennu ei bod yn angenrheidiol dderbyn tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod y fath fesurau rheoli mewnol yn bodoli y bernir eu bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag camddatgan perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad;
- paratoi datganiadau ariannol sy'n darparu barn wir a theg yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1980;
- paratoi'r adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff, yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1980; ac
- asesu gallu Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu'n rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1980.

Fy amcanion yw dod o hyd i sicrwydd rhesymol ynglŷn â pha un a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd rhag camddatgan materol, p'un ai drwy dwyll neu gamgymeriad, ai beidio, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gyflawnir yn unol â SARh (Deyrnas Unedig) bob amser yn datgelu camddatganiad materol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod yn faterol os, yn unigol neu ar y cyd, y gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

### I ba raddau yr ystyriwyd yr oedd yr archwiliad yn gallu canfod diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll

Dyluniaf weithdrefnau'n unol â fy nghyfrifoldebau, sydd wedi'u hamlinellu uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae fy gweithdrefnau yn gallu canfod methiant i gydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

### Nodi ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatgan materol mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, bu i mi:

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a'r perfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol.
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys derbyn ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar:
- nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;

- canfod ac ymateb i risgiau o dwyll; a
- mesurau rheoli mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys mesurau rheoli Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol mewn perthynas â chydymffurfiaeth Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol â Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a Rheoli Arian Cyhoeddus.
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu:
- a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau;
- a oeddent yn ymwybodol o unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu honiadau o dwyll;
- trafod gyda'r tîm ymgysylltu ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posib o dwyll.
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu:
  - a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau;
  - a oeddent yn ymwybodol o unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu honiadau o dwyll;
- trafod gyda'r tîm ymgysylltu ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posib o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli o fewn Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar gyfer twyll gan nodi'r potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio siwrnalau anarferol, trafodion cymhleth, a thuedd mewn amcangyfrifon rheoli.

Yn yr un ffordd â'r holl archwiliadau o dan SRhA (DU), mae'n ofynnol i mi berfformio gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru gan reolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn gweithredu ynddynt. Bu i mi ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a oedd ag effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau materol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980, cyfraith cyflogaeth a Rheoli Arian Cyhoeddus.

### Ymateb archwilio i risg a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- bu i mi adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau gefnogol i asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau perthnasol y disgrifir uchod eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holais reolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- adolygais gofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ac adolygu, ac adroddiadau archwilio mewnol;
- es i'r afael â'r risg o dwyll o ganlyniad i reolwyr ddiystyru mesurau rheoli drwy brofi priodoldeb cofnodion siwrnal ac addasiadau eraill; asesais a yw'r barnau a lunnir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthusais resymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i'r cwrs busnes arferol.

Cyfathrebais gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm ymgysylltu, a pharheais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o fy nghyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol wedi'i leoli ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o fy nhystysgrif.

### Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol i mi ddod o hyd i ddigon o dystiolaeth archwilio briodol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sydd â gofal llywodraethu mewn perthynas â, ymysg materion eraill, chwmpas ac amseru cynlluniedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau ynglŷn â'r datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

10 Gorffennaf 2025

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Datganiadau ariannol

## Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net

| | Nodiadau | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 31 Mawrth 2025 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Mân incwm** | 2 | 4 | – |
| **Gwariant** | | | |
| Gwariant grant | 3 | (26,503) | (58,683) |
| Llai gwariant grant sydd wedi darfod neu wedi'u diddymu | 3 | 1,101 | 4,187 |
| | | (25,402) | (54,496) |
| **Costau gweithredu** | | | |
| Costau staff | 7 | (902) | (1,265) |
| Dibrisio ac amorteiddio | 11 a 12 | (5) | (6) |
| Costau gweithredu eraill | 6 | (527) | (766) |
| | | (1,434) | (2,037) |
| **Cyfanswm gwariant** | | (26,836) | (56,533) |
| **Diffyg gweithredu** | | (26,832) | (56,533) |
| **Incwm nad yw'n ymwneud â gweithredu** | | | |
| Llog derbyniadwy | 9 | 123 | 60 |
| Dosbarthiadau a dderbyniwyd | 10 | 1,356 | 1,410 |
| | | 2,230 | 2,897 |
| **Gwariant net ar gyfer y flwyddyn** | | (24,602) | (53,636) |
| **Incwm/(gwariant) cynhwysfawr net arall** | | | |
| Elw/(colled) net ar ailbrisio'r Gronfa Asedau Lluosog Cynaliadwy | 19 | (261) | 2,158 |
| **Cyfanswm gwariant cynhwysfawr** | | (24,863) | (51,478) |

Mae'r Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net yn eithrio gweithgareddau dosbarthiad Loteri Genedlaethol y Gronfa Goffa, sydd wedi'u hadrodd mewn set o gyfrifon ar wahân.

Mae’r nodiadau ar dudalennau 61 i 69 yn ffurfio rhan o’r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

| | Nodiadau | Ar 31 Mawrth 2025 £'000 | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Asedau anniriaethol sefydlog | 11 | 3 | 6 |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 12 | 2 | 4 |
| Buddsoddiadau | 13 | 34,687 | 37,707 |
| | | 34,692 | 37,717 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Masnachu a symiau derbyniadwy eraill | 14 | 12 | 12 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 15 | 16,640 | 12,110 |
| Arian parod a ddelir yn y gronfeydd gwaddol | 15 | 30,536 | 29,058 |
| | | 47,188 | 41,180 |
| **Cyfanswm asedau** | | 81,880 | 78,897 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnachu a symiau taladwy eraill | 17 | (167) | (565) |
| Rhwymedigaethau grant | 3 | (75,136) | (76,892) |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | 6,577 | 1,440 |
| **Asedau net** | | 6,577 | 1,440 |
| **Cynrychiolir gan:** | | | |
| Cronfa wrth gefn gwerth teg | 19 | 6,959 | 7,220 |
| Cyfrif incwm a gwariant | | (382) | (5,780) |
| | | 6,577 | 1,440 |

Mae'r datganiad hwn yn eithrio balansau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau dosbarthiad Loteri Genedlaethol y Gronfa Goffa, sydd wedi'u hadrodd mewn set o gyfrifon ar wahân.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 61 i 69 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

**Dr Simon Thurley CBE**
Cadeirydd

**Eilish McGuinness**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

3 Gorffennaf 2025

# Datganiad Llifoedd Arian Parod

| | Nodiadau | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 £'000 | Year ended ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|---|
| Diffyg gweithredu ar gyfer y cyfnod | | (26,832) | (56,533) |
| Dibrisio ac amorteiddio | 11 a 12 | 5 | 6 |
| **Diffyg gweithredu wedi'i addasu ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod** | | (26,827) | (56,527) |
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn rhwymedigaethau grant | 3 | (1,756) | 18,269 |
| Gostyngiad mewn symiau derbyniadwy (ac eithrio cyfalaf a buddsoddiadau) | 14 | – | (10) |
| Gostyngiad mewn symiau taladwy nad ydynt yn gyfalaf | 17 | (398) | (265) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | (28,981) | (38,533) |
| **Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Enillion o werthu buddsoddiadau | 13 a 16 | 3,510 | 12,225 |
| Llog a dderbyniwyd o fuddsoddiadau | 9 | 123 | 60 |
| Dosbarthiadau a dderbyniwyd o fuddsoddiadau | 10 | 1,356 | 1,410 |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | 4,989 | 13,695 |
| **Llif arian parod o weithgareddau cyllido** | | | |
| Cymorth grant | 5 | 30,000 | 18,000 |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau cyllido** | | 30,000 | 18,000 |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian parod** | | 6,008 | (6,838) |
| **Gostyngiad net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod** | | | |
| Balansau arian parod a gariwyd ymlaen | 15 | 47,176 | 41,168 |
| Llai balansau arian parod a ddygwyd ymlaen | | (41,168) | (48,006) |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian parod** | | 6,008 | (6,838) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 61 i 69 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr

| | Cronfa wrth gefn gwerth teg £'000 | Incwm a chyfrif £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 31 Mawrth 2024 | 7,220 | (5,780) |
| **Newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr yn 2024–2025** | | |
| Colled net ar ailbrisio asedau ariannol | (261) | – |
| Gwariant cynhwysfawr net a drosglwyddwyd i'r gronfa gronedig | – | (24,602) |
| Cymorth grant gan DCMS | – | 30,000 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **6,959** | **(382)** |
| **Newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr yn 2023–2024** | | |
| Balans ar 31 Mawrth 2023 | 5,062 | 29,856 |
| Enillion net o ailbrisio asedau ariannol | 2,158 | – |
| Gwariant cynhwysfawr net a drosglwyddwyd i'r gronfa gronedig | – | (53,636) |
| Cymorth grant gan DCMS | – | 18,000 |
| Balans ar 31 Mawrth 2024 | 7,220 | (5,780) |

Mae'r gronfa wrth gefn gwerth teg yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng llyfrgost a gwerth marchnad y buddsoddiadau yn y gronfa waddol (gweler nodyn 19).

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 1. Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn ar ffurf a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS gyda Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 ac i fodloni gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol (LIAA) Llywodraeth y DU.

Mae'r triniaethau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn LIAA yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddasir neu ddehonglir ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Pan fydd y LIAA yn caniatáu dewis, dewisir y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol y Gronfa Goffa at ddiben darparu barn wir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y Gronfa Goffa isod. Maent wedi eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn faterol i'r cyfrifon.

Nid ydym wedi mabwysiadu unrhyw IFRS a gyhoeddwyd nad yw wedi dod i rym eto.

### a) Confensiwn cyfrifyddu

Cafodd y cyfrifon hyn eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol a'u haddasu lle bo'n briodol ar gyfer gwerth teg. Mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu'r LIAA a Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, lle bo'n briodol.

### b) Busnes gweithredol

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail busnes gweithredol; mae hyn yn gweddu i'r canllawiau a nodir yn y LIAA sy'n nodi y dylid "rhoi sylw i'r dybiaeth sylfaenol y bydd datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol". Ymhellach, mae'n datgan y "dylai endidau noddedig y mae eu datganiadau o sefyllfa ariannol yn dangos cyfanswm rhwymedigaethau net baratoi eu datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai, ar ôl trafod gyda'u noddwyr, yr ystyrir bod y sail busnes gweithredol yn amhriodol". Nid oes unrhyw drafodaethau o'r fath wedi'u cynnal. Nid oes gan y Gronfa Goffa unrhyw reswm dros gredu bod gan DCMS gynlluniau i newid y trefniadau dosbarthu cymorth grant ar gyfer y sector treftadaeth ac felly mae'r ymddiriedolwyr yn tybio y byddant yn parhau i dderbyn cyllid.

### c) Grantiau'r llywodraeth

Ni thrinnir ein cymorth grant gan DCMS fel incwm. Yn hytrach, mae'n cael ei drin fel cyllido oherwydd yr ystyrir ei fod yn gyfraniad gan barti rheoli sy'n achosi buddiant ariannol. Cyflawnir hyn drwy wneud credyd i'r cyfrif incwm a gwariant.

Ni wneir unrhyw ddyraniad rhwng grantiau at ddibenion refeniw a chyfalaf. Mae swm y cymorth grant sy'n cael ei gydnabod yn y cyfrifon hyn yn adlewyrchu'r symiau a dderbyniwyd mewn gwirionedd gan DCMS yn ystod y flwyddyn ariannol.

### ch) Rhoddion

Trinnir rhoddion yn wahanol i gyllid a dderbynnir fel rhan o raglenni grant ar y cyd. Mae rhoddwr yn rhywun nad yw'n ymwneud o gwbl ag unrhyw benderfyniad i wario'r arian hwnnw. Os oes unrhyw gyfranogiad fe fyddai'n cael ei drin fel rhaglen grant ar y cyd.

Codir rhoddion fel arfer i'r cyfnod pan dderbyniwyd y cyllid. Fodd bynnag, pan fydd perthynas gontract rhwng y Gronfa Goffa a'r rhoddwr, codir y rhodd yn y cyfnod pan ddigwyddodd y gweithgaredd cysylltiedig, heb ystyried pryd y derbyniwyd yr arian.

### d) Asedau anghyfredol

Mae asedau anghyfredol wedi'u cydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol am y gost, ac eithrio eitemau â chost o lai na £2,000 sy'n cael eu codi i'r Datganiad Gwariant Cynhwysfawr ym mlwyddyn eu caffael. Darperir dibrisiant yn unol â'r cyfraddau a gyfrifwyd i ddiddymu prisiau'r asedau ar sail llinell wastad dros amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Ased hawl i ddefnyddio (lesau eiddo) | – Dros fywyd y les |
| Cyfarpar swyddfa | – 4 i 10 mlynedd |
| Ffitiadau swyddfa | – 4 i 10 mlynedd |
| Meddalwedd asesu grantiau a meddalwedd arall | – hyd at 5 mlynedd |

Mae dibrisio'n dechrau yn y mis ar ôl i'r ased gael ei roi ar waith.

## dd) Dyrannu costau

Mae'r Gronfa Goffa yn cyfrif ar wahân am ei gweithgareddau dosbarthiad Loteri Genedlaethol, y mae'n ofynnol i'w wneud o dan ei chyfarwyddyd cyfrifon Loteri Genedlaethol. Mae'r Gronfa Goffa yn mynd i gostau anuniongyrchol sy'n cael eu rhannu rhwng gweithgareddau a ariennir gan gymorth grant a gweithgareddau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol.

Mae'n ofynnol i'r Gronfa Goffa ddosrannu'r costau anuniongyrchol hyn yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddir gan Drysorlys EF. Mae'r dosraniad costau hwn yn ceisio adlewyrchu'r gyfran benodol o amser a threuliau a ymrwymir i bob gweithgaredd.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol y gyfran o gostau ar y cyd a ddosrannwyd i'n gweithgareddau dosbarthiad Loteri Genedlaethol oedd 99% (2023–2024: 99%).

## e) Buddsoddiadau

Yn unol ag IFRS9 Offerynnau Ariannol, mae ein buddsoddiadau wedi'u cynnwys yn y cyfrifon ar werth teg fel yr adroddir i ni gan ein rheolwyr buddsoddi. Mae'r enillion a cholledion a wireddwyd wedi'u cynnwys yn y datganiad gwariant cynhwysfawr net ac maent wedi'u cyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng enillion o werthiannau a chost hanesyddol. Adlewyrchir enillion a cholledion nas gwireddwyd ar y buddsoddiadau hyn yn y swm wrth gefn gwerth teg, sy'n cael ei ddatgelu yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr. Dosbarthwyd y buddsoddiadau fel gwerth teg trwy incwm cynhwysfawr arall.

## f) Trethiant

Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer trethiant cyffredinol gan fod y Gronfa Goffa wedi'i heithrio'n statudol o dan Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010 (Rhan 11). Nid yw'r Gronfa Goffa yn gofrestredig ar gyfer Treth ar Werth (TAW), felly mae costau sy'n cynnwys TAW wedi'u cynnwys o dan y disgrifiadau gwariant perthnasol yn y cyfrifon hyn.

## ff) Pensiwn

Codir y gost reolaidd o ddarparu buddiannau i'r Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net dros fywydau gwasanaeth aelodau'r cynllun ar sail canran gyson o dâl pensiynadwy. Mae bron pob un o'n staff yn aelodau o PGPGS neu alpha (y cynllun a ddilynodd PGPGS) ac mae'r ganran o dâl pensiynadwy yn cael ei hysbysu gan Swyddfa'r Cabinet cyn dechrau bob blwyddyn ariannol. Gweler yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff am fanylion pellach.

## g) Lesau

Mae asedau hawl i ddefnyddio yn cael eu nodi yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar gost a bennir gan werth presennol y taliadau sy'n ddyledus o dan bob les. Caiff y costau eu hamorteiddio dros isafswm cyfnod y les. Mae costau ariannol gwasanaethu'r asedau ar les yn cael eu codi fel llog yn y Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net.

## ng) Rhwymedigaethau grant

Cydnabyddir dyfarniadau grant fel rhwymedigaethau yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol os ydynt yn bodloni'r diffiniad o rwymedigaethau yn IAS37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol, boed yn deillio o rwymedigaethau cyfreithiol neu ddeongliadol.

Caiff dyfarniadau grant eu cydnabod fel gwariant a rhoddir cyfrif am ymrwymiadau pan:

- fo'r dyfarniad wedi'i benderfynu'n ffurfiol gan y Gronfa Goffa; a
- phan fo'r dyfarniad wedi'i hysbysu i'r derbynnydd arfaethedig; a
- phan fo'r dyfarniad yn rhydd rhag unrhyw amodau perfformiad penodol o dan reolaeth y Gronfa Goffa

Pan nad oes angen cydnabod rhwymedigaethau mwyach oherwydd nad yw'r prosiect sy'n cael ei ariannu angen yr holl arian a neilltuwyd ar ei gyfer o dan y contract grant, rydym yn lleihau gwerth y rhwymedigaethau sy'n weddill trwy ddadymrwymiad, a ddatgelir ar wahân yn y cyfrifon fel gwariant sydd wedi dod i ben neu wedi'i ddiddymu. Mae'r holl rwymedigaethau grant yn daladwy ar unwaith wrth dderbyn ceisiadau dilys am daliad. Yn ddamcaniaethol, gallai grantïon ofyn am eu grant cyfan o fewn y 12 mis nesaf os cwblhawyd eu prosiectau o fewn y cyfnod hwnnw. Gan hynny rydym yn mabwysiadu ymagwedd ochelgar ac yn dangos bod yr holl rwymedigaethau'n aeddfedu o fewn un flwyddyn.

Ceir dadymrwymiadau ar rwymedigaethau amodol pan na throsir ymrwymiad i rwymedigaeth lawn. Fel arfer mae hyn yn digwydd oherwydd i'r grantï benderfynu i beidio ag ymgymryd â'i brosiect neu oherwydd y teimla'r ymddiriedolwyr na allant ariannu ceisiadau rownd dau o ganlyniad i'r angen am gynnal cyllid wrth gefn digonol.

## h) Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuon a ddelir ar alwad gyda'n rheolwyr buddsoddi.

## i) Amcangyfrif ansicrwydd

Mae paratoi'r cyfrifon hyn yn ei gwneud yn ofynnol i uwch reolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau a all effeithio ar fesur incwm, treuliau, asedau, rhwymedigaethau a gofnodir a datgelu rhwymedigaethau wrth gefn. Gall hefyd effeithio ar y dyraniad costau rhwng ein cymorth grant a'n gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

Os yw'r amcangyfrifon a'r tybiaethau hyn, sy'n seiliedig ar amcangyfrif neu farn orau uwch reolwyr ar ddyddiad y datganiadau ariannol, yn gwyro oddi wrth amgylchiadau gwirioneddol yn y dyfodol, caiff yr amcangyfrifon a'r tybiaethau gwreiddiol eu diweddaru yn y cyfnod y bydd yr amgylchiadau'n newid ynddo.

Mae ein hamcangyfrifon a'n dyfarniadau'n cael eu gwerthuso'n barhaus ac maent yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Y barnau mwyaf arwyddocaol yw:

### Darpariaeth ar rwymedigaethau grant

Bob blwyddyn rydym yn gwneud darpariaeth yn erbyn rhwymedigaethau grant a gydnabyddir yn y cyfrifon. Mae hyn yn cynnwys:

- dad-ymrwymiadau y gwyddys amdanynt ar ôl diwedd y flwyddyn
- rhwymedigaethau a allai fod yn anactif, h.y.: heb dderbyn unrhyw daliadau grant na chyswllt ers nifer o flynyddoedd)

### Dyrannu costau rhwng ein dau brif weithgaredd

Mae gennym system cofnodi amser er mwyn i staff nodi pa raglenni cymorth grant y maent yn gweithio arnynt ac mae costau'n cael eu hailgodi yn seiliedig ar y data hwnnw. Mae'n ofynnol i staff gofnodi faint o amser y maent yn ei dreulio ar bob rhaglen bob mis.

## j) Safonau Adrodd sydd wedi'u cyhoeddi ond heb ddod i rym eto

Mae IFRS 17: Contractau Yswiriant yn disodli IFRS 4: Contractau Yswiriant ac fe gaiff ei gynnwys yn y LIAA i'w weithredu'n orfodol o 2025–2026. Mae'n sefydlu'r egwyddorion ar gyfer cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu contractau yswiriant o fewn cwmpas y Safon hon. Oherwydd y math o weithgaredd a gyflawnir gan y Gronfa Goffa, ni ddisgwylir i IFRS 17 gael effaith faterol ar y cyfrifon.

## 2. Mân incwm

| | 2024–25 £'000 | 2023–24 £'000 |
|---|---|---|
| Ad-dalu grantiau | 4 | – |

## 3. Rhwymedigaethau grant

| | 2024–25 £'000 | 2023–24 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaeth a ddygwyd ymlaen | 76,892 | 58,623 |
| Ymrwymiadau yn y flwyddyn | 26,503 | 58,683 |
| Dad-ymrwymiadau | (1,101) | (4,187) |
| Ymrwymiadau a dalwyd | (27,158) | (36,227) |
| **Rhwymedigaeth a gariwyd ymlaen** | 75,136 | 76,892 |

Mae balans yr ymrwymiad grant ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus yn y cyfnodau a ganlyn:

| | 2024–25 £'000 | 2023–24 £'000 |
|---|---|---|
| Ymhen un flwyddyn | 75,136 | 76,892 |
| Ymhen dwy i bum mlynedd | – | – |
| Ymhen mwy na phum mlynedd | – | – |
| | 75,136 | 76,892 |

Ar 31 Mawrth 2025, roedd y symiau uchod yn net o ddarpariaeth o £189,000 (31 Mawrth 2024: £31,000) am symiau yr ydym yn eu rhagweld efallai na chânt eu talu yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar adborth uniongyrchol gan y tîm Cyflwyno Busnes o ran grantiau sydd wedi cau ond heb gael eu cofrestru eto ar y system rheoli buddsoddiadau.

## 4. Rhwymedigaethau amodol

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol yn 2024–2025 (dim byd yn 2023-2024) oherwydd yr oedd yr holl rwymedigaethau grant a wnaed yn ystod y flwyddyn yn ddyfarniadau grant llawn heb unrhyw grantiau datblygu neu grantiau perfformiad penodol.

## 5. Cymorth grant

| | 2024–25 £'000 | 2023–24 £'000 |
|---|---|---|
| Grant gan DCMS | 30,000 | 18,000 |

## 6. Costau gweithredu eraill

| | 2024–25 £'000 | 2023–24 £'000 |
|---|---|---|
| Llety | 46 | 72 |
| Post a ffonau | 8 | 26 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | 16 | 16 |
| Ffioedd proffesiynol | | |
| – Cysylltiedig â grantiau | 62 | 67 |
| – Ddim yn gysylltiedig â grantiau | 239 | 434 |
| Cyfathrebu | 73 | 49 |
| Hyfforddiant staff | 14 | 40 |
| Mân dreuliau | 4 | 4 |
| Cyfarpar swyddfa | 20 | 16 |
| Tâl cydnabyddiaeth archwilwyr | 45 | 42 |
| | 527 | 766 |

Ni thalwyd unrhyw ffioedd nad ydynt yn ymwneud ag archwilio i'r archwilwyr allanol.

Roedd costau gweithredu eraill yn is yn 2024–2025 nag yn y flwyddyn flaenorol oherwydd y gostyngiad mewn gweithgarwch cymorth grant.

## 7. Costau staff

| | 2024–25 £'000 | 2023–24 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | 700 | 906 |
| Taliadau YG y cyflogwr | 55 | 98 |
| Taliadau i'r cynllun pensiwn | 143 | 247 |
| Costau staff dros dro | 4 | 14 |
| | 902 | 1,265 |

Roedd costau staff yn is yn 2024–2025 nag yn y flwyddyn flaenorol oherwydd y gostyngiad mewn gweithgarwch cymorth grant.

## 8. Costau a ailgodwyd

Yn ystod 2024–2025, dosbarthodd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol symiau o arian gan amrywiol sefydliadau llywodraeth ganolog. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, y gyfran o gostau gweithredu ar y cyd a ddosrannwyd i ddosbarthiad rhaglenni ariannu craidd y Gronfa Goffa oedd 1% (2023–2024: 1%).

Rydym yn nodi cyfran y gwaith a wneir gan staff ar weithgareddau nad ydynt yn ymwneud â'r Loteri Genedlaethol ac yn ailgodi hyn ar y rhaglenni amrywiol a gefnogir gan gymorth grant. Rydym hefyd yn cyfrifo dyraniad gorbenion cysylltiedig fel rhan o'r dasg hon o ailgodi costau. Cyfanswm gwerth y costau wedi'u hailgodi hyn yn 2024–2025 oedd £1.1m (2023–2024: £1.7m).

## 9. Llog a dderbyniwyd

| | 2024–25 £'000 | 2023–24 £'000 |
|---|---|---|
| Ar arian parod a ddelir yn y gronfa waddol | 123 | 60 |

## 10. Dosbarthiadau a dderbyniwyd

| | 2024–25 £'000 | 2023–24 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm o fuddsoddiadau'r gronfa waddol | 1,356 | 1,410 |

## 11. Asedau anniriaethol

| | Technoleg gwybodaeth | |
|---|---|---|
| | 2024–25 £'000 | 2023–24 £'000 |
| Cost ar ddechrau'r flwyddyn | 15 | 15 |
| Ychwanegiadau | – | – |
| Gwarediadau | – | – |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | 15 | 15 |
| Amorteiddio ar ddechrau'r flwyddyn | 9 | 6 |
| Gwarediadau | – | – |
| Tâl am y flwyddyn | 3 | 3 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | 12 | 9 |
| Llyfrwerth net ar ddechrau'r flwyddyn | 6 | 9 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | 3 | 6 |

Mae cyfalafu technoleg gwybodaeth yn cynrychioli datblygu ffurflenni cais electronig a system rheoli asesu ceisiadau. Mae'r ffigurau uchod yn cynrychioli cyfran y Gronfa Goffa o gostau a anfonebir i'r Gronfa Goffa gan ddatblygwyr meddalwedd; codwyd bron yr holl gostau ar ein gweithgareddau dosbarthiad Loteri Genedlaethol. Ni chyfalafwyd unrhyw gostau a gynhyrchwyd yn fewnol. Amorteiddiwyd ychwanegiadau dros eu bywyd defnyddiol disgwyliedig.

## 12. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | TG a chyfarpar arall | |
|---|---|---|
| | 2024–25 £'000 | 2023–24 £'000 |
| Cost ar ddechrau'r flwyddyn | 7 | 7 |
| Ychwanegiadau | – | – |
| Gwarediadau | – | – |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **7** | **7** |
| Dibrisio ar ddechrau'r flwyddyn | 3 | – |
| Gwarediadau | – | – |
| Tâl am y flwyddyn | 2 | 3 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **5** | **3** |
| Llyfrwerth net ar ddechrau'r flwyddyn | 4 | 7 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **2** | **4** |

Mae gwerth eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynrychioli rhaniad cymesur o'r asedau a ddefnyddir gan gymorth grant y Gronfa Goffa a'i gweithgareddau dosbarthiad Loteri Genedlaethol. Ar hyn o bryd y rhaniad hwn yw 99% Loteri Genedlaethol ac 1% cymorth grant.

## 13. Buddsoddiadau

Sefydlwyd y Gronfa Goffa ym 1980 fel olynydd i'r Gronfa Tir Genedlaethol. Credodd yr ymddiriedolwyr, o'r cymorth grant cychwynnol a sefydlodd y Gronfa Goffa, y dylid ystyried bod y swm o £10m yn rhelyw y Gronfa Tir Genedlaethol a'i drin fel cronfa waddol. Penderfynwyd i'w fuddsoddi gyda'r nod o gynnal ei werth cyfalaf mewn termau real o'i gymharu â'r Mynegai Prisiau Manwerthu. Y tu hwnt i hynny, nod y buddsoddiad yw cyflawni twf digonol mewn termau real i alluogi'r Gronfa Goffa i gyflawni ei rhwymedigaethau. I'r perwyl hwn, gall buddsoddiadau mewn asedau ariannol a all gael eu marchnata'n hwylus gael eu gwneud y tu allan i'r DU. Mae'r tabl ar ddadansoddi buddsoddiadau ar ddiwedd y flwyddyn isod yn crynhoi'r lledaeniad o fuddsoddiadau fesul math ac ardal.

Yn 2018–2019, newidiodd ymddiriedolwyr y mynegai targed o'r Mynegai Prisiau Manwerthu i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Nid yw'r mynegai blaenorol yn boblogaidd yn y byd buddsoddi mwyach a bu pryder efallai na fyddai rhifau mynegai'n cael eu cynhyrchu yn y dyfodol.

Y nod yw y gellir tynnu gwerth gwarged y gronfa waddol, h.y. y swm dros ben gwerth cyfredol y 10m gwreiddiol, i lawr i helpu ariannu gweithgarwch rhoi grantiau'r Gronfa Goffa. Ar adegau, mae ymddiriedolwyr wedi tynnu cyllid i lawr sy'n mynd â gwerth y gronfa waddol islaw ei gwerth targed. Mae'r ymddiriedolwyr yn gyndyn o wneud hyn ac yn ei wneud dim ond pan fydd posibilrwydd o golli rhan sylweddol o dreftadaeth y DU. O dan yr amgylchiadau hyn, mae ymddiriedolwyr yn monitro'r diffyg ac yn defnyddio cymorth grant y dyfodol i ail-lenwi'r gronfa waddol os nad yw twf cyfalaf yn uwch na'r cynnydd yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Ar 31 Mawrth 2025, gwerth y buddsoddiad gwreiddiol o £10m fyddai £59.8m gan gymryd mynegeio i ystyriaeth. Roedd y gwerth marchnad gwirioneddol yn £65m ac yn cynnwys y canlynol:

| | Gwerth marchnad 2024–25 £'000 | Gwerth marchnad 2023–24 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau ariannol tymor hir | 34,687 | 37,707 |
| Arian parod | 30,536 | 29,058 |
| | 65,223 | 66,765 |

Datgelir yr elfen o'r gronfa hon a ddelir mewn arian parod yn y cyfrifon hyn fel ased cyfredol fel rhan o'r balansau arian parod.

Buddsoddir gweddill y gronfa waddol yn y Gronfa Asedau Lluosog Cynaliadwy a redir gan ein darparwr rheoli buddsoddiadau sy'n buddsoddi mewn ystod o 22 o ymddiriedolaethau unedol a buddsoddi ar draws llawer o fathau gwahanol o asedau a marchnadoedd daearyddol. Gwerthir unedau yn y Gronfa Asedau Lluosog Cynaliadwy i godi cyllid ar gyfer taliadau grant a threuliau gweinyddol. Nid oes gan yr ymddiriedolwyr unrhyw gynlluniau i ddatod y gronfa waddol gyfan.

Roedd y symudiadau ar y buddsoddiadau hyn yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 2024–25 £'000 | 2023–24 £'000 |
|---|---|---|
| Cost a llyfrwerth net | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | 30,487 | 41,285 |
| Ychwanegiadau | – | – |
| Gwarediadau | (2,759) | (10,798) |
| | 27,728 | 30,487 |

| | 2024–25 £'000 | 2023–24 £'000 |
|---|---|---|
| Llyfrwerth net | | |
| – Rhestrir ar Gyfnewidfa Stoc Llundain | – | – |
| – Buddsoddiadau heb eu rhestru | 27,728 | 30,487 |
| | 27,728 | 30,487 |

| | 2024–25 £'000 | 2023–24 £'000 |
|---|---|---|
| Cost | 27,728 | 30,487 |
| Gwerth marchnad | 34,687 | 37,707 |
| Enillion nas gwireddwyd | 6,959 | 7,220 |

Nid oes unrhyw rwymedigaeth dreth ar enillion a wireddir gan y Gronfa Goffa.

Dadansoddiad o'r buddsoddiadau ar ddiwedd y flwyddyn oedd:

| | 2024–25 % | 2023–24 % |
|---|---|---|
| Bondiau | 10 | 11 |
| Ecwiti DU | – | – |
| Ecwiti Ewrop (ac eithrio'r DU) | – | – |
| Ecwiti thematig | 21 | 15 |
| Cronfeydd ecwiti byd-eang | 52 | 56 |
| Eiddo | 4 | 5 |
| Amrywiaethwyr | 10 | 9 |
| Seilwaith | – | – |
| Arian parod | 3 | 4 |
| Nwyddau | – | – |
| | 100 | 100 |

Ceir rhagor o wybodaeth am fuddsoddiadau sylfaenol y gronfa waddol o dan nodyn 20 (Offerynnau ariannol) a'r nodyn Datgelu Buddsoddiadau yn yr adroddiad hwn.

## 14. Masnachu a symiau derbyniadwy eraill

| | 2024–25 £'000 | 2023–24 £'000 |
|---|---|---|
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 12 | 12 |
| | 12 | 12 |

## 15. Arian parod a chyfwerth ag arian parod

| | 2024–25 £'000 | 2023–24 £'000 |
|---|---|---|
| Mynediad ar unwaith | | |
| – Arian parod yn y banc | 16,640 | 12,110 |
| – Arian parod a ddelir mewn cronfeydd hylifedd | 30,536 | 29,058 |
| | 47,176 | 41,168 |

Delir arian parod yn y banc i gefnogi ein gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae arian parod a ddelir mewn cronfeydd hylifedd yn arian hylifol ar ôl gwerthu o'r gronfa waddol.

## 16. Elw o werthu buddsoddiadau

| | 2024–25 £'000 | 2023–24 £'000 |
|---|---|---|
| Elw o werthu asedau ariannol hirdymor | 751 | 1,427 |

## 17. Masnachu a symiau taladwy eraill

| | 2024–25 £'000 | 2023–24 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau taladwy masnachu | 22 | 16 |
| Symiau taladwy eraill gan gynnwys trethiant a nawdd cymdeithasol | 69 | 444 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 76 | 105 |
| | 167 | 565 |

Mae'r holl symiau masnachu a symiau taladwy eraill yn ddyledus o fewn blwyddyn ac yn cael eu cynnwys yn y rhwymedigaethau cyfredol.

## 18. Trafodion cyrff cysylltiedig

Mae'r Gronfa Goffa yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir gan DCMS. Ystyrir bod DCMS yn gorff cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, roedd gan y Gronfa Goffa (gan gynnwys ei gweithgareddau dosbarthiad Loteri Genedlaethol) drafodion materol amrywiol, ar wahân i ddyfarniadau grant, gyda DCMS ei hun a gyda phum endid yr ystyrir mai DCMS yw'r adran noddi ar eu cyfer: Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Sport England, UK Sport, Historic England a Chyngor Celfyddydau Lloegr.

Gellir dod o hyd i fanylion pellach y trafodion a balansau hyn yng nghyfrifon gweithgareddau dosbarthiad Loteri Genedlaethol y Gronfa Goffa.

Fel y nodir yn y cyfrifon hyn, mae'r Gronfa Goffa wedi dosbarthu arian ar ran gwahanol sefydliadau llywodraethol: DCMS, Defra a Llywodraeth Cymru.

Datgelir y tâl cydnabyddiaeth a dalwyd i bersonél rheoli allweddol yn yr Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth ar dudalen 43. Datganodd yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddogion Gweithredol fuddiant mewn perthynas â phrosiectau a oedd yn destun trafodion yn ystod y flwyddyn, a datgelir y rhain isod.

| Enw | Rôl | Sefydliad allanol | Swydd a ddelir yn allanol | Pwy sy'n dal y swydd | Dyfarniadau grant a wnaed yn 2024/25 | Taliadau a wnaed yn 2024/25 | Rhwymedigaeth grant sy'n weddill ar 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anna Eavis | Ymddiriedolwr | Historic England | Comisiynydd | Brawd yng nghyfraith | 0 | 0 | 78,250 |
| Carol Pyrah | Ymddiriedolwr | Urban Green Newcastle | Prif Weithredwr | Hunan | 0 | 125,625 | 575,792 |
| Simon Thurley | Ymddiriedolwr | Y Llyfrgell Brydeinig | Ymddiriedolwr | Hunan | 1,000,000 | 245,550 | 1,000,000 |
| Simon Thurley | Ymddiriedolwr | The Landmark Trust | Ymddiriedolwr | Hunan | 0 | 0 | 5,300,000 |

## 19. Cronfa wrth gefn gwerth teg

| | 2024–25 £'000 | 2023–24 £'000 |
|---|---|---|
| Ar ddechrau'r flwyddyn | 7,220 | 5,062 |
| Symudiad yn ystod y flwyddyn | (261) | 2,158 |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | **6,959** | 7,220 |

Mae'r gronfa wrth gefn gwerth teg yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng llyfrgost a gwerth marchnad buddsoddiadau (gweler nodyn 13).

## 20. Offerynnau ariannol

Mae IFRS 7, Offerynnau Ariannol: Datgeliadau yn mynnu datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'u cael yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gyflawni'i weithgareddau.

Mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl mwy cyfyngedig o lawer wrth greu neu newid risgiau ar gyfer y Gronfa Goffa na'r hyn sy'n nodweddiadol ar gyfer y cwmnïau rhestredig y mae IFRS 7 yn berthnasol iddynt yn bennaf. Nid oes gan y Gronfa Goffa y pŵer i fenthyg arian ond gall fuddsoddi cyllid sy'n deillio o gymorth grant. Ac eithrio'r gronfa waddol, mae asedau a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd yn hytrach na chael eu dal i newid y risgiau sy'n wynebu'r sefydliad.

### Risg hylifedd

Mae'r ymddiriedolwyr yn cynnal cronfa waddol ac mae ei buddsoddiad sylfaenol yng Nghronfa Asedau Lluosog Cynaliadwy ein darparwyr rheoli buddsoddiadau'n cael ei fasnachu'n eang. Gall ymddiriedolwyr ddatod asedau ar sail ddyddiol os bydd yr angen am gyllido taliadau grant yn codi. Gan hynny, mae'r ymddiriedolwyr wedi'u bodloni bod ganddynt ddigon o adnoddau hylif ar ffurf eu balansau arian parod (gwerth £47m ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol) a buddsoddiadau'r gronfa waddol (gwerth £35m ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol), i dalu'r holl ddyfarniadau grant sy'n weddill o £75.1m a'r rhwymedigaethau gweinyddol o £0.2m. Mae'r gwaddol wedi'i fuddsoddi mewn cronfa a fuddsoddir yn bennaf mewn ymddiriedolaethau unedol a all gael eu marchnata'n hwylus; mae'r prisiau'n cael eu dyfynnu'n ddyddiol yn y Financial Times. Mae'r Gronfa Goffa yn monitro ei balansau arian parod ar sail ddyddiol ac yn cynnal cysylltiadau rheolaidd â grantïon i gael dealltwriaeth o'u gofynion tebygol o ran tynnu arian i lawr.

Ystyria'r ymddiriedolwyr nad yw'r Gronfa Goffa yn agored i risgiau hylifedd arwyddocaol.

### Risg marchnadoedd a chyfraddau llog

Dalwyd balansau arian parod mewn amrywiaeth o gyfrifon banc - oll ar gyfraddau llog amrywiol.

Y balansau arian parod ar ddiwedd y flwyddyn oedd £47m ac fe'u delwyd fel y datgelir yn y tabl yn nodyn 15. Ar gyfer asedau ariannol eraill a rhwymedigaethau ariannol y Gronfa Goffa roedd y gyfradd llog yn sero.

Ar ddiwedd y flwyddyn, gwerth y gwaddol ar y farchnad, ac eithrio ei elfen arian parod, oedd £35m. Mae enillion yn ddibynnol ar farchnadoedd stoc a nwyddau byd-eang ac roedd perfformiad y buddsoddiadau wedi'i gynnwys o fewn y portffolio. Yn y flwyddyn, bu'r enillion ar y gwaddol yn gynnydd o 1.1%.

Os bydd gwerth y gronfa waddol yn dirywio'n sylweddol dros y tymor hir, byddai'r ymddiriedolwyr yn gofyn am gynnydd yn eu cymorth grant ac ar yr un pryd yn gostwng eu cyllidebau dyfarnu grantiau ar gyfer y dyfodol. Os caiff yr ymagwedd hon ei droi i lawr gan DCMS, byddai'r ymddiriedolwyr yn adolygu eu strategaeth dyfarniadau grantiau tymor hir.

### Risg credyd

Dyledwyr masnach a rhagdaliadau yw derbyniadau'r Gronfa Goffa yn bennaf. Gan hynny, nid yw'n agored i risgiau credyd sylweddol.

### Risgiau arian tramor

Mae'r elfen o'r gronfa waddol sydd wedi'i buddsoddi mewn Cronfa Asedau Lluosog Cynaliadwy gan ein darparwr rheoli buddsoddiadau wedi'i phrisio mewn sterling. Mae'r Gronfa Goffa yn buddsoddi mewn nifer mawr o gwmnïau buddsoddi a chynhyrchion tebyg, y mae llawer ohonynt yn cynnwys buddsoddiadau ac asedau sydd wedi'u prisio mewn arian cyfred gwledydd eraill. Nid yw'n bosibl bod yn fanwl gywir am y gyfran o'r buddsoddiadau sydd wedi'u prisio mewn arian cyfred gwledydd eraill, ond mae'n tua dau draean o'n daliadau buddsoddi. Mae'r Gronfa Goffa yn lliniaru'r ffaith ei bod yn agored i risgiau cyfnewid tramor trwy fuddsoddi mewn lledaeniad byd-eang o ecwitïau, bondiau a nwyddau, ac felly mathau gwahanol o arian cyfred. Mae Panel Buddsoddi'r Ymddiriedolwyr yn monitro buddsoddiadau ein cronfa waddol, gan gynnwys pa mor agored y mae i arian cyfred gwledydd eraill o fewn y Gronfa Goffa. Mae holl asedau a rhwymedigaethau eraill y Gronfa Goffa wedi'u dynodi mewn sterling.

### Risg buddsoddiadau

Caiff y buddsoddiadau eu buddsoddi mewn cronfa a reolir gan ein darparwr rheoli buddsoddiadau. Mae buddsoddiadau sylfaenol fel arfer yn ymddiriedolaethau buddsoddi sydd yn y pen draw wedi'u hategu gan fuddsoddiadau cyfranddaliadau. Gall gwerth cyfranddaliadau fynd i fyny ac i lawr am amrywiaeth eang o resymau. Trwy fuddsoddi gyda'n darparwr rheoli buddsoddiadau rydym yn prynu i mewn i'w harbenigedd mewn gwneud buddsoddiadau. Ar ôl buddsoddi'n wreiddiol yn y Gronfa Asedau Lluosog Elusennol ac erbyn hyn yn y Gronfa Asedau Lluosog Cynaliadwy, rydym yn ceisio hanes o enillion uwchlaw chwyddiant tra'n lleihau effaith anweddolrwydd y farchnad.

Drwy fuddsoddi mewn cronfa asedau lluosog, mae ein harian yn cael ei ddosbarthu ar draws nifer fawr o fuddsoddiadau a mathau o asedau, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u dylunio i gynnal gwerth mewn marchnadoedd sy'n gostwng, er mwyn lledaenu'r risg. Delir y buddsoddiadau hyn er budd hirdymor y Gronfa Goffa, gan ein galluogi i dynnu symiau i lawr pan fydd y galw am ddyfarniadau grant yn fwy na'n cymorth grant blynyddol. Gan hynny, os bydd gwerth y buddsoddiadau'n codi neu'n gostwng yn sylweddol mewn unrhyw flwyddyn benodol, ni fyddai hyn yn effeithio'n syth ar y grantiau a roddwn. Gan ddibynnu ar natur y newid sylweddol yng ngwerth y buddsoddiad, a'i debygolrwydd o barhau yn y tymor canolig i'r tymor hir, gall ymddiriedolwyr ddiwygio cyllidebau grant yn y dyfodol i adlewyrchu'r effaith.

Mae'r Panel Buddsoddi'n cynnwys tri aelod annibynnol sydd â phrofiad helaeth yn y marchnadoedd ariannol. Mae'r Panel Buddsoddi'n adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr.

### Asedau ariannol yn ôl categori

| | 2024–25 £'000 | 2023–24 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau yn unol â'r datganiad o'r sefyllfa ariannol | | |
| – Buddsoddiadau | 34,687 | 37,707 |
| – Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 47,176 | 41,168 |
| – Benthyciadau a symiau derbyniadwy | 12 | 12 |
| | 81,875 | 78,887 |

### Rhwymedigaethau ariannol yn ôl categori

| | 2024–25 £'000 | 2023–24 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau yn unol â'r datganiad o'r sefyllfa ariannol | | |
| – Ymrwymiadau grant | 75,136 | 76,892 |
| – Masnachu a symiau taladwy eraill | 91 | 460 |
| – Croniadau | 76 | 105 |
| | 75,303 | 77,457 |

### Gwerthoedd teg

1. Mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried bod y llyfrwerth o'r unfaint â'r gwerth teg ar gyfer yr holl asedau a rhwymedigaethau ariannol.
2. Arian parod yw gwerth buddsoddiadau ac adneuon marchnad ariannol tymor byr gyda banciau masnachol. Y disgwyliad yw y bydd y llyfrwerth yn cyfateb i'r gwerth teg.
3. Gwneir buddsoddiadau mewn gwarantau all gael eu marchnata'n hwylus ac fe'u prisir ar ganol y farchnad ar ddiwedd busnes ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Pan fo'n berthnasol, cymerir y gyfradd gyfnewid derfynol rhwng yr arian cyfred sylfaenol a sterling ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Mae llyfrwerth yn adlewyrchu'r pris gwirioneddol a dalwyd mewn sterling ar ddyddiad cwblhau'r trafodyn.
4. Ni thybir bod angen darpariaeth ar gyfer drwgddyled. Nid yw'r un o'r dyledion yn dymor hir ac felly ni chymhwyswyd unrhyw ffactor disgowntio.
5. Mae'r holl symiau taladwy nad ydynt yn ymwneud â grantiau'n ddyledus o fewn telerau contract arferol, 14-30 niwrnod fel arfer, ac felly nid oes unrhyw wahaniaeth yn bodoli rhwng llyfrwerth a gwerth teg.

### Aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol

Mae'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn datgelu'r ffigurau uchod wedi'u gwahanu rhwng y symiau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn a symiau sy'n ddyledus ymhen mwy nag un flwyddyn. Nid yw ein contractau gyda grantïon yn cynnwys unrhyw raniad rhwng symiau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn a'r tu hwnt i un flwyddyn.

Yn ddamcaniaethol, gallai grantïon ofyn am eu grant cyfan o fewn y 12 mis nesaf os cwblhawyd eu prosiectau o fewn y cyfnod hwnnw. Gan hynny, rydym wedi mabwysiadu ymagwedd ochelgar ac wedi dangos bod yr holl rwymedigaethau'n aeddfedu o fewn un flwyddyn. Yn 2024–2025, mae hyn yn £75,303,000 (£77,457,000 yn 2023–2024)

## 21. Colledion a thaliadau arbennig

Ceir colledion pan nad oes unrhyw dystiolaeth bod amcanion prosiect a ariannwyd wedi'u cyflawni. Yn 2024–2025, nid oedd gan y Gronfa Goffa unrhyw ddyledion wedi'u diddymu (2023–2024: dim byd).

Mae taliadau arbennig yn codi pan gymeradwyir taliadau ex-gratia. Ni wnaed unrhyw daliadau arbennig yn y flwyddyn (2023-2024: dim byd).

## 22. Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2025, nid oedd gan y Gronfa Goffa unrhyw ymrwymiadau cyfalaf y contractiwyd ar eu cyfer neu ymrwymiadau cyfalaf a gymeradwywyd nas contractiwyd ar eu cyfer.

## 23. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau ar ôl dyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a hyd at y dyddiad yr awdurdodwyd cyhoeddi'r cyfrifon y mae angen addasu'r datganiadau ariannol ar eu cyfer. Dehonglir y dyddiad yr awdurdodwyd cyhoeddi'r cyfrifon fel dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

# Datgelu buddsoddiadau

## Buddsoddi'r gronfa waddol

Mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried cyfandaliad o £10m a roddwyd i'r Gronfa Goffa ym 1980 fel gwaddol i'w ddefnyddio o bryd i'w gilydd ochr yn ochr â'i chymorth grant i helpu cefnogi treftadaeth y DU. Buddsoddir y gwaddol er mwyn uchafu'r enillion dros y tymor hir.

Allanolir rheoli buddsoddiadau i'r rheolwyr cronfeydd arbenigol, Cazenove Capital. Mae polisi buddsoddi'n gyfrifoldeb i'r Panel Buddsoddi - is-bwyllgor i'r Bwrdd. Mae'r panel yn cynnwys dau ymddiriedolwr a thri arbenigwr ariannol arbenigol sy'n cwrdd â'r darparwr rheoli buddsoddiadau dwywaith y flwyddyn i drafod ei berfformiad.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod y gall fod buddiant cyhoeddus mewn datgelu'r buddsoddiadau sy'n cael eu gwneud ac yn disgrifio eu manylion isod. Mae'r Gronfa Asedau Lluosog Cynaliadwy yn buddsoddi mewn nifer mawr o ymddiriedolaethau unedol a mathau eraill o fuddsoddiad, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn prynu ac yn gwerthu asedau'n rheolaidd. Roedd yr wybodaeth yn gywir ar 31 Mawrth 2025 ac fe gaiff ei diweddaru'n flynyddol yn yr Adroddiad Blynyddol.

Mae gan y darparwr rheoli buddsoddiadau ei bolisi buddsoddi cyfrifol ei hun y mae'n ei fabwysiadu wrth wneud buddsoddiadau. Mae'n ystyried materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ac yn cynhyrchu adroddiad buddsoddi cyfrifol blynyddol sy'n manylu ar ei weithgareddau. Mae'r darparwr rheoli buddsoddiadau'n cydymffurfio ag Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig. Rydym yn mynnu bod y darparwr yn ein hysbysu os yw'n ystyried buddsoddi mewn unrhyw sefydliad a allai o bosibl beri embaras i'r Gronfa Goffa.

### Cronfa Asedau Lluosog Cynaliadwy

| Asedau twf | 72.9% |
|---|---|
| **Ecwitïau Byd Eang Craidd** | **51.8%** |
| Direct Equities, 30-50 o fusnesau cynaliadwy amlycaf y byd | 51.8% |
| **Ecwitïau thematig** | **21.1%** |
| HSBC Global Sustainable Healthcare Equity | 2.3% |
| Robeco Circular Economy Fund | 1.7% |
| Rockefeller US Small Cap Fund | 2.5% |
| Schroder Global Sustainable Value | 5.0% |
| UBAM Positive Impact EM Fund | 1.5% |
| UBS ESG Elite S&P 500 ETF | 8.1% |

| Dewisiadau amgen | 13.5% |
|---|---|
| **Eiddo** | **3.8%** |
| Charities Property Fund | 1.9% |
| Property Income Trust for Charities | 1.8% |
| **Amrywiaethwyr** | **9.7%** |
| BlueOrchard Microfinance Fund | 0.9% |
| Brevan Howard Absolute Return Fund | 1.1% |
| Schroder Sustainable Diversified Alternative Asset Fund | 3.6% |
| Wisdom Tree Energy Transition Metals | 1.7% |
| WisdomTree Physical Gold ETF | 2.4% |

| Asedau amddiffynnol | 13.6% |
|---|---|
| **Bondiau** | **10.5%** |
| 1.125 UK Gilt 2039 | 2.2% |
| Inflation Linked Gilt 2026 | 1.0% |
| Lombard Odier Climate Bond | 1.0% |
| Morgan Stanley Global Asset Backed Securities | 1.9% |
| Schroder SSF Sustainable Sovereign Bond Fund | 2.4% |
| Threadneedle EU Social Bond Fund | 1.0% |
| TwentyFour Sustainable Short Term Bond | 1.0% |
| **Arian parod a chyfwerth** | **3.1%** |
| HSBC ESG Liquidity Fund | 0.4% |
| Arian parod | 2.8% |

Ffynhonnell: Cazenove 31 Mawrth 2025

# Cadeirydd, ymddiriedolwyr a rheolwyr


## Cadeirydd ac ymddiriedolwyr

**Cadeirydd**
Dr Simon Thurley CBE

**Ymddiriedolwyr**
Anna Eavis
Julian Glover
Roisha Hughes
Denise Lewis-Poulton
Ray Macfarlane
Taryn Nixon
Carol Pyrah
Mukesh Sharma MBE DL
James Twining

## Cyfarwyddwyr gweithredol

**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**
Eilish McGuinness

**Cyfarwyddwyr gweithredol**
Isabel Hunt
Anne Jenkins
Richard Sydee


## Cysylltu â ni


4th Floor
Cannon Bridge House
25 Dowgate Hill
Llundain EC4R 2YA

nhmf_enquiries@nhmf.org.uk
www.nhmf.org.uk



## Panel Ymgynghorol

Anna Eavis (Cadeirydd)
Peter Barber OBE, SA
Lennox Cato
Professor Aonghus MacKechnie
Sally Montgomery
Dr Tessa Murdoch FSA
Orlando Rock
Dr Matt Thompson
o 22 Gorffennaf 2024

## Panel Buddsoddi'r Ymddiriedolwyr

Dr Simon Thurley CBE (Cadeirydd)
Jamie Korner
Katrina Norris
David Smart
James Twining



### Cydnabyddiaeth

Clawr: Crucifixion with the Virgin, Saint John the Evangelist and the Magdalen © Amgueddfa Ashmolean

Mavisbank House © Stewart Attwood

Celc Gorllewin Norfolk © Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Norwich

Y Brenin Harri VI fel sant © Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa Brydeinig

The Deposition from the Cross, Cerflun Ifori Walrws, Gogledd Lloegr, Efrog yn ôl pob tebyg, tua 1190-1200. Trwy garedigrwydd y V&A.

Testament Newydd Duke Humfrey © Llyfrgelloedd Bodley, Prifysgol Rhydychen

Llongddrylliad Sanday © Cyngor Ynysoedd Erch

Basuto © Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd

Brasluniau a darluniau o Archif Teulu Nesfield © Archif Dylunio Gerddi

Gohebiaeth yn ymwneud â chyhoeddi gweithiau cynnar George Orwell © UCL

Crucifixion with the Virgin, Saint John the Evangelist and the Magdalen © Amgueddfa Ashmolean

Papurau Delilah Turing © Coleg y Brenin, Caergrawnt

Pum llawysgrif ganoloesol © Llyfrgell Brydeinig

Yr Anrh. Pencampwr y Brenin Henry Dymoke Ysw. © Amgueddfa'r Arfdai Brenhinol (Llyfrgell) - Llyfrgell Delweddau - Leeds

E03363106
978-1-5286-5733-4